

Cyngor Sir Fynwy

# Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd 2011-2021

## Adroddiad Monitro Blynyddol

### Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021

# Cyngor Sir Fynwy
# Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd
# 2011 - 2021

## Adroddiad Monitro
## Blynyddol

### Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021


**Gwasanaeth Polisi Cynllunio**

**Cyfarwyddiaeth Menter**

**Cyngor Sir Fynwy**

**Neuadd y Sir**

**Brynbuga**

**NP15 1GA**

**Ffôn: 01633 644644**

**E-bost: planningpolicy@monmouthshire.gov.uk**

# Tudalen Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **1.** Crynodeb Gweithredol | 1 |
| **2.** Cyflwyniad | 9 |
| **3.** Gwybodaeth Cyd-destun | 13 |
| **4.** Proses Monitro y Cynllun Datblygu Lleol | 21 |
| **5.** Monitro’r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi | 25 |
| **6.** Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd | 102 |
| **7.** Casgliadau ac Argymhellion | 124 |
| Atodiad 1 | 135 |

# 1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ar 27 Chwefror 2014. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol fel rhan o broses y cynllun datblygu lleol.

1.2 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi'r sail ar gyfer monitro effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y pen draw yn penderfynu os oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Mae'n anelu i ddangos i ba raddau y mae strategaeth amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni ac os yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithlon. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith a gaiff y Cynllun Datblygu Lleol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y Sir ac yn dynodi unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun a all ddylanwadu ar weithrediad neu adolygiad y Cynllun.

1.3 Hwn yw'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei baratoi ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ac mae'n seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021.

**Canfyddiadau Allweddol y Seithfed Proses Monitro Blynyddol 2020-2021**

**Gwybodaeth Cyd-destun**

1.4 Mae Adran 3 yn rhoi crynodeb o'r deunydd cyd-destun perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro presennol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ynghyd â thueddiadau economaidd cyffredinol ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn bennaf, bydd goblygiadau'r newidiadau cyd-destun yn digwydd dros y tymor hirach ac fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Fodd bynnag, cafodd nifer o ddogfennau polisi perthnasol gan Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi/diweddaru yn ystod y cyfnod monitro. Ym mis Chwefror 2021, cafodd Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11 eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn rhoi'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol i awdurdodau cynllunio lleol eu dilyn wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Covid-19 ac Adeiladu Lleoedd Gwell: Creu Lleoedd a'r adferiad Covid-19 (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020)**

1.5 Aeth y Deyrnas Unedig i gyfnod clo ar 23 Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig Covid-19 a dros y cyfnod monitro bu tri chyfnod clo a bu rhyw fath o gyfyngiadau yn eu lle ar gyfer yr holl gyfnod. Adeg ysgrifennu'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, bu llacio sylweddol ar gyfyngiadau'r cyfnod clo tebyg i agor manwerthu, lletygarwch a'r diwydiant twristiaeth. Fodd bynnag, mae goblygiadau cyfnodau clo a chyfyngiadau Covid-19 yn dal i ddod i'r amlwg ar raddfa genedlaethol a lleol a rydym yn dal i fod heb wybod beth fydd effaith sefyllfa Covid-19 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Rhoddir adroddiad ar unrhyw oblygiadau yn adroddiadau perthnasol y

Cynllun Monitro Blynyddol a'u hadlewyrchu wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

1.6 I helpu gydag adferiad Covid-19 yn y broses cynllunio, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair a Creu Lleoedd – Creu Lleoedd ac Adferiad Covid-19 ym mis Gorffennaf 2020, yn nodi ei flaenoriaethau polisi cynllunio wrth weithredu yn y cyfnod adferiad yn dilyn pandemig Covid-19. Mae dogfen Adeiladu Lleoedd Gwell yn cydnabod y newidiadau sylweddol yn y ffordd y gweithredwn yn ein bywydau bob dydd a'n cymunedau lleol a'r cyfle a greodd hynny i barhau gyda rhai o'r newidiadau hyn mewn ymddygiad a phwysigrwydd cynyddol creu lleoedd ac ymatebolrwydd, creadigrwydd ac arloesedd lleol yng nghyswllt y cynlluniau datblygu lleol a amlygwyd fel canlyniad i Covid-19.

**Ffosffadau**

1.7 Yn ystod y cyfnod monitro mabwysiadodd Cyfoeth Naturiol Cymru dargedau tynnach ar gyfer ansawdd dŵr cyrsiau dŵr yn gysylltiedig gydag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg a'r Afon Gwy yn dilyn tystiolaeth newydd am effeithiau amgylcheddol ffosffadau yn y cyrsiau dŵr hyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio manwl i sicrhau nad yw capasiti amgylcheddol yr afonydd yn gwaethygu ymhellach. Mae angen i unrhyw geisiadau cynllunio a gyflwynwyd o fewn dalgylchoedd y cyrsiau dŵr yr effeithiwyd arnynt ddangos niwtraliaeth neu welliant o ran ffosfadau yn eu dyluniad a/neu gyfraniad i'r corff dŵr. Mae gan yr arweiniad hwn oblygiadau sylweddol ar gynigion datblygu o fewn dalgylchoedd yr afonydd yr effeithir arnynt ac rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru, y diwydiant datblygu a'n swyddogion bioamrywiaeth i ganfod datrysiadau a galluogi datblygiad i fynd rhagddo.

**Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi**

1.7 Mae Adran 5 o'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi asesiad manwl o sut mae polisïau strategol y Cyngor a pholisïau cefnogi cysylltiedig yn cyflawni ar y targedau monitro a deilliannau allweddol a ddynodwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i roi barn wybodus am gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/deilliannau monitro a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl islaw'n rhoi trosolwg gweledol o effeithlonrwydd polisïau yn ystod y cyfnod monitro presennol yn seiliedig ar y sgôr goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad.

1.8 Yn gyffredinol, mae'r cynllun yn gweithio'n effeithlon gyda mwyafrif y targedau monitro yn cael eu cyrraedd, er fod hyn ychydig yn is nag Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd. Bu hefyd gynnydd bach yn nifer y dangosyddion nad ydynt wedi cyrraedd y targed eleni, ond mae cyfiawnhad addas, ac ni chodwyd unrhyw bryderon. Fodd bynnag, bu hefyd gynnydd yn y sgôr 'coch' a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro presennol o gymharu ag Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20 (3 o gymharu ac 1 sgôr

coch yn 2019-20). Mae hyn oherwydd cynnydd yn y cyfraddau unedau gwag yn nhrefi y Fenni a Threfynwy. Rhoddir sylwadau pellach islaw.

| | |
|---|---|
| Targedau/deilliannau monitro* yn cael eu cyrraedd | **54** |
| Targedau / deilliannau monitro* ddim yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw bryderon am weithredu'r polisi | **29** |
| Targedau / deilliannau monitro* ddim yn cael eu cyrraedd gyda phryderon dilynol am weithredu'r polisi | **3** |
| Ni ellir dod i gasgliad oherwydd mai data cyfyngedig sydd ar gael neu ddim data perthnasol yn ystod y cyfnod monitro | **5** |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun, caiff y deilliannau monitro eu hasesu a'u graddio yn unol â hynny

**Canfyddiadau Allweddol yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

1.9 Mae canlyniadau'r broses fonitro yn dangos fod llawer o'r targedau dangosydd a deilliannau monitro yn cael eu cyrraedd (sgôr golau traffig gwyrdd) gan nodi fod polisïau perthnasol y Cynllun yn cyflawni fel y bwriadwyd. Nodir yn neilltuol dros y cyfnod monitro:

- Mae cynnydd yn parhau i weithredu'r strategaeth ofodol.
- Cwblhawyd 419 annedd yn cynnwys 71 cartref fforddiadwy. Bu'r nifer o anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd dros y tri chyfnod monitro diweddar yn sylweddol uwch na'r rhai ym mlynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun, gan adlewyrchu cynnydd safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol mewn blynyddoedd diweddar.
- Mae caniatâd cynllunio erbyn hyn gan chwech o'r saith safle tai strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, gyda chais yn cael ei ystyried ar y seithfed yn Vinegar Hill, Gwndy.
- Mae nifer yr anheddau newydd a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yn amlwg is na'r tair blynedd flaenorol, o 1,238 yn 2017-2018, 598 yn 2018-2019, 251 yn 2019-2020 i 86 annedd. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd cyfuniad o ffactorau ond yn bennaf oherwydd fod caniatâd cynllunio eisoes gan y mwyafrif o safleoedd a ddyrannwyd, gyda'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyrraedd camau diweddaraf ei gyfnod ac effaith mesurau lliniaru ffosffadau (er y nodir mai dim ond tuag at ddiwedd y cyfnod monitro y daeth hyn i rym).
- Mae cyfanswm nifer yr anheddau tai fforddiadwy a gwblhawyd dros chwe mlynedd mabwysiadu'r Cynllun (495 uned) yn parhau yn is na'r targed cyflenwi gofynnol o 672 cartref fforddiadwy dros yr un cyfnod.

- Mae gan y Cyngor gyfanswm o 40.16 hectar o dir cyflogaeth ar gael, gan ddangos y cedwir digon o dir cyflogaeth i ateb y gyfradd defnydd a ddynodwyd.

- Bu cynnydd yng nghyswllt caniatâd cyflogaeth o fewn y Sir, gyda chaniatâd wedi'i roi ar gyfer ystod o ddefnyddiau cyflogaeth dosbarth defnydd B ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd (SAE2) a safleoedd heb eu dyrannu (yn gyfanswm o 5.04 ha hectar). Cafodd nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a chynlluniau mentrau gwledig hefyd eu cymeradwyo (8), gan roi cyfleoedd cyflogaeth ledled y Sir.

- Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynigion ar gyfer cyfanswm o 14 cyfleuster twristiaeth, yn amrywio o westy, unedau gwyliau i lety glampio. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Gynaliadwy (Tachwedd 2017) wedi helpu i egluro ein cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y sector pwysig hwn o'n heconomi.

- Mae cyfraddau unedau gwag yng nghanol Magwyr a Brynbuga wedi gostwng ers y cyfnod monitro blaenorol, gyda Rhaglan yn parhau ar yr un lefel. Fodd bynnag, mae cyfraddau unedau gwag yn ardaloedd siopa canolog Cil-y-coed a Chas-gwent wedi codi o gymharu ag Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd.

- Yn gyffredinol mae'r gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiad siopa y trefi yn gyffredinol yn cydymffurfio â throthwyon Canllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa.

- Cymeradwywyd tri chais cynllunio ar gyfer cyfleusterau cymunedol a hamdden.

- Mae tir digonol yn parhau i fod ar gael ar gyfer safleoedd posibl ar gyfer rheoli gwastraff ac ni fu unrhyw ostyngiad yn y banc tir mwynau.

- Nid oedd unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli adeiladau rhestredig na safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol

1.9 Dengys y dadansoddiad hefyd nad yw dangosyddion polisi amrywiol yn cael eu cyflawni ond heb unrhyw bryderon cyfatebol am weithredu polisi, fel y manylir yn Adran 5 (sgôr golau traffig oren). Penderfynodd ymchwiliad pellach fod cyfiawnhad am y perfformiad a gofnodwyd ac nad yw hyn yn arwydd o unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu'r fframwaith polisi neu'r strategaeth ar hyn o bryd.

1.10 Y mae, fodd bynnag, ddau ddeilliant monitro polisi nad ydynt yn datblygu fel y bwriadwyd yn ymwneud â chyfraddau unedau manwerthu gwag a darpariaeth tai (sgôr golau traffig coch):

- Gan fod cyfraddau uwch o unedau gwag wedi digwydd am ddwy flwyddyn yn olynol yn ardaloedd siopa canolog y Fenni a Threfynwy, cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd yma ei gyrraedd.

- Mae cyfraddau cwblhau anheddau yn brin o 1,500 uned (33.3%) dros gyfnod y Cynllun hyd yma o'i fesur o gymharu â'r gofyniad cyfartalog blynyddol cronnus sydd newydd ei gyflwyno.

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

1.11 Bydd paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn parhau yn y cyfnod monitro nesaf fel sy'n briodol. Lle'n hanfodol, fodd bynnag, caiff adnoddau eu canolbwyntio ar y Cynllun Newydd.

**Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

1.12 Mae Adran 6 yn ehangu asesiad perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag amcanion monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd sy'n helpu i ddangos y rhyng-gysylltiad rhwng monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

1.13 Mae rhai o'r canfyddiadau amlycaf sy'n benodol i'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod monitro presennol yn cynnwys:

- Cafodd un datblygiad newydd mawr[1] ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro - SAH11(xiv)(a) i'r de o is-ffordd, Drenewydd-Gellifarch. Mae'r safle hwn o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws cyson a rheolaidd.
- Collwyd un goeden oedd â Gorchymyn Cadw Coed i ddatblygiad yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn gynnydd ar Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd.
- Ni aethpwyd yn uwch na lefel amcan blynyddol nitrogen deuocsid yn ystod y cyfnod monitro, gan adlewyrchu'r gostyngiad mewn llif traffig fel canlyniad i Covid-19;
- Roedd dau o'r pump cynnig a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a safleoedd gyda dros 10 annedd/1ha yn cynnwys Systemau Draeniad Trefol Cynaliadwy (SUDS)[2] yn y cynllun. Mae'r gyfran o gynlluniau sy'n cynnwys SuDS wedi parhau ar 40%, yr un fath â'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol.

---

[1] Diffinnir datblygiad mawr fel datblygiad yn cynnwys un neu fwy o'r dilynol: datblygiadau o 10 neu fwy o anheddau neu 0.5ha neu fwy; datblygiad adeilad neu adeiladau lle mae'r gofod llawr a gaiff ei greu yn 1000m2 neu fwy; datblygiadau ar y safle gydag arwynebedd o 1ha neu fwy; ennill neu weitho ar fwynhau, neu ddefnyddio'r tir ar gyfer adneuon gweithoi mwynau; neu ddatblygiad gwastraff.

[2] Mae SuDS yn ddatrysiadau draeniad sy'n rhoi dewis arall heblaw sianelu dŵr wyneb drwy rwydweithiau o bibelli a charthffosiaeth i gyrsiau dŵr cyfagos. Drwy efelychu systemau draeniad naturiol, nod SUDS yw gostwng llifogydd dŵr wyneb, gwella ansawdd dŵr a chynyddu gwerth amwynder a bioamrywiaeth yr amgylchedd. Mae SuDS yn cyflawni hyn drwy ostwng cyfraddau llif, cynyddu capasiti storio dŵr a gostwng cludo llygredd i'r amgylchedd dŵr (*Cymdeithas Ddaearegol Prydain).*

- Disgynnodd lefelau llif dŵr ar gyfer lefel llif yr haf mewn dwy o'r tair gorsaf monitro, yr Afon Gwy am 17 diwrnod a'r Afon Wysg am 2 ddiwrnod. Arhosodd yr Afon Mynwy yn uwch na lefel llif yr haf.
- Cafodd 64.9% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae hyn yn gynnydd bach ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol oedd yn dangos y cafodd 61.60% ei ailgylchu neu ei gompostio.
- Ni chafodd unrhyw dir amaethyddol Gradd 3a ac uwch ei golli i ddatblygiad mawr dros y cyfnod monitro.
- Dynododd adroddiad STEAM Sir Fynwy (2020) fod cyfanswm gwariant twristiaeth blynyddol yn £81.16 miliwn dros gyfnod 2020. Roedd hyn yn cymharu gyda £244.99 miliwn dros gyfnod 2019, yn gyfwerth â gostyngiad o 67.7%. Er fod hyn yn ostyngiad sylweddol ers y cyfnod blaenorol, mae hyn yn adlewyrchu'r effaith a gafodd pandemig Covid-19 ar y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch, a gaiff ei adlewyrchu yn genedlaethol.

**Casgliadau ac Argymhellion**

1.14 Drwyddi draw, mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21 yn dangos fod cynnydd da yn parhau wrth weithredu llawer o bolisïau'r Cynllun ac yn gyffredinol fod y strategaeth yn parhau'n gadarn. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd yng nghyswllt Safleoedd Tai Strategol y Cynllun, mae cyfraddau cwblhau cronnus ar gyfer cyfnod y Cynllun yn is na gofyniad y Cynllun ac yn parhau'n fater o gonsyrn os yw amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ac anghenion tai cymunedau Sir Fynwy i gael eu cyflawni.

1.15 Oherwydd y pwysigrwydd a osodir ar ddarparu a chynnal cyflenwad cyson o dir tai, penderfynodd y Cyngor ym mis Mai 2018 i ddechrau gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ar gyfer y cyfnod 2018-2033.

1.16 Caiff y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi, a gafodd ail ddiwygiad ym mis Hydref 2020 i roi ystyriaeth i'r oedi ym mhroses y Cynllun fel canlyniad i Covid-19 a'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn ymgynghori ar set ddiwygiedig o opsiynau Twf a Gofodol yn ystod Ionawr-Chwefror 2021 i roi ystyriaeth i'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf, cyhoeddwyd Strategaeth a Ffafrir ddiwygiedig ar gyfer ymgynghori am gyfnod o chwe wythnos yn ystod Gorffennaf/Awst 2021.

1.17 Mae'r oedi a nodwyd uchod yn anochel wedi golygu colli amser wrth baratoi a rhaglen fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gydag ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau ar y gweill ar gyfer hydref 2022 a disgwyl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ddiwedd 2023. Codwyd pryderon difrifol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf yng nghyswllt y ddeddfwriaeth oedd yn ei lle ar y pryd parthed dyddiadau dod i ben y Cynllun Datblygu Lleol a 'dyddiad dydd y farn' lle y byddai'r Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd yn peidio bod ag unrhyw bwysau o gwbl ar ôl ei ddyddiad gorffen o 31 Rhagfyr 2021, heb unrhyw fframwaith polisi cynllunio lleol i lywio gwneud

penderfyniadau. Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn egluro nad yw'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru 2015 yng nghyswllt y cyfnod lle nad oes gan y cynllun effaith yn weithredol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd cyn 2016. Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio nes y bydd Cynllun Datblygu Lleol pellach yn cymryd eu lle[3]. Croesewir yr eglurhad hwn ac mae'n sicrhau fod fframwaith polisi yn parhau yn ei le tra bo'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn mynd rhagddo, gan roi sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad economaidd parhaus a chyfleoedd ar hap.

1.18 Fodd bynnag, mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cyrraedd diwedd cyfnod 15-mlynedd y cynllun gyda chwech o'r saith dyraniad tai strategol bellach nawr un ai â chaniatâd cynllunio, wrthi'n cael eu hadeiladu neu wedi eu cwblhau. Er y bydd y rhain yn parhau i fod â rôl bwysig mewn cyfraddau cyflenwi a chwblhau tai yn y tymor byr wrth i safleoedd gael eu hadeiladu, mae'r gostyngiad mewn anheddau a ganiateir yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn achos consyrn. Mae cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i roi fframwaith a dull polisi parhaus ar gyfer trin materion demograffig a fforddiadwyedd lleol y Cyngor felly yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.

1.19 Mae gan y cyhoeddiad yn ystod y cyfnod monitro am faterion ansawdd dŵr ffosffadau yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol yr Wysg a'r Gwy hefyd oblygiadau ar gyfer datblygiad parhaus yn y Sir. Er mai effaith gyfyngedig a gafodd y mesurau newydd ar lefelau caniatâd yn ystod y cyfnod monitro hwn oherwydd mai ym mis Ionawr y cawsant eu cyflwyno, codwyd pryderon yng nghyswllt yr effaith barhaus ar lefelau caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Fodd bynnag, gwneir cynnydd da wrth drin ffosffadau a rhagwelir y gellir penderfynu a chytuno ar ddatrysiadau yn y tymor byr i hwyluso parhau i gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol a pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i geisio datrysiadau i'r mater ffosffadau ac yn cael trafodaethau gyda'r sefydliadau allweddol, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru a'r diwydiant datblygu, i geisio datrysiadau hyfyw ac amserol yn y setliadau yr effeithiwyd arnynt. Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n barhaus.

1.20 Yng nghyswllt y cynnydd yn y cyfraddau lleoedd gwag yn ardaloedd siopa canolog y Fenni, efallai fod hyn yn adlewyrchu'n rhannol effaith pandemig Covid-19 ar y stryd fawr ar draws Prydain, yn neilltuol golled rhai o cadwyni cenedlaethol o ganol trefi. Mewn ymateb, mae canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru[4] yn cydnabod, er y dylai datblygiadau manwerthu barhau i ganolbwyntio ar ganol trefi, y dylid galluogi canolfannau manwerthu a masnachol i weithredu mewn modd mor hyblyg ag sydd modd. Bydd hyn yn sicrhau fod canolfannau manwerthu a masnachol yn y dyfodol yn

[3] Llythyr Llywodraeth Cymru – 24 Medi 2020 - https://gov.wales/local-development-plan-ldp-end-dates-letter-local-authorities

[4] Adeiladu Lleodd Gwell – Y System Gynlluno yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020) - https://gov.wales/planning-policy-covid-19-recovery; llythyr Llywodraeth Cymru ynghylch hawliau datblygu dros dro a ganiateir mewn canol trefi, 30 Mawrth 2021 - https://gov.wales/coronavirus-covid-19-new-temporary-permitted-development-rights-support-economic-recovery-html

ganolbwyntiau i weithgaredd cymdeithasol ac economaidd ac ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau/digwyddiadau diwylliannol sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Dylai'r dull hwn alluogi'r system cynllunio i fod yn ymatebol, hyblyg a phragmatig i gynorthwyo gyda'r adferiad o Covid-19. Caiff unrhyw effeithiau ar hyn o ganol trefi'r Sir eu cofnodi yn y cyfnod monitro nesaf.

1.21 I gefnogi canol trefi ymhellach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr ym mis Mawrth 2021 yn nodi nifer o hawliau datblygu dros dro i ganiatáu newid defnydd rhwng dosbarth defnydd A (manwerthu a bwyd a diod) i hwyluso system gynllunio hyblyg i gynorthwyo gydag adferiad Covid-19.

1.22 Yn lleol, rhoddodd y Cyngor i nifer o fesurau dros dro ar waith pan oedd pandemig Covid-19 ar ei anterth, tebyg i drwyddedau caffe stryd a rhoi blaenoriaeth i symudiadau cerddwyr o amgylch canol trefi i hwyluso cyfyngiadau pellter cymdeithasol Covid-19. Bydd y Cyngor yn ystyried cyfleoedd i ymestyn y rheoliadau angenrheidiol i'w gwneud yn bosibl ystyried gwahanol fesurau treialu ynghyd ag adborth gan randdeiliaid perthnasol, Yn ychwanegol, drwy ei dîm Adfywio mae'r Cyngor yn ymchwilio cyfleoedd i sicrhau rhan o grant 'Creu Lleoedd' Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyllid refeniw Trawsnewid Trefi a'r Gronfa Fusnes Trawsnewid Trefi.

1.23 Er bod y cynnydd dwy flynedd yn olynol mewn cyfraddau unedau gwag yn y Fenni a Threfynwy yn achosi consyrn, mae pob canolfan heblaw am Drefynwy yn is neu'n fras yr un fath â chyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr (13.7% Rhagfyr 2020, Local Data Company), gan ddangos fod canol trefi a chanolfannau lleol Sir Fynwy yn gweithredu'n effeithlon gan bennaf. Fodd bynnag, byddir yn dal i fonitro'r sefyllfa fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol a'r arolygon manwerthu blynyddol.

1.24 Felly, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn argymell y dilynol:

1. Parhau i ddatblygu gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae cyfnod ffurfiol nesaf y Cynllun hwnnw yn cynnwys ymgynghoriad ar a y Strategaeth a Ffafrir yn Haf 2021.

2. Parhau i weithio gyda'r sefydliadau perthnasol i geisio datrysiad i faterion ansawdd dŵr ffosffadau yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol yr Wysg a'r Gwy.

3. Cyflwyno'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2021 yn unol â gofynion statudol. Cyhoeddi'r Adolygiad Monitro Blynyddol ar wefan y Cyngor.

4. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi'r sylfaen ar gyfer monitro effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y pen draw yn penderfynu os oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Mae'n anelu i ddangos i ba raddau y caiff strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol eu cyflawni ac os yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithlon. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ei gael ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y Sir ac yn dynodi unrhyw newidiadau cyd-destun a fedrai ddylanwadu ar weithrediad neu adolygiad y Cynllun.

2.2 Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses creu cynllun. Mae'n rhoi'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a ffurfio polisi, gweithredu polisi, gwerthuso ac adolygu'r cynllun.

### Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy

2.3 Dan y Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol (2004) a rheoliadau cysylltiedig, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir Fynwy ar 27 Chwefror 2014. Mae'r Cynllun hwn yn rhoi'r fframwaith defnydd tir sy'n ffurfio'r sail ar gyfer penderfyniadau am ddatblygiadau'r dyfodol yn y Sir, yn cynnwys ceisiadau cynllunio.

2.4 Hwn yw'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei baratoi ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ac mae'n seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021.

### Y Gofyniad ar gyfer Monitro

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**

2.5 Mae'n oblygiad statudol ar y Cyngor, dan adran 61 Deddf 2004, i adolygu pob mater y disgwylir y byddant yn effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Yn ychwanegol dan adran 76 y Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i baratoi gwybodaeth ar y materion hyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Mae paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol felly yn rhan ganolog o'r broses cynllun datblygu statudol.

2.6 Er mwyn cysondeb wrth fonitro perfformiad Cynlluniau Datblygu Lleol, dylent gael eu hystyried ar set safonol o ddangosyddion a thargedau monitro. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar yr hyn sydd angen ei gynnwys mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol.

**Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2015**

2.7 Cafodd Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) eu diwygio i symleiddio rhai agweddau o weithdrefnau cynlluniau datblygu lleol, fodd bynnag nid ydynt yn effeithio ar y broses fonitro. Dan Reoliad 37 mae'n ofynnol i'r Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Ddynodi polisïau nad ydynt yn cael eu gweithredu;
  Ac ar gyfer pob polisi:
- Ddynodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi yn cael ei weithredu;
- Dynodi'r camau (os oes rhai) y bwriedir eu cymryd i alluogi'r polisi i gael ei weithredu;
- Ymchwilio os oes angen diwygio'r cynllun i gael cynllun newydd neu ddiwygio'r polisi;
- Monitro cyflenwad tai o gymharu â thrywydd tai arfaethedig y Cynllun Datblygu Lleol.

**Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn Drafft 3, Mawrth 2020)**

2.8 Roedd Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol 2006 yn amlinellu dangosyddion ychwanegol i'r Cynllun Datblygu Lleol y dylai'r Adroddiad Monitro Blynyddol roi sylw iddynt. Cawsant eu cynnwys yn fframwaith monitro'r Cynllun lle'n berthnasol. Cafodd rhai o'r dangosyddion hyn eu haddasu i gyd-fynd yn well ag amgylchiadau lleol a chafodd rhai eu gwrthod fel bod yn anaddas. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol diwygiedig dilynol, yn flaenorol Rhifyn 2 ac yn fwyaf diweddar Rhifyn 3, wedi dileu llawer o'r dangosyddion ychwanegol a gynhwyswyd yn y Llawlyfr cyntaf, yn fwyaf arwyddocaol y cyflenwad tir pum mlynedd, i gael ei newid am ddull monitro trywydd tai. Fodd bynnag mae rhai o ddangosyddion gwreiddiol 2006 yn parhau i gael eu cynnwys yn fframwaith monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd a bydd y Cyngor yn parhau i'w monitro i sicrhau cysondeb gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Nodir fod y llawlyfrau diwygiedig yn cynnwys nifer o ddangosyddion allbwn creiddiol ychwanegol yn ymwneud â darpariaeth tai, cyflogaeth a manwerthu.

**Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy**

2.9 Rhoddir Fframwaith Monitro ym Mhennod Wyth y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cyfres o 51 dangosydd, gyda thargedau a sbardunau cyfatebol ar gyfer gweithredu pellach yng nghyswllt polisïau strategol y Cynllun. Mae hefyd yn dangos y cysylltiadau rhwng themâu'r Cynllun, ei amcanion, polisïau strategol a chynlluniau eraill. Datblygwyd y dangosyddion yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar fonitro. Y Fframwaith Monitro yw sail yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

**Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rheoliadau Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd 2011)**

2.10 Hefyd, mae'n rhaid i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Adroddiad Monitro Blynyddol gydymffurfio â Chyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd. Mae Adendwm yr Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd (2014) yn nodi set bellach o ddangosyddion (61) a ddefnyddir i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd. Er fod cysylltiad rhyngddynt, caiff y rhain eu nodi ar wahân i Fframwaith Monitro Polisi y Cynllun Datblygu Lleol a chawsant eu defnyddio yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y Cynllun Datblygu Lleol.

2.11 Mae cwblhau'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010) fel y'u diwygiwyd.

## Fformat a Chynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol

2.12 Cynlluniwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol i fod yn ddogfen gryno a hygyrch y gellir ei defnyddio fel pwynt cyfeiriad cyfleus ar gyfer pob maes polisi strategol.

2.13 Mae strwythur yr Adroddiad fel sy'n dilyn:

**Adran 1 – Crynodeb Gweithredol** – Crynodeb ysgrifenedig byr o'r prif ganfyddiadau monitro

**Adran 3 - Cyflwyniad** – Amlinellu'r gofyniad am a diben a strwythur yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

**Adran 3 – Gwybodaeth Cyd-destun –** Trosolwg byr o'r wybodaeth cyd-destun berthnasol a fedrai, er y tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol. Rhoddir gwybodaeth gyd-destunol penodol ar bolisïau yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol.

**Adran 4 – Proses Fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol –** Esbonio'r broses fonitro a ddilynwyd.

**Adran 5 – Monitro – Dadansoddiad Polisi –** Dadansoddiad manwl o effeithlonrwydd fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol wrth gyflawni'r nodau/deilliannau a thargedau a ddynodwyd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gweithredu pellach.

**Adran 6 – Monitro Gwerthuso Cynaliadwyedd –** Rhoi asesiad o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu â dangosyddion monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

**Adran 7 - Casgliadau ac Argymhellion –** Rhoi trosolwg o ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol gan gyfeirio at y dadansoddiad a wnaed yn yr adrannau blaenorol a, lle'n berthnasol, argymhellion ar faterion sydd angen eu hystyried ymhellach.

**Cyhoeddi –** Caiff yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## Monitro'r Dyfodol

2.14 Dylai strwythur bras yr Adroddiad Monitro Blynyddol aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn hwyluso dadansoddi adroddiadau dilynol. Fodd bynnag, gan fod y broses fonitro yn ddibynnol ar ystod eang o wybodaeth ystadegol a geir gan y Cyngor a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn olygu fod rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu'n hen. Oherwydd hynny, gall y fframwaith monitro esblygu dros gyfnod y Cynllun a defnyddir Adroddiadau Monitro Blynyddol fel dull o ddynodi unrhyw newidiadau anochel i'r fframwaith.

## Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

2.15 Argymhellodd Adroddiad Monitro Blynyddol Sir Fynwy adolygiad cynnar o'r Cynllun Datblygu Lleol fel canlyniad i drin y diffyg yn y cyflenwad o dir tai ac i hwyluso dynodi a dyrannu tir ychwanegol ar gyfer tai. Mae paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi parhau'n argymhelliad mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol.

2.16 Mae Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn caniatáu 'adolygiad dethol' o ran (neu rannau) o Gynllun Datblygu Lleol. Byddai darpariaeth o'r fath yn caniatáu adolygiad rhannol o'r Cynllun i gynnwys materion yn gysylltiedig gyda'r cyflenwad o dir tai a dewis safle, yn unol ag argymhellion Adroddiadau Monitro Blynyddol 2016 a 2017. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun bob pedair blynedd. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i adolygiad llawn i gyflawni gofynion statudol fod wedi dechrau ym mis Chwefror 2018. Ystyriwyd, felly, ei bod yn fwy addas i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun i ystyried pob agwedd o'r Cynllun Datblygu Lleol er mwyn asesu'n llawn natur a maint y diwygiadau y gallai fod eu hangen.

2.17 Fel canlyniad, dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi Adroddiad yr Adolygiad Terfynol ym mis Mawrth 2018, a adroddwyd yng nghyfnod monitro 2017-2018. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylid diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ac y dylai hyn fod ar wedd gweithdrefn adolygu llawn h.y. Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Daeth hefyd i'r casgliad y dylai Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy gael ei ddiwygio ar sail unigol, yn hytrach nag ar y cyd gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos. Dechreuodd y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ym mis Mai 2018. Fodd bynnag, bu oedi anochel wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, sef oherwydd pandemig Covid-19 a chyhoeddi tystiolaeth allweddol (amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru), a arweiniodd at oedi cynnydd y cynllun ym mis Gorffennaf 2020. Cytunodd Llywodraeth Cymru ar Gytundeb Cyflenwi diwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ym mis Hydref 2020.

2.18 Ymhellach eglurodd llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 24 Medi 2020 nad yw'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru 2015 yn ymwneud â'r cyfnod y mae cynllun mewn grym yn weithredol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd cyn 2016. Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016, yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd gan Sir Fynwy, yn parhau i fod y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio nes cânt eu disodli gan Gynllun Datblygu Lleol pellach. Croesewir yr eglurhad hwn ac mae'n sicrhau fod fframwaith polisi yn dal yn ei le tra bod y gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn mynd rhagddo ac y gall y dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol na chafodd ganiatâd cynllunio hyd yma symud ymlaen drwy bolisïau'r Cynllun a Fabwysiadwyd, gan roi fframwaith polisi ar gyfer datblygiad economaidd parhaus a chyfleoedd ar hap.[5]

[5] Dyddiadau terfyn y Cynllun Datblygu Lleol: llythyr i awdurdodau lleol https://gov.wales/local-development-plan-ldp-end-dates-letter-local-authorities

# 3 Gwybodaeth Cyd-destun

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r deunydd cyd-destun perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro presennol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau ar y lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Caiff unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gyfanrwydd eu hamlinellu lle'n briodol. Caiff tueddiadau economaidd cyffredinol a ddigwyddodd ers mabwysiadu'r Cynllun hefyd eu nodi, ynghyd â chynnydd ar ganllawiau cynllunio atodol allweddol.

3.2 Caiff gwybodaeth gyd-destun sy'n benodol i faes polisi neilltuol yn y Cynllun Datblygu Lleol ei rhoi yn yr adran dadansoddiad polisi perthnasol er mwyn hwylustod cyfeirio ac felly ni chaiff ei ail-adrodd yn fanwl yma.

3.3 Adeg yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, mae'n dal yn anhysbys pa effaith, os bydd effaith, a gaiff pandemig Covid-19 ar y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Rhoddir adroddiad am unrhyw oblygiadau yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol

**Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040**

3.4 Cyhoeddwyd Dyfodol Cymru – Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021 ac mae'n olynu Cynllun Gofodol Cymru. Cymru'r Dyfodol yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu tan 2040, gan roi'r cyd-destun ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd dros y 20 mlynedd nesaf. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer trin blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system cynllunio, yn cynnwys cynnal a datblygu economi ffyniannus, sicrhau datgarboneiddio a gwytnwch hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau. Mae hefyd yn gosod y cyfeiriad cenedlaethol ar gyfer cefnogi cymunedau gwledig (polisi 4), cefnogi'r economi gwledig (polisi 5) a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy (polisi 7), materion allweddol yng Nghymru.

3.5 Mae Cymru'r Dyfodol yn 'gynllun datblygu' perthnasol yn unol ag Adrannau 38(4a) a (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac fel y fframwaith datblygu cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol yw'r haen uchaf o gynllun datblygu. Mae'n fframwaith y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol yn adeiladu arno ar lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar lefel awdurdodau lleol. Mae angen i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydymffurfio'n fras gyda Cymru'n Dyfodol. Caiff unrhyw oblygiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd eu hystyried yn yr adran dadansoddiad polisi perthnasol.

**Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (2021)**

3.6 Cyhoeddwyd Rhifyn 11 Polisi Cynllunio Cymru (PPW 11) wrth ochr Cymru'r Dyfodol ac mae'n nodi'r polisïau cynllunio ar gyfer defnydd tir a'r prif nodau datblygu cynaliadwy ar gyfer Cymru, a ddiwygiwyd i gyfrannu at nodau llesiant statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae PPW 11 yn sicrhau tybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac mae'n ystyried mai dull dan arweiniad y Cynllun yw'r ffordd fwyaf effeithlon o sicrhau datblygiad cynaliadwy drwy'r system cynllunio. Mae gan PPW 11 ffocws cryf ar hyrwyddo creu lleoedd, a ystyrir yn ganolog wrth sicrhau lleoedd cynaliadwy, sicrhau datblygiad cymdeithasol gynhwysol a hyrwyddo cymunedau mwy cydlynol. Mae PPW 11 yn ystyriaeth allweddol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, a chaiff unrhyw oblygiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd eu hystyried yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol.

**Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu Lleoedd ac Adferiad Covid-19 (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020)**

3.7 Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i gynorthwyo wrth weithredu yn y cyfnod adfer ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Mae'n nodi y dylai'r system gynllunio fod ar ganol y llwyfan wrth ystyried materion yn yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol a gododd o'r pandemig. Mae'r ddogfen yn rhoi sylw i'r polisïau cynllunio a'r dulliau allweddol presennol y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, gan gydnabod yr angen parhaus i gynllunwyr weithredu o fewn cyd-destun ehangach blaenoriaethau a gweithredu ar pob graddfa. Mae'r ddogfen yn cyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i well lleoedd, creu lleoedd, deilliannau ansawdd a dyluniad da ac yn dynodi meysydd polisi a ddylai fod yn ffocws ystyriaeth a gweithredu, er mwyn bod yn gatalydd ar gyfer adferiad. Caiff cynlluniau datblygu eu cydnabod fel dull allweddol wrth gyflawni'r blaenoriaethau polisi cynllunio a ddynodir fel bod yn allweddol i gynorthwyo yn adferiad Covid-19 a chynnal a galluogi'r gwelliannau cynaladwyedd a ddeilliodd o'r pandemig. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd pan gaiff ei fabwysiadu yn ddulliau allweddol ar gyfer trin y materion hyn a bydd ganddynt rôl bwysig wrth wella adferiad y Sir ar ôl Covid.

**Siarter Creu Lleoedd Cymru**

3.8 Cafodd Siarter Creu Lleoedd Cymru ei lansio gan y Gweinidog yng Nghynhadledd Cynllunydd Cymru RTPI Cymru ar 23 Medi 2020. Mae rhaglen waith yn cael ei sefydlu yn dilyn lansiad y siarter. Bydd hyn naill ai'n weithgaredd presennol sy'n rhoi sylw i'r thema creu lleoedd neu waith newydd lle gellir defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i helpu cefnogi'r gweithgaredd. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn llofnodi'r Siarter yn y cyfnod monitro nesaf.

## Cyd-destun Rhanbarthol

**Cynlluniau Datblygu Strategol**

3.9 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn rhoi fframwaith gyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd hyn yn galluogi materion mwy na lleol tebyg i'r galw am dai, meysydd chwilio am safleoedd cyflogaeth strategol a seilwaith trafnidiaeth cefnogol, sy'n torri ar draws nifer o awdurdodau cynllunio lleol, i gael eu hystyried a chynllunio ar eu cyfer mewn ffordd integredig. Bydd Cynlluniau Datblygu Lleol yn trin materion traws-ffiniol ar lefel ranbarthol ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio'n gyffredinol gyda Cymru'r Dyfodol.

3.10 Ar 29 Ionawr 2018 cytunodd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd y dylai gwaith ddechrau ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth sy'n cynnwys Sir Fynwy. Sefydlwyd Grŵp Prosiect Cynllun Datblygu Strategol[6] gyda'r dasg o ddatblygu opsiynau allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol, yn cynnwys ei ffiniau, llywodraethiant, amserlen a chwmpas. Ar ôl hyn, roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2011) yn ei gwneud yn orfodol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol lleol ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru drwy Gydbwyllgor Corfforaethol. Derbyniodd y Ddeddf Gytuniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Daw rheoliadau sefydlu'r Cydbwyllgor Corfforaethol ar gyfer De Ddwyrain Cymru i rym ym mis Chwefror 2022. Caiff y rheoliadau sy'n nodi'r weithdrefn i baratoi Cynllun Datblygu Strategol eu datblygu a byddant yn dod i rym ym mis Chwefror 2022 i adlewyrchu rheoliadau'r Cydbwyllgor Corfforaethol. Rhoddir adroddiad ar gynnydd y dyfodol ar y Cynllun Datblygu Strategol ac unrhyw oblygiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig**

3.11 Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi ei ffurfio o ddeg awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru, yn cynnwys Sir Fynwy. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn cydweithio i geisio mynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar yr holl ardal, tebyg i ddiweithdra a chysylltiadau trafnidiaeth, gyda'r nod o gydweithio a chydweithredu ar brosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal. Mae'r Awdurdodau sy'n ffurfio'r Brifddinas Ranbarth yn datblygu'r Fargen Ddinesig i gyllido prosiectau sy'n anelu i hybu gallu cystadleuol y rhanbarth dros y 20 mlynedd nesaf. Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn helpu i hybu twf economaidd drwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i waith a rhoi'r cymorth mae busnesau ei angen i dyfu. Bydd hefyd yn sefydlu llywodraethiant cryf ar draws y rhanbarth drwy Gyd-gabinet Prifddinas Caerdydd. Cytunwyd ar Gynllun Busnes Strategol pum mlynedd i ysgogi'r budd economaidd a buddion cymdeithasol mwyaf ym mis Mai gan bob 10 o'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid. Caiff cynnydd agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Fargen Ddinesig ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol eu hystyried ymhellach mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol lle'n briodol. Mae'r buddsoddiad hwn yn gyfle sylweddol i Sir Fynwy a'r rhanbarth. Mae MCC yn cynnig ar hyn o bryd ar gyfer cyllid gan y Brifddinas-Ranbarth i gefnogi cyflenwi

[6] Mae Grŵp Prosiect y Cynllun Datblygu Strategol yn cynnwys penaethiaid polisi a rheolwyr polisi cynllunio o 10 o'r awdrudodau cynllunio lleol yn Ne Ddwyrain Cymru.

safle tai strategol SAH6 Vinegar Hill Gwndy. Os yw'r cais am gyllid yn llwyddo byddai'n golygu y gellir cyflwyno cynllun sy'n cydymffurfio'n llwyr â'r polisi cynllunio fodd bynnag mae pwysau hyfywedd yn golygu nad yw safleoedd yn dod ymlaen.

**Ffordd Liniaru'r M4**

3.12 Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 na fyddai Ffordd Liniaru'r M4 yn mynd yn ei blaen, yn dilyn cwblhau ymchwiliad cyhoeddus i'r prosiect a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd. Caiff y llwybr o fewn Sir Fynwy ei ddiogelu ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Dywedodd Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog Economi a Seilwaith Llywodraeth Cymru eu bod wedi penodi Comisiwn arbenigol (Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru) gyda'r dasg o wneud argymhellion am ddatrysiadau eraill i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru. Adroddodd y Comisiwn ym mis Tachwedd 2020, gan wneud nifer o argymhellion y mae Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy yn gweithio ar eu gweithredu ar hyn o bryd. Rhoddir adroddiad ar gynnydd ar hyn ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

## Cyd-destun Lleol

**Asesiad a Chynllun Llesiant Sir Fynwy**

3.13 Dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd yn ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Llesiant erbyn mis Mai 2018. Yn cymryd lle'r Cynllun Integredig Sengl, roedd y cynlluniau i edrych ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pob sir gyda chysylltiadau clir gyda'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau yn gweithio ar gynlluniau gweithredu manwl fydd yn nodi sut y byddant yn cyflawni'r camau a nodwyd yn y Cynllun Llesiant. Mae trefniadau hefyd yn cael eu datblygu i uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent, gyda'r bwriad i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent-gyfan cyntaf gwrdd ym mis Medi 2011. Mae Cynllun Llesiant presennol Sir Fynwy yn gosod yr amcanion ar gyfer gweithio partneriaeth ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hyd at 2023. Caiff hyn ein wedyn ei olynu gan Gyllun Llesiant newydd Gwent fydd yn cwmpasu 2023 – 2028. Mae'r Cynllun Llesiant wedi rhoi gwybodaeth wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Diweddariad Ardoll Cymunedol (CIL) Sir Fynwy**

3.14 Mae Deddf Cymru 2017 wedi datganoli CIL i Lywodraeth Cymru, sydd hyd yma heb roi unrhyw arwydd o'i ymagwedd debygol at CIL. Oherwydd yr ansicrwydd am y mesur, cafodd gweithredu pellach ar y CIL yn Sir Fynwy ei atal dros dro. Caiff cynnydd y CIL ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r Cynllun Datblygu Lleol/Cynllun Lleol Datblygu Newydd ystyriaeth bellach mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol lle'n briodol.

### Ysgolion 21ain Ganrif Sir Fynwy

3.15 Cafodd gwaith ar ddwy Ysgol 21ain Ganrif yn y Sir ei orffen, Ysgol Gyfun Sir Fynwy ac Ysgol Gyfun Cil-y-coed. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Aecom a Morgan Sindall i gyflwyno prosiect Band B Ysgolion y 21ain Ganrif, Ysgol 3-19 y Fenni. Y bwriad yw dechrau gwaith ar y safle ym mis Gorffennaf 2022 gyda dyddiad cwblhau o fis Rhagfyr 2024. Mae ein hysgol olaf, Ysgol Cas-gwent, ym Mand C ac ni fydd gwaith yn dechrau ar y prosiect hwn am o leiaf 3 blynedd arall. Mae cynnydd ar ysgolion yn y Sir yn adlewyrchu blaenoriaeth gorfforaethol allweddol o blant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a neb yn cael ei adael ar ôl.

### Argyfwng Hinsawdd

3.16 Ym mis Mai 2019 gwnaeth Cyngor Sir Fynwy ddatganiad am Argyfwng Hinsawdd. Mae'r Cyngor yn edrych ar ffyrdd o ostwng ei allyriadau carbon, yn cynnwys drwy ostwng ei ddefnydd ynni, cynhyrchu pŵer solar ac annog ceir trydan. Y targed yw gostwng allyriadau carbon y cyngor i sero erbyn 2030. Yn ystod haf 2019, datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu a strategaeth i nodi sut y cyflawnir hyn. Cafodd y cynllun gweithredu ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Hydref 2019 ac mae'n canolbwyntio ar ynni, trafnidiaeth, gofodau gwyrdd, gwastraff a chaffaeliad. Rhoddir adroddiad ar gynnydd ar y cynllun gweithredu mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol a bydd yn llywio wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

### Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf Economaidd ac Uchelgais

3.17 Cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad uchelgais economaidd ym mis Tachwedd 2019. Mae hyn yn gosod cyfeiriad teithio y Cyngor a'r cyfuniad o fesurau sydd eu hangen ar gyfer twf economaidd/ffyniant cynaliadwy, yn cynnwys prosbectws buddsoddiad, ymgysylltu agos gyda'r sector busnes, dangos diwylliant o blaid busnes ac ymyriadau cynnull tir i sicrhau cyflwyno safleoedd cyflogaeth. Mae diweddariad o'r datganiad uchelgais economaidd a'r prosbectws buddsoddi dan sylw i roi ystyriaeth i bandemig Covid a bydd busnesau yn ymgynghori arnynt yn yr hydref 2021. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried sut mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyflawni ar y dangosyddion cyflogaeth presennol, a bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd rôl allweddol wrth gefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol a bydd yn un o'r prif alluogwyr wrth gyflawni twf economaidd cynaliadwy.

## Tueddiadau Economaidd Cyffredinol

### Gweithgaredd Economaidd

3.18 Caiff data gweithgaredd economaidd allweddol ar gyfer Sir Fynwy a Chymru o ddyddiad sylfaen y Cynllun Datblygu Lleol o 2011 i'r cyfnod monitro presennol ei ddangos yn y tablau isod. Dengys y data fod y canran o bobl economaidd weithgar sydd mewn cyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro presennol wedi gostwng i 78.3% ac ar yr un pryd bod y canran o bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith wedi cynyddu, i 2.9%. Mae'n debyg bod hyn yn dangos effaith y pandemig a'r cyfyngiadau yn ystod y cyfnod monitro. Mae cyfran pobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith yn y Sir yn

parhau'n sylweddol is na ffigur Cymru. Mae cyflog gros gweithwyr llawn-amser sy'n byw yn y Sir yn parhau ar lefel uwch yn Sir Fynwy nac yng Nghymru yn gyffredinol (+18.7%). Ni chaiff newidiadau o'r fath eu hystyried i fod mor sylweddol fel y byddent yn cael unrhyw oblygiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y dangosyddion economaidd hyn ac unrhyw effeithiau Covid-19 yn y dyfodol eu hystyried mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol ac unrhyw oblygiadau posibl a gofnodwyd.

**Economaidd Weithgar – Mewn Cyflogaeth**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| Ebrill 2011-Mawrth 2012 | **73.8%** | **66.7%** |
| Ebrill 2012-Mawrth 2013 | **74.2%** | **67.6%** |
| Ebrill 2013-Mawrth 2014 | **73.0%** | **69.5%** |
| Ebrill 2014-Mawrth 2015 | **74.5%** | **69.3%** |
| Ebrill 2015-Mawrth 2016 | **78.8%** | **71.1%** |
| Ebrill 2016-Mawrth 2017 | **76.5%** | **71.4%** |
| Ebrill 2017-Mawrth 2018 | **78.0%** | **72.7%** |
| Ebrill 2018-Mawrth 2019 | **77.7%** | **73.1%** |
| Ebrill 2019-Mawrth 2020 | **79.5%** | **73.7%** |
| Ebrill 2020-Mawrth 2021 | **78.3%** | **72.2%** |

Ffynhonnell: Nomis (Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Medi 2021)

**Economaidd Weithgar - Diwaith**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| Ebrill 2011-Mawrth 2012 | **5.1%** | **8.4%** |
| Ebrill 2012-Mawrth 2013 | **5.6%** | **8.3%** |
| Ebrill 2013-Mawrth 2014 | **5.1%** | **7.4%** |
| Ebrill 2014-Mawrth 2015 | **4.9%** | **6.8%** |
| Ebrill 2015-Mawrth 2016 | **3.3%** | **5.4%** |
| Ebrill 2016-Mawrth 2017 | **2.9%** | **4.4%** |
| Ebrill 2017-Mawrth 2018 | **3.5%** | **4.9%** |
| Ebrill 2018-Mawrth 2019 | **3.0%** | **4.5%** |
| Ebrill 2019-Mawrth 2020 | **2.7%** | **3.7%** |
| Ebrill 2020-Mawrth 2021 | **2.9%** | **4.0%** |

Ffynhonnell: Nomis (Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Medi 2021)

**Tâl Wythnosol Gros Gweithwyr Llawn-amser (Enillion yn ôl Man Preswylio)**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| 2011 | **£560.3** | **£455.1** |
| 2012 | **£530.7** | **£454.9** |
| 2013 | **£579.5** | **£475.3** |
| 2014 | **£582.1** | **£480.0** |
| 2015 | **£610.5** | **£487.6** |
| 2016 | **£619.4** | **£499.2** |
| 2017 | **£619.6** | **£505.9** |
| 2018 | **£638.5** | **£518.6** |
| 2019 | **£649.6** | **£540.7** |
| 2020 | **£642.90** | **£541.70** |


Ffynhonnell: Nomis (Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Awst 2021)

3.19 Ychydig o gynnydd fu mewn enillion yn ystod y cyfnod monitro, gyda dirywiad mewn gwirionedd yn Sir Fynwy. Gall hyn yn rhwydd fod fel canlyniad i bandemig Covid-19. Mae tystiolaeth yn parhau i awgrymu fod yr incwm ar gyfer menywod economaidd weithgar sy'n preswylio yn y Sir yn sylweddol is nag ar gyfer dynion yn yr un categori. Mae'n annhebygol iawn bod hyn yn rhywbeth y gall y system cynllunio defnydd tir ddylanwadu'n uniongyrchol arno, fodd bynnag rhoddir ystyriaeth bellach i hyn fel rhan o brosiect Dyfodol Sir Fynwy ac, os yn berthnasol, drwy ddiwygio'r Cynllun.

**Prisiau Tai**

3.20 Fel y dangosir yn y graff islaw, dengys data'r Gofrestrfa Tir fod prisiau tai cyfartalog yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y cyfnod monitro presennol. Fel canlyniad, roedd prisiau cyfartalog yn chwarter 1 2021 (Ionawr i Mawrth) ar £298,932 yn uwch na phris llinell sylfaen chwarter 4 2012 (£188,720). Os yw data tueddiadau prisiau tai cyfartalog a gofnodwyd yn fwy na'r sbardun a ddynodwyd ar gyfer ymchwiliad pellach a nodir yng nghyswllt Polisi S4, bydd y Cyngor yn ystyried ailasesu'r dystiolaeth hyfywedd oedd yn sail i'r targedau polisi tai fforddiadwy. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn yn yr adran dadansoddi polisi ynghylch Polisi S4.

3.21 Gallai nifer o ddigwyddiadau a chynigion diweddar, yn cynnwys dileu tollau Pont Hafren ym mis Rhagfyr 2018, cynlluniau ar gyfer Metro De Ddwyrain Cymru ynghyd â chyfleoedd ehangach yn gysylltiedig gydag agenda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn ogystal â phandemig Covid-19 gael effeithiau posibl ar brisiau tai yn Sir Fynwy. Mae'n amlwg yn y graff fod gostyngiad mewn prisiau tai yn ail chwarter 2020. Mae hyn yn dilyn cyflwyno'r cyfnod clo oherwydd Covid-19 yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn honno. Ers hynny bu adferiad mewn prisiau tai ac mae wedi parhau i dyfu'n gyson dros weddill chwarteri y cyfnod monitro. Bydd unrhyw effeithiau o'r fath yn parhau i gael eu hystyried mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol a drwy'r broses Cynllun Datblygu Lleol Newydd.



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai y Deyrnas Unedig y Gofrestrfa Tir (Awst 2021)

## Crynodeb

3.22 Fel y manylir uchod, daeth cynlluniau, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol diwygiedig/newydd i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro presennol, ac mae gan rai ohonynt oblygiadau ar gyfer gweithrediad llawn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd Adolygiadau Monitro Blynyddol dilynol yn parhau i roi diweddariad ar ddeunydd cyd-destun perthnasol a fedrai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

# 4 Proses Fonitro y Cynllun Datblygu Lleol

## Sut y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fonitro?

4.1 Mae Adran 5 yn rhoi dadansoddiad manwl o effeithlonrwydd fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol wrth gyflawni'r nodau/deilliannau a thargedau polisi a ddynodwyd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gweithredu pellach. Rhoddir ystyriaeth hefyd i roi unrhyw faterion cyd-destun penodol polisi sydd wedi codi yn ystod y cyfnod monitro a allai effeithio ar weithrediad polisi. Yn gydnaws gyda fframwaith monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, caiff y dadansoddiad hwn ei grwpio yn ôl polisïau strategol y Cynllun a chafodd ei strwythuro fel sy'n dilyn:

| | |
|---|---|
| **Nodau/Deilliannau Monitro** | Mae'r nodau/deilliannau monitro yn dynodi beth mae pob polisi strategol yn ceisio ei gyflawni. Caiff amcanion cefnogi, rheoli datblygu a pholisïau dyrannu safle hefyd eu nodi i arddangos y cysylltiadau rhwng y polisïau. |
| **Gwybodaeth cyd-destun** | Caiff gwybodaeth cyd-destun sylweddol ei gyhoeddi dros y cyfnod monitro ei amlinellu lle'n berthnasol i bolisi strategol neilltuol. Bydd hyn yn galluogi'r Adroddiad Monitro Blynyddol i benderfynu os yw newidiadau cyd-destun wedi effeithio ar berfformiad polisi. Gall hyn gynnwys deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, cynlluniau, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â thueddiadau cymdeithasol ac economaidd allanol megis amodau economaidd a allai effeithio ar gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae unrhyw newidiadau o'r fath tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Dangosyddion, targedau a sbardunau** | Caiff perfformiad polisi a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro yng nghyswllt y dangosyddion a thargedau/sbardunau perthnasol ar gyfer eu hymchwilio pellach eu nodi ym mhob polisi strategol.<br><br>Cafodd y targedau a sbardunau ar gyfer rhai dangosyddion eu his-rannu i alluogi monitro'r dangosyddion hyn yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion yn gysylltiedig â'r polisïau strategol dilynol:<br>• S1 Strategaeth Ofodol<br>• S3 Safleoedd Tai Strategol<br>• S4 Tai Fforddiadwy<br>• S6 Manwerthu<br>• S8/S9 Menter ac Economi/ Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth |

| | |
|---|---|
| | Mae cyfanswm nifer y targedau a sbardunau yn y fframwaith monitro wedi cynyddu'n ddilynol.<br><br>Lle'n berthnasol, caiff data dangosydd a gofnodwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol ei roi yn y tablau. Cafodd data o'r fath god lliw (h.y. coch, oren, gwyrdd) i'w gwneud yn rhwydd adnabod y tueddiadau. |
| **Dadansoddiad** | Yng nghyswllt y dangosyddion, targedau perthnasol, sbardunau a deilliannau monitro, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu os yw polisïau strategol y Cynllun yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac os yw amcanion a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys adnabod ac ymchwilio ymhellach unrhyw bolisi sy'n methu cyrraedd ei darged a/neu sydd wedi cyrraedd ei bwynt sbardun. Fodd bynnag nid yw'r ffaith fod polisi yn cyrraedd ei lefel sbardun yn awtomatig yn golygu fod y polisi yn methu. Bydd y dadansoddiad yn ystyried os yw'r perfformiad oherwydd amgylchiadau allanol neu os oes cyfiawnhad drosto yng nghyd-destun fframwaith polisi cyffredinol.<br><br>Mae'r dadansoddiad yn eithrio'r targedau dangosydd hynny heb unrhyw geisiadau cynllunio neu gwblhau perthnasol i'w hasesu yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y rhain yn gyfanswm o 2 yn ystod y cyfnod monitro presennol. |
| **Argymhellion** | Gan roi ystyriaeth i'r dadansoddiad polisi, rhoddir argymhellion perthnasol yn cynnwys datganiad o unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen. Os canfyddir fod polisïau yn methu, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn gosod argymhellion clir ar beth, os unrhyw beth, sydd angen ei wneud i drin hyn.<br><br>Bydd ystyriaeth o'r Cynllun Datblygu Lleol o gymharu â'r holl wybodaeth a gasglwyd dros y cyfnod monitro yn galluogi'r Cyngor i benderfynu os oes angen adolygu'r Cynllun. |

**Sgôr Golau Traffig Perfformiad Polisi**

4.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithlonrwydd polisïau strategol y Cynllun a rhoi trosolwg cyfeirio cyflym at berfformiad polisi, cynhwysir sgôr 'golau traffig' ar gyfer dangosyddion perthnasol fel sy'n dilyn:

| | |
|---|---|
| | Targedau polisi/deilliannau monitro* yn cael eu cyrraedd |

| | |
|---|---|
| | Nid yw targedau polisi/deilliannau monitro* yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw bryderon am weithrediad y polisi |
| | Nid yw targedau polisi/deilliannau monitro* yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd gyda phryderon dilynol am weithredu'r polisi |
| | Ni ellir dod i unrhyw gasgliad oherwydd data cyfyngedig neu ddim data perthnasol yn ystod y cyfnod monitro |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun, caiff y deilliannau monitro eu hasesu a'u graddio yn unol â hynny.

**Dangosyddion Newydd**

4.3 Mewn achosion lle methodd y Cyngor fonitro dangosydd neu ble cafodd dangosydd ei ddisodli, rhoddir esboniad yn yr adran dadansoddiad polisi perthnasol a, lle'n briodol, dynodir dangosydd arall. Gall hefyd fod achosion lle mae angen diwygio'r dangosydd, er enghraifft, i wella eglurdeb y dangosydd neu ei ailalinio gyda setiau data perthnasol. Mewn achosion o'r fath rhoddir esboniad yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol a chaiff y dangosydd ei ddiwygio fel sydd angen.

**Adolygu Sbardunau ar gyfer y Cynllun**

4.4 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddechrau adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol bob pedair blynedd. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r amgylchiadau arbennig dilynol olygu fod angen adolygu'r Cynllun yn gynnar:

- Newid sylweddol mewn amodau allanol
- Newid sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu ddeddfwriaeth
- Newid sylweddol mewn amgylchiadau lleol e.e. cau safle cyflogaeth sylweddol sy'n gwanhau'r economi lleol
- Newid sylweddol mewn pwysau datblygu neu anghenion a strategaethau buddsoddiad buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat mawr
- Pryderon sylweddol o ganlyniadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn nhermau effeithlonrwydd/gweithrediad polisi a darpariaeth safle.

4.5 Rhoddir ystyriaeth i'r holl faterion hyn wrth benderfynu os oes angen adolygiad llawn neu rannol o'r Adolygiad.

4.6 Fel y manylir ym mharagraffau 2.16-2.18, dechreuodd adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei ddiwygio ac y dylai hyn fod ar ffurf gweithdrefn adolygu llawn, h.y. Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**Fframwaith Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

4.7 Mae'r Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ehangu asesiad perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag amcanion monitro y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae'r

Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn dynodi 17 amcan a 62 dangosydd i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff hyn ei nodi yn Adran 6 yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

# 5 Monitro'r Cynllun Datblygu Mewnol – Dadansoddiad Polisi

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi asesiad manwl o os yw polisïau strategol y Cynllun a pholisïau cefnogi cysylltiedig yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac os yw amcanion a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Rhoddir argymhellion priodol wedyn ynghyd â'r camau gweithredu sydd eu hangen i drin unrhyw faterion gweithredu polisi drwy'r broses fonitro. Yn gydnaws gyda'r Cynllun Datblygu Lleol, caiff y dadansoddiad ei nodi yn nhrefn polisïau strategol.

## Strategaeth Ofodol

**Nod/Deilliant Monitro:** Datblygiadau tai newydd i gael eu dosbarthu yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun Datblygu Lleol.

**Polisi Strategol:** S1/S2 Dosbarthiad Gofodol Darpariaeth Tai Newydd

**Amcanion y Cyngor Datblygu Lleol a gefnogir:** 1, 3 & 4

**Newid Cyd-destun**

Nid oes unrhyw newidiadau cyd-destun ar gyfer y cyfnod hwn.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| Cyfran datblygiadau tai newydd a ddarparwyd yn unol â'r strategaeth ofodol Polisi S1 / hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2* | Dylai lleoliad datblygiad preswyl newydd gyfateb gyda'r gofynion a nodir yn y tablau ym Mholisi S2: | Anheddau a gwblhawyd yn +/- 10% o'r gofynion a nodir yn y tablau i Bolisi S2 mewn unrhyw 1 flwyddyn | **Anheddau a gwblhawyd** |
| | **a) Prif drefi 41%**<br><br>*(2014-15: 27%)*<br>*(2015-16: 40.2%)*<br>*(2016-17: 38.2%)*<br>*(2017-18: 71.3%)*<br>*(2018-19: 60.3%)*<br>*(2019-20: 60.11%)* | | **54.2%** |
| | **b) Aneddiadau Glannau Hafren 33%**<br>*(2014-15: 43%)*<br>*(2015-16: 8.1%)*<br>*(2016-17: 19.3%)*<br>*(2017-18: 5.4%)*<br>*(2018-19: 16.9%)*<br>*(2019-20: 24.43%)* | | **32.7%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **c) Aneddiadau Gwledig Eilaidd 10%**<br><br>*(2014-15: 6%)*<br>*(2015-16: 37.2%)*<br>*(2016-17: 21.4%)*<br>*(2017-18: 12.2%)*<br>*(2018-19: 16.7%)*<br>*(2019-20: 3.65%)* | | **2.6%** |
| | **d) Gwledig Cyffredinol 16%**<br><br>*(2014-15: 24%)*<br>*(2015-16: 14.5%)*<br>*(2016-17: 21%)*<br>*(2017-18: 11.1%)*<br>*(2018-19: 6.1%)*<br>*(2019-20: 11.79%)* | | **10.5%** |

**Dadansoddiad – Anheddau a Gwblhawyd**

Roedd cyflwyno'r cyfnod clo Covid-19 cyntaf yn y Deyrnas Unedig yn cyd-daro gyda dechrau'r cyfnod monitro hwn. Mae'n ddi-os y bydd cau cynifer o safleoedd adeiladu am gyfnod sylweddol wedi cael effaith ar gyfradd yr anheddau a gwblhawyd ac ar safleoedd newydd sy'n dod ymlaen. Bu hefyd ffactorau economaidd ehangach niferus sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth tai uwchben a thu hwnt i'r system cynllunio.

**a) Prif Drefi**

Cofnodwyd cwblhau 419 annedd yn ystod y cyfnod monitro hwn. Caiff dadansoddiad pellach ar y gyfradd cwblhau gyffredinol ei nodi yng nghyswllt Polisi S3.

O'r 419 annedd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro, roedd 54.2% (227 annedd) ym mhrif drefi y Sir. Mae hyn yn uwch na'r targed a ddynodwyd o 41% ac ychydig yn uwch na'r ystod derbyniol o 10%. Serch hynny, cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd ei gyrraedd. Yn y Fenni y cwblhawyd y nifer fwyaf o anheddau, sef 177 neu 78% o'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi, roedd 13% gyda 29 annedd wedi eu cwblhau yn y Fenni a Threfynwy yn 9% gyda 21 annedd wedi eu cwblhau.

O'r anheddau a gwblhawyd yn y Fenni, roedd 83 ar safle Fferm Deri a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (SAH1) gyda 19 arall ar Coed Glas a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (SAH9). Cafodd anheddau hefyd eu cwblhau mewn dau safle hap** yn yr hen Lys Ynadon/Gorsaf Heddlu (47 annedd) a 17-25 Heol Aberhonddu (24 annedd). Roedd gweddill yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd bach***. Yng Nghas-gwent, roedd mwyafrif yr anheddau a gwblhawyd yn gysylltiedig â safle a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn Fairfield Mabey (SAH3) lle cafodd 18 annedd eu cwblhau, roedd 8 annedd

| |
|---|
| arall yn ymwneud â thrawsnewid adeilad yn 8 fflat. Roedd gweddill yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd bach ***. O'r anheddau a gwblhawyd yn Nhrefynwy, roedd y mwyafrif ar safle Heol Wonastow a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (SAH4) (13 annedd), roedd y gweddill ar safleoedd bach ac ysgubor a gafodd ei haddasu.<br><br>Roedd tai marchnad gyffredinol yn 83% (189 uned) o'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi, gyda'r 17% arall (38 uned) yn cynnwys tai fforddiadwy. Roedd y rhan fwyaf o'r tai fforddiadwy a gwblhawyd yn y Fenni (35 uned), a rannwyd bron yn gyfartal rhwng Coed Glas (12), 17-25 Heol Aberhonddu (12) a Fferm Deri (11). Roedd y 3 uned fforddiadwy weddilliol yn Nhrefynwy, i gyd ar safle Heol Wonastow.<br><br>Mae canran yr anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro hwn o 54.2% yn is na'r tri chyfnod monitro blaenorol (2019 – 20, 60.11%, 2018-19, 60.3% a 2017-18, 71.3%). Serch hynny mae'n parhau'n uwch nag yn y tri chyfnod monitro cyntaf (2016 – 2017, 38.2%, 2015 – 2016, 40.2% a 2014 – 2015, 27%). Ystyrir bod y tueddiadau hyn yn adlewyrchu'r amser a briodolwyd i gael dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn eu lle i gyflenwi anheddau. Caiff hyn hefyd ei adlewyrchu gan gyfraniad y Cynllun Datblygu Lleol at ffigurau'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi. Roedd pedwar safle a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrif am 59% o'r anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi, gan ddarparu 133 annedd rhyngddynt (Fferm Deri, Heol Wonastow, Fairfield Mabey a Coed Glas). Caiff manylion pellach ar gynnydd y rhain a dyraniadau eraill y Cynllun Datblygu Lleol eu nodi yn y dadansoddiad o safleoedd tai strategol (Polisi S3).<br><br>Ystyrir bod rhagori ar y targed yn y dangosydd hwn yn dangos mater yn ymwneud ag amseru/camau gyda chyflawni strategaeth ofodol y Cynllun, yn hytrach na phroblem gydag effeithlonrwydd y strategaeth ei hun. Er fod cyfran uwch o gyfanswm anheddau a gwblhawyd nag yn y cyfnodau monitro blaenorol, lle'r oedd yn is na'r targed o 41%, ystyrir fod y tueddiad mwy diweddar o ragori ar y targed yn addasu i hyn ac yn dangos nifer o ddyraniadau mawr yn y Cynllun Datblygu Lleol. Oherwydd hyn, ni ystyrir fod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt yr anheddau a gwblhawyd yn y Prif Drefi. Sylweddolir fod y safleoedd a ddyrannwyd yn Heol Wonastow, Trefynwy, Fferm Deri a Choed Glas, Y Fenni a Fairfield Mabey yn cyfrif am fwyafrif yr anheddau a gafodd eu cwblhau, ynghyd â dau safle hap yn y Fenni, sydd i gyd yn cydymffurfio â'r strategaeth ofodol. Serch hynny bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun. |
| **b) Aneddiadau Glannau Hafren**<br>Roedd Aneddiadau Glannau Hafren yn 32.7% (137 uned) yr anheddau y cofnodwyd iddynt gael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro ac felly'n cyrraedd y targed o 33%. Mae dyraniad y Cynllun Datblygu Lleol yn Fferm Rockfield, Gwndy (SAH5) yn cofnodi 41 annedd oedd yn ffurfio mwyafrif nifer a gafodd eu cwblhau (30%), gyda 17 ohonynt yn fforddiadwy. Roedd Melin Bapur Sudbrook (SAH7) yn cyfrif am 20% arall o'r anheddau a gwblhawyd a chofnodwyd cwblhau 28 annedd, yn cynnwys 4 uned fforddiadwy. Cofnododd dwy safle hap *** hefyd nifer resymol o anheddau a gwblhawyd yn yr Hen Iard Longau, Sudbrook (cwblhau 22 annedd, 16%) a Fferm Ifton Manor, Rogiet (cwblhau 12 annedd, 9%), mae'r |

rhain i gyd yn ymwneud ag unedau cyffredinol ar y farchnad agored. Roedd y 6 arall a gwblhawyd ar 5 uned o safleoedd bach ac addasu un ysgubor.

Rhagwelir y bydd y gyfran o anheddau a gwblhawyd o fewn ardal Glannau Hafren yn fras gydnaws â'r ffigur targed o 33% a'r strategaeth ofodol a nodir ym Mholisi S2. Rhagwelir y bydd safle Fferm Rockfield, Gwndy (SAH5) yn datblygu ymhellach yn y cyfnod monitro nesaf ac yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at nifer yr anheddau a gwblhawyd yn y rhan hon o'r Sir. Mae safleoedd nodedig eraill y disgwylir iddynt gyfrannu at y cyflenwad tai yn ardal Glannau Hafren yn cynnwys y safle a ddyrannwyd yn hen Felin Bapur Sudbrook, Sudbrook (SA7) a'r safle ar hap yn yr Hen Iard Longau, Sudbrook.

Dros y cyfnod hirach, mae'n edrych fel pe byddai cymeradwyaeth i faterion a gadwyd ar gwpl o safleoedd yn ardal Glannau Hafren yn darparu cyflenwad cyson o dai yn y rhan hon o'r Sir. Cafodd Materion a Gadwyd eu cymeradwyo ar Heol Crug, safle Porthysgewin (SAH2) a'r safle 'nas dyrannwyd' yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed. Dechreuodd datblygu ar safle Heol yr Eglwys, Cil-y-coed yn ystod y cyfnod monitro presennol ac felly disgwylir y bydd yn cyfrannu at y nifer o anheddau a gaiff eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Yn yr un modd, er y bu cynnydd yn arafach na'r disgwyl ar ddyraniad Tai Strategol SAH 6 – Tir yn Vinegar Hill, cafodd cais cynllunio am 155 uned eu cyflwyno a dylai gael ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Rhagwelir y caiff yr anheddau cyntaf eu gosod ar y safle yn 2022/23, yn amodol ar ganiatâd cynllunio. Mae manylion pellach ar gynnydd y dyraniadau hyn a dyraniadau eraill y Cynllun Datblygu Lleol ar gael yn y dadansoddiad o safleoedd tai strategol (Polisi S3).

Mae cynnydd gyda darpariaeth safleoedd ar lawr gwlad a thrwy'r broses ceisiadau cynllunio yn dangos fod cyflenwad parhaus o gartrefi yn ardal Glannau Hafren. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol ac os yw'n parhau i fod yn gydnaws â'r targed a nodir ym Mholisi S2.

**c) Aneddiadau Gwledig Eilaidd**

Cofnodwyd y cafodd 11 o anheddau eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro o fewn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd, yn cyfrif am 2.6% o'r holl anheddau a gwblhawyd yn y Sir. Mae hyn yn is na'r targed a ddynodwyd o 10% ond o fewn yr ystod hyblygrwydd +/- 10%. Felly ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwilio pellach.

Roedd pob un o'r 11 annedd a gwblhawyd yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd yn ymwneud â safleoedd bach*** yn darparu unedau cyffredinol ar y farchnad agored. Dosbarthwyd yr unedau ar draws y pedwar anheddiad sy'n ffurfio'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd (Brynbuga – 4, Llan-ffwyst – 3, Rhaglan 2 a Phenperllenni – 2).

Mae'r gyfradd cwblhau y gyfradd isaf a gofnodwyd ers dechrau'r broses Adroddiad Monitro Blynyddol er mai dim ond ychydig iawn yn is yw na'r cyfnod monitro blaenorol (2019/20 ar 3.65%). Ystyrir bod hyn yn dangos cwblhau SAH10, un o'r dyraniadau safle Aneddiadau Gwledig Eilaidd, heb unrhyw annedd wedi eu cwblhau eto ar y ddau ddyraniad arall h.y. SAH10(i) – Cwrt Burrium, Brynbuga SAH10(iii) – tir yn Heol Cas-gwent, Rhaglan. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd ar y dyraniadau hyn a disgwylir y caiff safle Cwrt Burrium, Brynbuga ei gwblhau yn y cyfnod monitro nesaf.

Disgwylir hefyd y bydd safle hap arall yn cyfrannu at gwblhau anheddau safle yn Fferm Grove, Llan-ffwyst yn y cyfnod monitro nesaf gan y dechreuodd datblygu ar y safle yn ystod y cyfnod monitro presennol.

O gofio'r cynnydd ar weddill y dyraniadau yn yr Aneddiadau Eilaidd Gwledig, ni ystyrir fod unrhyw broblemau sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt cwblhau anheddau o'r haen hwn o'r hierarchaeth aneddiadau. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn i benderfynu effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun.

**d) Gwledig Cyffredinol**

Cofnodwyd cwblhau 44 o anheddau yn ardaloedd Gwledig Cyffredinol y Sir yn ystod y cyfnod monitro, sy'n cynnwys y Prif Bentrefi a'r Mân Bentrefi a restrir ym Mholisi S1, yn ogystal â chartrefi mewn cefn gwlad agored. Mae'r anheddau hyn a gwblhawyd yn ffurfio 10.5% o'r cyfanswm yr anheddau a gwblhawyd yn y Sir o gymharu â'r targed a ddynodwyd o 16%. Mae hyn o fewn y lwfans hyblygrwydd +/- 10% ac felly ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.

Roedd y safle Prif Bentref a ddyrannwyd yn Llanddingad (SAH11(iii) yn cyfeirio at draean yr anheddau a gwblhawyd 15 (34%) gyda 9 ohonynt yn anheddau fforddiadwy yn unol â'r polisi 60/40. Cafodd 8 annedd arall eu cwblhau (18%) yn Walnut Tree Cottage yn Llangybi, roedd hyn yn cynnwys 3 annedd fforddiadwy. Roedd gweddill yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd bach/addasu adeiladau, gyda'r cyfan yn anheddau marchnad gyffredinol.

Roedd y Prif Bentrefi yn cyfrif am 33 o'r cyfanswm o 44 annedd a gwblhawyd (75%). Roedd Mân Bentrefi yn cyfrif am 6 ohonynt (14%) ac roedd 5 (11%) mewn cefn gwlad agored. Roedd 4 o'r uned cefn gwlad yn ymwneud ag addasu neu newid defnydd adeilad presennol, roedd yr uned ychwanegol yn ymwneud ag annedd gweithiwr gwledig.

Ni chofnodwyd cwblhau unrhyw anheddau pellach ar SAH11 – safleoedd Prif Bentrefi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Fodd bynnag, cymeradwywyd cais Materion a Gadwyd ar gyfer cefn safle Carpenter's Arms, Llanisien (SAH11(ix)(a) ar gyfer 8 annedd. Cyfunodd hyn gyda'r safleoedd Prif Bentrefi a nodwyd fel bod wedi cael caniatâd yn y cyfnod monitro diwethaf, sef SA11(i)(b) – Garej Cross Ash a SA11(ii) – Tir ger Well Lane, Devauden. Cafodd y ddau safle eu clirio yn ystod y cyfnod monitro presennol a disgwylir y byddant yn cyfrannu at yr anheddau a gwblhawyd yn yr haen yma o'r hierarchaeth aneddiadau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Drwy gyflenwi'r safleoedd hyn, ynghyd â chyfleoedd parhaus ar gyfer addasiadau safle bach a datblygiad mewnlenwi, rhagwelir y bydd y gyfran o anheddau a gaiff eu cwblhau yn yr aneddiadau hyn yn parhau i fod yn gydnaws â'r ffigur targed o 16% dros gyfnod y Cynllun.

Mae'r gyfradd cwblhau anheddau yn debyg i'r hyn a gyflawnwyd dros y cyfnodau monitro blaenorol, gyda chyfraddau yn amrywio o isafbwynt o 6.1% ac uchafbwynt o 24%, a fu i gyd o fewn y lwfans hyblygrwydd +/-10%. Oherwydd hyn ni ystyrir bod problem gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun, yng nghyswllt yr anheddau a gwblhawyd yn yr ardaloedd Gwledig Cyffredinol fel y nodir ym Mholisi S1. Felly nid oes angen ymchwiliad

| |
|---|
| pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| a) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro, fodd bynnag, gweler y sylwadau yng nghyswllt y safleoedd tai strategol a ddyrannwyd (Polisi S3). |
| b) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| c) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| d) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Caiff cwblhau a chaniatâd anheddau eu monitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o weithrediad y strategaeth ofodol
** Safle mawr ar hap >10 annedd
*** Safle bach ar hap <10 annedd

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| Cyfran datblygiadau tai newydd a ganiateir yn unol â strategaeth ofodol Polisi S1 / hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2* | Dylai lleoliad datblygiadau preswyl newydd gyfateb â'r gofynion a nodir yn y tablau i Bolisi S2; | Mae anheddau a gafodd ganiatâd yn +/- 10% o'r gofynion a nodir yn y tablau i Bolisi S2 mewn unrhyw 1 flwyddyn | **Anheddau a gafodd ganiatâd** |
| | **e) Prif drefi 41%**<br><br>*(2014-15: 81%)*<br>*(2015-16: 31%)*<br>*(2016-17: 30.2%)*<br>*(2017-18: 59.61%)*<br>*(2018-19: 29.6%)*<br>*(2019-20: 13.5%)* | | **31.4%** |
| | **f) Aneddiadau Glannau Hafren 33%**<br><br>*(2014-15: 11%)*<br>*(2015-16: 10%)* | | **15.1%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2016-17: 54.1%)*<br>*(2017-18: 24.15%)*<br>*(2018 - 19: 53.2%)*<br>*(2019 - 20: 61.8%)* | | |
| | **g) Aneddiadau Gwledig Eilaidd 10%**<br><br>*(2014-15: 1%)*<br>*(2015-16: 37%)*<br>*(2016-17: 5.2%)*<br>*(2017-18: 10.26%)*<br>*(2018-19: 8.0%)*<br>*(2019-20: 2.4%)* | | **12.8%** |
| | **h) Gwledig Cyffredinol 16%**<br><br>*(2014-15: 7%)*<br>*(2015-16: 22%)*<br>*(2016-17: 10.5%)*<br>*(2017-18: 5.98%)*<br>*(2018-19: 9.2%)*<br>*(2019-20: 22.3%)* | | **40.7%** |

**Dadansoddiad – Caniatâd Anheddau**

Roedd nifer yr anheddau a gafodd ganiatâd yn Sir Fynwy yn ystod 2020-21 yn is nag a gofnodwyd mewn unrhyw un o'r cyfnodau monitro blaenorol ar 86 annedd. Yr isaf a gofnodwyd yn flaenorol oedd 212 annedd yn 2015-16 a'r uchaf yn 1,238 yn 2017-2018. Serch hynny mae hyn yn sylweddol is na'r 251 caniatâd a gofnodwyd yn 2019-2020. Mae cyfuniad o ffactorau yn gyfrifol am y gostyngiad hwn, un ohonynt oedd fod gan fwyafrif y Safleoedd Strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ganiatâd cynllunio eisoes. Gall ffactorau eraill hefyd fod wedi arwain at ostyngiad mewn caniatâd ar gyfer anheddau newydd yn cynnwys cyflwyno'r cyfnod clo cyntaf Covid-19 ym Mhrydain oedd yn cyd-daro gyda dechrau'r cyfnod monitro hwn. Mae'n ddi-os y bydd cau llawer o brif adeiladau safle am gyfnod sylweddol wedi cael effaith ar gyfradd yr anheddau a gwblhawyd ac ar gyflwyno safleoedd newydd. Mae gan y cyhoeddiad yn ystod y cyfnod monitro am broblemau ansawdd dŵr ffosffadau yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol yr Wysg a'r Gwy hefyd oblygiadau ar gyfer cyflenwi parhaus datblygiad yn y Sir. Er mai effaith gyfyngedig a gafodd y mesurau ar lefelau caniatâd yn ystod y cyfnod monitro hwn oherwydd dyddiad cyflwyno ym mis Ionawr, codwyd pryderon yng nghyswllt yr effaith barhaus ar lefelau caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

**e) Prif Drefi**

O'r 86 uned annedd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro, roedd 31.4% (27 uned) ym Mhrif Drefi'r Sir sef y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent. Mae hyn o fewn y lwfans

hyblygrwydd +/- 10% o darged y Cynllun Datblygu Lleol a ddynodwyd (41%) ac felly ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. Roedd yr anheddau a gafodd ganiatâd yn cynnwys 12 cais, dim ond un ohonynt yn cyfeirio at ddyraniad yn y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd hyn yn gysylltiedig ag elfen Tai Fforddiadwy y Safle Strategol yn Fairfield Mabey (SAH3) a gafodd ei nodi'n flaenorol yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017-18 ar gyfer 18 uned. Fodd bynnag cymeradwywyd cais ers hynny (DM/2019/01960) am 26 annedd fforddiadwy, cafodd 8 annedd ychwanegol felly eu hychwanegu at Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21 gan na chawsant eu cofnodi'n flaenorol. Caiff y 19 annedd arall eu dosbarthu fel safleoedd bach, gan gyfrannu at lwfans safle bach y Cynllun. O'r rhain, roedd 5 cais yn cyfrif am 9 uned yn ymwneud ag addasu a newid defnydd a 5 cais yn cyfrif am 5 uned yn ymwneud ag anheddau adeilad newydd. Roedd cais ychwanegol yn ymwneud ag addasu tafarn i ddeunydd preswyl gyda 4 annedd adeilad newydd i'r cefn (cyfanswm o 5 uned). Roedd datblygiadau adeiladu newydd yn gysylltiedig â chyfanswm o 63% ac addasu gyda 37% o'r anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi.

Roedd mwyafrif yr anheddau a gafodd ganiatâd yng Nghasgwent ar 67%, gyda Threfynwy yn cyfrif am 26% a'r Fenni am 7%.

Mae nifer yr anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro presennol yn sylweddol is nag yn y cyfnodau monitro blaenorol a'r isaf a gofnodwyd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, mae'r canran o'r anheddau a gafodd ganiatâd yn y Prif Drefi ar draws y Sir wedi cynyddu i 31% o gymharu â'r cyfnod monitro blaenorol (13.5%).

Fel y rhagwelwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol cynharach, mae'r gyfran o anheddau a gafodd ganiatâd yn y prif drefi wedi gostwng oherwydd y Safleoedd Tai Strategol a ddyrannwyd yn y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent a gafodd ganiatâd cynllunio mewn cyfnodau monitro blaenorol. Mae diweddariad ar gynnydd y safleoedd a ddyrannwyd yn y Prif Drefi yn y dadansoddiad polisi safleoedd strategol (Polisi S3).

Oherwydd yr uchod, ni ystyrir fod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt anheddau a gafodd ganiatâd yn y Prif Drefi ac felly nid oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun.

**f) Aneddiadau Glannau Hafren**

Roedd 13 o'r 86 annedd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro yn aneddiadau Glannau Hafren, sy'n gyfartal â 15.1%. Mae hyn yn is na'r targed a ddynodwyd ar gyfer yr ardal hon (33%), felly cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. O'r 13 uned y rhoddwyd caniatâd iddynt, roedd 31% yng Nghil-y-coed (4 annedd), 31% yn Rogiet (4 annedd), 31% yng Ngwndy (4 annedd) a 7% ym Mhorthysgewin (1 annedd). Ni roddwyd caniatâd i unrhyw unedau preswyl ym Magwyr a Sudbrook yn ystod y cyfnod monitro.

Safleoedd bach oedd bron bob un o'r rhai a gafodd ganiatâd yng Nglannau Hafren. Roedd yr holl anheddau a gafodd ganiatâd yn aneddiadau Glannau Hafren yn gartrefi marchnad.

| |
|---|
| Mae’r gyfran o ddatblygiadau a ganiatawyd yn aneddiadau Glannau Hafren yn is nag yn y cyfnod monitro blaenorol ar 15.1% o gymharu gyda 61.8% yn 2019-20 ac yn nes at y gyfradd isaf o 10% a gofnodwyd yn 2015-2016.<br><br>Mae un dyraniad tai strategol arall yng Nglannau Hafren nad yw wedi derbyn caniatâd cynllunio hyd yma – tir yn Vinegar Hill, Gwndy. Gall penderfyniad ar y cais hwn yn y cyfnod monitro nesaf arwain at gyfran uwch o anheddau a ganiateir yn ardal Glannau Hafren yn 2021-22 oherwydd fod gan bob safle tai strategol arall eisoes fudd caniatâd cynllunio. Mae diweddariad ar gynnydd safleoedd a ddyrannwyd yng Nglannau Hafren a’r Sir yn nadansoddiad polisi Safleoedd Strategol (Polisi S3).<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun. |
| **g) Aneddiadau Gwledig Eilaidd**<br>Roedd 11% uned (12.8%) o’r holl anheddau a gafodd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro yn Aneddiadau Gwledig Eilaidd y Sir. Mae hyn o fewn ystod dangosydd 10% targed y Cynllun Datblygu Lleol o 10%, felly ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.<br><br>O’r 11 uned, mae 7 (5 marchnad agored a 2 annedd fforddiadwy) yn cyfeirio at y safle Cynllun Datblygu Lleol a ddyrannwyd yn Cwrt Burrium (SAH10(i)). Mae’r 4 annedd arall yn ymwneud â safleoedd bach, 2 annedd newydd ym Mrynbuga ynghyd ag addasu pellach ac 1 annedd adeilad newydd yn Llan-ffwyst.<br><br>Mae’r gyfran o anheddau a gafodd ganiatâd o fewn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd yn fras debyg i’r ffigur targed o 10%. Cafodd yr holl safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol mewn aneddiadau Gwledig Eilaidd ganiatâd erbyn hyn. Cafodd SAH10(ii) tir i’r de o Lôn yr Ysgol, Penperllenni ei gwblhau, mae’r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar SAH10(i) safle Cwrt Burrium, Brynbuga a rhoddwyd caniatâd amlinellol ar SAH10(iii) tir ar safle Heol Cas-gwent, Rhaglan.<br><br>Oherwydd yr uchod, ni ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol yng nghyswllt gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt caniatâd i anheddau a roddwyd yn yr Aneddiadau Eilaidd Gwledig. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y cynllun. |
| **h) Gwledig Cyffredinol**<br>Roedd 35 (40.7%) o’r holl anheddau a gafodd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro yn ardaloedd gwledig y Sir. Mae hyn yn sylweddol uwch na’r targed a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol o 16%. Felly, cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.<br><br>Fodd bynnag, mae’r nifer o anheddau a gafodd ganiatâd a gofnodwyd mewn ardaloedd gwledig yn is yn y cyfnod hwn nag mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Mae’r cynnydd yn y gyfran felly yn fwy o adlewyrchiad o ostyngiad mewn caniatâd yn y Prif Drefi nag unrhyw gynnydd gwirioneddol yn yr aneddiadau Gwledig Cyffredinol. Er amrywiaethau mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, bu’r gyfran o anheddau a gofnodwyd yn ardaloedd gwledig y Sir o fewn +/- 10% o’r targed ers ei fabwysiadu, gan olygu na chafodd |

| |
|---|
| y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ei gyrraedd o’r blaen. Ffactorau eraill tebyg i effaith Covid-19 a lefelau ffosffadau mewn afonydd, ynghyd â bod mwyafrif y Safleoedd Strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol eisoes wedi cael caniatâd cynllunio, sydd fwyaf tebygol o fod yr achosion cynnydd yn y gyfran o anheddau a gafodd ganiatâd yn yr ardaloedd gwledig.<br><br>Cafodd un safle Prif Bentref a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn Drenewydd Gellifarch (SAH11(xiv)(a)) ganiatâd cynllunio dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn cyfeirio at ran o safle ehangach o fewn y ffin datblygu yn cyfrif am 11 uned i gyd (7 marchnad agored, 4 fforddiadwy dros y safle cyfun). Mae’r gweddill i gyd yn cyfeirio at anheddau marchnad agored ar gyfer safleoedd bach (5 annedd), ac addasu/tynnu amodau ar geisiadau (19 uned) a gofnodwyd mewn ystod o aneddiadau gwledig ledled Sir Fynwy (69%, 24 uned).<br><br>Er y cyrhaeddwyd y sbardun, o gofio am yr uchod, ni ystyrir fod unrhyw broblem gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt yr anheddau a gafodd ganiatâd yn aneddiadau gwledig y Sir. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| e) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| f) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| g) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| h) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Caiff anheddau a gaiff eu cwblhau a chaniatâd eu monitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o weithredu’r strategaeth ofodol.

## Darpariaeth Tai

**Nod/Deilliant Monitro:** Darparu 4,500 annedd (yn cynnwys 90 annedd fforddiadwy) yn y Sir dros gyfnod y Cynllun.

**Polisi Strategol:** S2 Darpariaeth Tai

**Amcanion Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** 1, 3 & 4

**Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** H1-H9, SAH1-SAH11

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau ychwanegol marchnad gyffredinol a fforddiadwy a adeiladwyd dros gyfnod y cynllun* | Hyd at 488 annedd i gael eu hadeiladu bob blwyddyn 2013-2021<br><br>*(2014-15: 205)*<br>*(2015-16: 234)*<br>*(2016-17: 238)*<br>*(2017-18: 279)*<br>*(2018-19: 443)*<br>*(2019-20: 356)* | 10% yn llai neu'n fwy na chyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol am 2 flwyddyn olynol | **419** |
| 2. Lefel flynyddol y tai a gafodd eu cwblhau wedi ei monitro yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ** | Gwahaniaeth rhwng gwir nifer y tai a gafodd eu cwblhau a'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog<br><br>*(2014-15: -245 uned (-54.4%))* | Tan-gyflawni nifer flynyddol a gafodd eu cwblhau ar ddwy flynedd olynol | **-31 uned (-6.9%)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2015-16: -216 uned (-48%))*<br>*(2016-17: -212 (-47.1%))*<br>*(2017-18: -171 uned (-38%))*<br>*(2018-19: -7 uned (-1.6%))*<br>*(2019-20: -94 uned (-20.9%))* | | |
| 3. Cyfanswm cronnus tai a gafodd eu cwblhau wedi ei fonitro ar y gofyniad cronnus (AAR Cronnus) ** | Gwahaniaeth rhwng y nifer cronnus a gwblhawyd a'r AAR cronnus<br><br>*(2014-15: -769 uned (-42.7%))*<br>*(2015-16: -985 uned (-43.8%))*<br>*(2016-17: -1197 (-44.3%))*<br>*(2017-18: -1368 uned (-43.4%))*<br>*(2018-19: -1375 uned (-38.2%))*<br>*(2019-20: -1469 (-36.3%))* | Tan-gyflawni nifer a gwblhawyd ar ddwy flynedd yn olynol | **-1500 uned (-33.3%)** |
| 4. Dwysedd tai a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd ♦ | Cyrraedd y dwysedd targed a nodir ym mholisïau dyrannu safle SAH1 i SAH10 | Caniatâd cynllunio a roddwyd nad ydynt yn cyrraedd y dwyseddau hyn | **SAH10(i): 16dph** |
| 5. Adolygu Astudiaeth Anghenion Llety Sipsiwn/Teithwyr a Safleoedd i gael ei gwblhau o fewn dwy flynedd o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol | Os dynodir angen am safle(oedd) ychwanegol, ceisio dyrannu safle addas erbyn Gwanwyn 2017 | Angen a ddynodwyd heb ei ddiwallu erbyn Gwanwyn 2017 | **Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2017. Cymeradwywyd 13 llain.** |

| Dadansoddiad |
|---|
| 1. Er i'r dull ar gyfer monitro cyflenwi tai newid yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, mae'r dangosydd hwn yn dal i gael ei gynnwys gan ei fod yn mesur y nifer a gafodd eu cwblhau o gymharu â'r targed cwblhau (488) ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014 yn hytrach nag o 2011, dechrau cyfnod y Cynllun. Mae'r dangosydd hwn felly yn mynd i'r afael ag unrhyw dan/dros gyflenwi yn nhair blynedd gyntaf cyfnod y Cynllun cyn ei fabwysiadu .<br><br>Cafodd 419 annedd eu hadeiladu yn ystod y cyfnod monitro (348 marchnad gyffredinol a 71 fforddiadwy).<br><br>Roedd dros hanner yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd (217 uned 52%) yn cynnwys Fferm Deri, y Fenni (83), Coed Glas, y Fenni (19 – mae'r safle hwn yn awr wedi'i gwblhau), Fairfield Mabey, Cas-gwent (18), Tir i'r de ddwyrain o Landdingad (15 – mae'r safle hwn yn awr wedi'i gwblhau), Heol Wonastow, Trefynwy (13 - mae'r safle hwn yn awr wedi'i gwblhau), Melin Bapur Sudbrook (28) a Fferm Rockfield, Gwndy (41). Roedd safleoedd ar hap mawr yn cyfrif am 121 arall o'r anheddau a gwblhawyd a safleoedd bach (yn cynnwys addasu adeiladau á safleoedd ar hap) am 81 arall (19%.<br><br>Er y cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd gan y bu nifer y tai a gwblhawyd 10% yn llai na chyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol am 2 flynedd yn olynol, bu'r nifer a gwblhawyd dros y tri chyfnod monitro diwethaf yn sylweddol uwch nag ym mlynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun. Mae'r ffigur cwblhau cyfredol, ynghyd â chyfradd cwblhau o 1,755 annedd a gofnodwyd yn ystod y chwe chyfnod monitro ers mabwysiadu (cwblhau 205 yn 2014-2015; cwblhau 234 yn 2015-2016; cwblhau 238 yn 2016-2017; cwblhau 279 yn 2017-2018; cwblhau 443 yn 2018-2019; a chwblhau 356 yn 2019-2020) yn golygu y cofnodwyd y cafodd 2,174 o anheddau eu cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun.<br><br>Mae cynnydd safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i gyfrif am y lefel uwch o anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod hwn o gymharu â chyfnodau monitro cynharach. Gan fod nifer o safleoedd eraill a ddyrannwyd wedi cael caniatâd, mae'n ddi-os y bydd nifer yr anheddau a gwblhawyd yn cynyddu dros weddill cyfnod y Cynllun. Bydd cyflenwi gweddill y safleoedd tai strategol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn neilltuol yn hybu'r gyfradd cwblhau yn unol â'r targed a ddynodwyd. Rhoddir diweddariad ar gynnydd safleoedd strategol a ddyrannwyd yn y dadansoddiad polisi safleoedd strategol (Polisi S3).<br><br>Roedd cyflwyno cyfnod clo cyntaf Covid-19 ym Mhrydain yn cyd-daro gyda dechrau'r cyfnod monitro hwn. Mae'n anochel y bydd cau llawer o safleoedd adeiladu am gyfnod sylweddol yn cael effaith ar gyfradd cwblhau ac ar safleoedd newydd a gyflwynir. Mae hefyd ffactorau economaidd niferus sy'n dylanwadu ar gyflenwi tai uwch a thu hwnt i'r system cynllunio. Mae gan y cyhoeddiad a wnaed yn ystod y cyfnod monitro am broblemau ansawdd dŵr ffosffadau yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol yr Wysg a'r Gwy hefyd oblygiadau ar gyfer datblygiad parhaus yn y Sir. Cafodd chwech dyraniad safle strategol ganiatâd erbyn diwedd y cyfnod monitro hwn a gwneir cynnydd sylweddol â'r safle strategol weddilliol ymlaen, fel y dangosir yn y dadansoddiad o Bolisi S3.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau anheddau a gwblhawyd yn agos mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi wrth alluogi anheddau marchnad gyffredinol a hefyd anheddau fforddiadwy. |

2. & 3. Fel y trafodwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Mae'r newid yn dileu'r cyflenwad tir tai pum mlynedd a rhoi datganiad polisi yn ei le gan ei wneud yn eglur y bydd y trywydd tai, a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ac a gytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, yn sail ar gyfer monitro cyflenwi gofynion tai y cynllun datblygu fel rhan o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y ffordd y gwneir hyn ei nodi yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) (Mawrth 2020).

Mae'n ofynnol i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny, yn cynnwys Sir Fynwy, a fabwysiadodd eu Cynllun Datblygu Lleol cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac felly heb baratoi rhestr tai, i ddefnyddio'r dull Gofyniad Blynyddol Cyfartalog fel y prif ddangosydd i fesur darpariaeth tai, ac i gynnwys y dull trywydd o fewn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn gyfwerth â 450 annedd y flwyddyn, gofyniad y Cynllun Datblygu Lleol o 4,500 annedd wedi ei rannu gan y cyfnod Cynllun 10-mlynedd. Dyma'r ffigur y caiff darpariaeth anheddau'r Cynllun Datblygu Lleol ei fonitro erbyn hyn.

Mae'r cyntaf o'r dangosyddion newydd yn mesur lefel flynyddol yr anheddau a gwblhawyd wedi ei fonitro o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi fod yn rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn termau rhifyddol a hefyd ganran (plws/minws x %) ac mai'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ddylai fod tan-gyflawni cwblhau anheddau ar ddwy flynedd yn olynol. Fel y dangosir yn y tabl islaw, er i'r Cynllun dangyflawni ym mlynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun, yn y cyfnodau monitro mwyaf diweddar bu nifer yr anheddau a gwblhawyd yn llawer nes at y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, -7 uned (-1.6%) yn 2018/19, -94 uned (-20.9%) yn 2019/20 a -31 (-6.9%) yn 2020/21. Mae hyn yn bennaf oherwydd pa mor gyflym y daeth safleoedd strategol ymlaen, mae gan 6 ganiatâd cynllunio erbyn hyn, gyda thri safle yn cael eu hadeiladu (Fferm Deri, Y Fenni, Fairfield Mabey, Cas-gwent a Melin Bapur Sudbrook, Sudbrook) ac un safle wedi ei gwblhau (Heol Wonastow, Trefynwy). Mae'n debyg y bydd nifer yr anheddau a gwblheir yn debycach i'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog o hyn ymlaen. Fodd bynnag, cafodd y sbardun ar gyfer adolygu'r Cynllun ei gyrraedd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ac mae'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn mynd rhagddo.

**Nifer flynyddol o anheddau a gwblhawyd o gymharu gyda'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog**

| Blwyddyn y Cynllun Datblygu Lleol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
| Gwir nifer a gwblhawyd – safleoedd cronfa dir[7] | 90 | 193 | 118 | 73 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | |
| Gwir nifer a gwblhawyd – safleoedd a ddyrannwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 36 | 89 | 279 | 252 | 217 | | | | | |
| Gwir nifer a gwblhawyd – safleoedd ar hap | 74 | 55 | 53 | 33 | 135 | 128 | 107 | 80 | 0 | 121 | | | | | |
| Gwir nifer a gwblhawyd – safleoedd bach | 90 | 94 | 59 | 99 | 99 | 74 | 83 | 84 | 104 | 81 | | | | | |

[7] Safleoedd cronfa dir yw'r safleoedd hynny a ddyrannwyd ar gyfer eu datblygu mewn Cynlluniau blaenorol

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y rhagwelir eu cwblhau – safleoedd a ddyrannwyd | | | | | | | | | | | 237 | 313 | 225 | 294 | 235 |
| Nifer y rhagwelir eu cwblhau – safleoedd ar hap | | | | | | | | | | | 152 | 153 | 118 | 89 | 44 |
| Nifer y rhagwelir eu cwblhau – safleoedd bach | | | | | | | | | | | 85 | 85 | 85 | 85 | 85 |
| **Gwir Gyfanswm y Nifer a Gwblhawyd** | **254** | **342** | **230** | **205** | **234** | **238** | **279** | **443** | **356** | **419** | **474** | **551** | **428** | **468** | **364** |
| Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (seiliedig ar GBC llinell syth) | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | | | | | |
| Nifer a gwblhawyd o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog | -196 | -108 | -220 | -245 | -216 | -212 | -171 | -7 | -94 | -31 | | | | | |
| Nifer a gwblhawyd % +/-o gymharu â'r Gofyniad Cyfartalog | -43.6 | -24.0 | -48.9 | -54.4 | -48.0 | -47.1 | -38.0 | -1.6 | -20.9 | -6.9 | | | | | |

Mae'r ail o'r dangosyddion newydd yn mesur cyfanswm cronnus nifer yr anheddau a gwblhawyd o gymharu â'r gofyniad cronnus (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog Cronnus). Eto, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi fod yn rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn termau rhifyddol a hefyd fel canran (plws/minws x %) ac mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ddylai fod tangyflawni y nifer a gwblhawyd ar ddwy flynedd yn olynol. Bu tangyflawni nifer gronnus a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun ac felly cafodd y sbardun ei gyrraedd. Fodd bynnag, mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol mwy diweddar, mae'r % o dangyflawni wedi gostwng yn gyson wrth i'r safleoedd strategol fynd rhagddynt. Mae dadansoddiad manylach ar safleoedd strategol ar gael yn yr adran ar Safleoedd Tai Strategol (Polisi S3).

**Nifer cronnus anheddau a gwblhawyd o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog Cronnus**


| Blwyddyn Cynllun Datblygu Lleol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** |
| Gwir nifer cronnus a gwblhawyd – safleoedd cronfa dir[8] | 90 | 283 | 401 | 474 | 474 | 474 | 474 | 474 | 474 | 474 |
| Gwir nifer cronnus a gwblhawyd – safleoedd a ddyrannwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 36 | 125 | 404 | 656 | 873 |
| Gwir nifer cronnus a gwblhawyd – safleoedd ar hap | 74 | 129 | 182 | 215 | 350 | 478 | 585 | 665 | 665 | 786 |
| Gwir nifer cronnus a gwblhawyd – safleoedd bach | 90 | 184 | 243 | 342 | 441 | 515 | 598 | 682 | 786 | 867 |

[8] Safleoedd cronfa dir yw'r safleoedd hynny a ddyrannwyd ar gyfer datblygu mewn Cynlluniau blaenorol

| **Cyfanswm Cronnus a Gwblhawyd** | 254 | 596 | 826 | 1031 | 1265 | 1503 | 1782 | 2225 | 2581 | 3000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Cronnus Blynyddol Cyfartalog | 450 | 900 | 1350 | 1800 | 2250 | 2700 | 3150 | 3600 | 4050 | 4500 |
| Nifer a gwblhawyd o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog cronnus | -196 | -304 | -524 | -769 | -985 | -1197 | -1368 | -1375 | -1469 | -1500 |
| Nifer cronnus a gwblhawyd % +/-o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog cronnus | -43.6 | -33.8 | -38.8 | -42.7 | -43.8 | -44.3 | -43.4 | -38.2 | -36.3 | -33.3 |

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i elfennau cyflenwad tai, yn cynnwys dyraniadau safle, safleoedd ar hap mawr a bach gael eu monitro ar wahân a'u cynnwys ar graff i'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Paratowyd trywydd tai mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai a chaiff ei ddangos yn y tabl a'r graff islaw. Caiff gwybodaeth fanwl yng nghyswllt amseriad a chyfnodau safleoedd a gynhwysir yn y trywydd eu cynnwys yn Atodiad 1. Gan y cyrhaeddwyd cyfnod 10-mlynedd y Cynllun, mae'r trywydd yn cynnwys 5 blynedd arall tu hwnt i'r cyfnod monitro hwn. Aiff hyn â'r trywydd i gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a bydd yn galluogi cynnal dadansoddiad mwy ystyrlon o ddarpariaeth tai.

**Trywydd Datblygiadau Tai 2011-2026**




Mae'r wybodaeth hon yn dangos yn glir fod mwyafrif yr anheddau a gwblhawyd ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun Datblygu Lleol yn dod o'r gronfa dir o safleoedd o'r Cynllun blaenorol. Mewn blynyddoedd diweddar, fodd bynnag, wrth i'r Safleoedd Strategol gael caniatâd, maent yn cyfrannu'n sylweddol at gyfanswm yr anheddau a gafodd eu cwblhau. Er eu bod yn brin o'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yn ystod y cyfnod

| |
|---|
| monitro, disgwylir y byddant yn cwrdd neu'n rhagori dros y 4 blynedd nesaf wrth i weddill y safleoedd gael eu hadeiladu. |
| 4. Cafodd y safle dilynol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol *** ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro ac mae hynny wedi effeithio ar nifer yr unedau a gaiff eu darparu ar y safle. Mae'r dwysedd safleoedd fel sy'n dilyn:<br>• Cwrt Burrium, Brynbuga (SAH10(i)) 7 uned, dwysedd o 16 annedd fesul hectar<br><br>Cafodd y safle ei dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 20 annedd ar arwynebedd safle gwreiddiol o 0.66ha. Cafodd y cais ei newid yn sylweddol yn dilyn ei gyflwyno'n wreiddiol ym mis Mawrth 2018 ar gyfer annedd. Yn dilyn ymgynghoriad a thrafodaeth gyda Thîm Rheoli Risg Llifogydd y Cyngor, daethpwyd i'r casgliad nad oedd rhan isaf y safle yn addas i'w ddatblygu. Roedd hyn oherwydd pryderon difrifol am lefel y risg llifogydd. Felly, gostyngwyd ffin y safle i tua 0.4 hectar gyda chaniatâd i 7 annedd. Er y bydd y safle maes o law yn darparu llai na'r targed a fwriadwyd o'r Cynllun Datblygu Lleol, o gofio am y cyfyngiadau technegol sylweddol ar y safle, ystyrir bod nifer yr anheddau yn dderbyniol.<br><br>Oherwydd yr uchod, gan fod cyfyngiadau technegol trech ar y safle oedd yn effeithio ar y dwysedd targed gofynnol, ni ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt dwysedd y tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd. Serch hynny, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn er mwyn penderfynu effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun. |
| 5. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i fonitro anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a pharatôdd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn y cyfnod monitro 2016-2017. Nod yr asesiad oedd rhai data a ddynodi anghenion lleiniau Sipsiwn a Theithwyr ar wahanol i alw a dyheadau preswyl ehangach. Roedd bod amcangyfrif angen heb ei gyflawni am wyth llain hyd 2021 yn ganfyddiad allweddol o'r asesiad, yn seiliedig ar orlenwi, meddiannaeth heb ganiatâd a'r tebygrwydd o wrthwynebiad diwylliannol i dai confensiynol.<br><br>Oherwydd hyn, bwriad y Cyngor yw gwneud darpariaeth ar gyfer safle(oedd) addas i ddiwallu angen nas diwallwyd drwy weithio gydag aelwydydd Sipsi a Theithwyr i sefydlu eu dymuniadau am ddarpariaeth safle (preifat neu Gyngor). Mae canfyddiadau'r broses hon yn awgrymu fod dymuniad o fewn llawer o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer darpariaeth safle preifat yn Sir Fynwy. Lle bo angen, bydd y Cyngor yn gweithio gyda a chefnogi aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ddynodi a datblygu safleoedd preifat addas i fynd i'r afael â'r angen a ddynodwyd heb ei gyflawni yn unol â fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Ystyrir mai drwy fframwaith polisi presennol y Cynllun Datblygu Lleol y byddai orau trin safleoedd o'r fath (Polisi H8). Os na fedrir sicrhau safle(oedd) preifat, gall fod angen i ddynodi safle sipsiwn/teithwyr preifat yn unol gyda fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Bu cynnydd o ran datblygu argymhellion yr Asesiad, yn cynnwys paratoi a mabwysiadu Polisi Llety Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, a gymeradwywyd ac a fabwysiadwyd gan Benderfyniad Cabinet Aelod Sengl ar 28 Chwefror 2018. Roedd angen mabwysiadu'r polisi hwn cyn y gellid ystyried dynodi safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.<br><br>Yn unol gyda'r fframwaith monitro, nid oedd yr angen a ddynodwyd wedi ei gyflawni erbyn Gwanwyn 2017 felly cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. Fodd bynnag, fel yn y gwanwyn 2018, cafodd yr angen heb ei ddiwallu a ddynodwyd yn yr Asesu ei gyrraedd. Rhoddir manylion pellach islaw. |

Fel yr adroddwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, gwrthodwyd dau gais cynllunio ar gyfer llety Sipsiwn/Teithwyr yn ystod cyfnod 2016-17. Mae'r ceisiadau yn cyfeirio at safle preifat i sipsiwn yn cynnwys 5 llain ychwanegol a datblygiad cysylltiedig ar dir yn Llangyfiw a safle 4 llain preifat i sipsiwn yn Llancaio. Ystyriwyd fod y ddau gynnig yn groes i bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yng nghyswllt datblygiad mewn cefn gwlad agored, ac ystyriwyd fod yr ymgeiswyr wedi methu dangos fod amgylchiadau eithriadol a fyddai'n bwysicach na fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd cais Llangyfiw (DC/2015/01424) ei ganiatâu yn ddilynol mewn apêl ym mis Hydref 2017 ar gyfer safle parhaol ar gyfer 7 llain a datblygiad cysylltiedig. Cafodd y safle 4 llain preifat i sipsiwn yn Llancaio (DC/2016/00297) ei wrthod mewn apêl ym mis Rhagfyr 2017 ar bob sail heblaw un. Caniataodd yr arolygydd yng nghyswllt sail (g) yn unig, yn cyfeirio at y cyfnod cydymffurfiaeth gyda'r Hysbysiad Gorfodaeth, gan ymestyn y cyfnod o 2 fis i 12 fis. Mae'r apeliwr yn herio'r penderfyniad yn yr Uchel Lys ar hyn o bryd.

Gwrthodwyd cais cynllunio am un safle teulu teithwyr gyda 1 llain ar dir i'r gogledd ddwyrain o Lanwytherin (DM/2018/00205) ar sail diogelwch priffyrdd yn ystod cyfnod monitro 2018-19. Fe wnaeth yr ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad yn ddilynol gyda gwrandawiad apêl ym mis Chwefror 2019. Gwrthodwyd yr apêl ar sail diogelwch priffyrdd.

Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf cymeradwywyd cais cynllunio ar gyfer newid defnydd tir i gynnwys dau gartref parc a hyd at 4 carafan deithiol (safle teulu preifat) ar dir ger Sunnybank, Crug (DM/2019/01480). Cafodd y cais ei ddiwygio yn ystod y cyfnod monitro presennol ond nid yw hyn wedi arwain at unrhyw leiniau ychwanegol (DM/2020)00883).

Defnyddir polisi H8 y Cynllun Datblygu Lleol sy'n seiliedig ar feini prawf i ystyried unrhyw geisiadau ar gyfer llety Sipsiwn/Teithwyr sy'n codi yn Sir Fynwy. Cafodd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ei ddiweddaru i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Gwledig ac mae gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

| **Argymhelliad** |
|---|
| 1. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 2. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 3. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosyddion Craidd

** Yn dilyn dileu Nodyn Cyngor Technegol (TAN 1): Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir Tai (Ionawr 2015) yn ei gyfanrwydd, cafodd y dangosydd ei newid i adlewyrchu gofynion y Llawlyfr Cynllun Datblygu (Mawrth 2020).

***Dangosydd yn cyfeirio at safleoedd a ddyrannwyd SAH1 – SAH10 yn unig. Mae felly'n eithrio safleoedd a ddyrannwyd mewn Prif Bentrefi (SAH11).

♦Diwygiwyd i ddileu cyfeiriad at 'cyfartalog' er mwyn eglurdeb. Mae'r dangosydd yn anelu i fonitro'r dwysedd a sicrhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd, yn hytrach na dwysedd cyfartalog.

## Safleoedd Tai Strategol

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cyflenwi'r safleoedd tai strategol yn unol â pholisi strategol S3 a pholisïau dyrannu safleoedd SAH1-SAH7. |
| **Polisi Strategol:** | S3 Safleoedd Tai Strategol |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | SAH1-SAH7 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newid cyd-destun sylweddol yng nghyswllt y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020– 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ar safleoedd strategol fel y'u dynodir ym Mholisi S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1 i SAH7 | Sicrhau/darparu angen tai ar y safleoedd strategol allweddol a ddynodwyd ym Mholisi S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1 – SAH7 yn ystod cyfnod y cynllun: | Ni roddwyd caniatâd cynllunio cyn diwedd 2014 ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol | |
| | a) Fferm Deri, Y Fenni | | **(250*)** |
| | b) Heol Crug, Porthysgewin | | **269** |
| | c) Fairfield Mabey, Cas-gwent | | **347** |
| | d) Heol Wonastow, Trefynwy | | **(340*)** |
| | e) Fferm Rockfield, Gwndy | | **(266*)** |
| | f) Tir yn Vinegar Hill, Gwndy | | **0** |
| | g) Hen Felin Bapur, Sudbrook | | **(210*)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. Nifer yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol fel y'u dynodir ym Mholisi S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1 to SAH7 | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn unol â'r trywydd tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol ** | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn syrthio dan 10% o darged y trywydd tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol | |
| | a) Fferm Deri, y Fenni *(Trywydd 2019-20 = cwblhau 50 annedd ar gyfer 2020-21)* | | **83** |
| | b) Heol Crug, Porthysgewin *(Trywydd 2019-20 = cwblhau 0- annedd ar gyfer 2020-21)* | | **0** |
| | c) Fairfield Mabey, Cas-gwent *(Trywydd 2019-20 = cwblhau 5 annedd ar gyfer 2020-21)* | | **18** |
| | d) Heol Wonastow, Trefynwy *(Trywydd 2019-20 = cwblhau 13 annedd ar gyfer 2020-21)* | | **13** |
| | e) Fferm Rockfield, Gwndy *(Trywydd 2019-20 = cwblhau 44 annedd ar gyfer 2020-21)* | | **41** |
| | f) Tir yn Vinegar Hill, Gwndy *(Trywydd 2019-20 = cwblhau 0 annedd ar gyfer 2020-21)* | | **D/G** |
| | g) Hen Felin Bapur, Sudbrook *(Trywydd 2019-20 = cwblhau 40 annedd ar gyfer 2020-21* | | **28** |

| Dadansoddiad |
|---|
| **1. Caniatâd Anheddau**<br>Yn nhermau'r safleoedd strategol a ddyrannwyd, er na roddwyd caniatâd i unrhyw safleoedd ychwanegol yn ystod y cyfnod monitro presennol, rhoddwyd cymeradwyaeth Materion a Gadwyd i elfen tai fforddiadwy un safle, Fairfield Mabey yng Nghas-gwent, ar gyfer 20 annedd fforddiadwy.<br><br>Mae hyn ynghyd â chaniatâd ar gyfer 347 annedd ar brif ran safle Fairfield Mabey*, 340 uned yn safle Heol Wonastow*, 210 uned yn yr Hen Felin Bapur, Sudbrook*, 269 uned yn Heol Crug, Porthysgewin*, 266 uned yn Fferm Rockfield, Gwndy* a 250 uned yn Fferm Deri, y Fenni* yn golygu fod chwech o ddyraniadau safle strategol y Cynllun wedi sicrhau caniatâd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Gan nad yw'r safle strategol arall yn Vinegar Hill, Gwndy wedi cael caniatâd cynllunio hyd yma, ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad. Fodd bynnag, mae cais yn cael ei ystyried ar gyfer safle Vinegar Hill, Gwndy a disgwylir y caiff ei benderfynu yn y cyfnod monitro nesaf.<br><br>Oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig gyda rhai o'r safleoedd, yn cynnwys Fferm Deri a Fairfield Mabey, nid oedd y dyddiad sbardun o gael caniatâd ar gyfer pob safle erbyn diwedd 2014 yn realistig. Mae'r methiant i gael caniatâd cynllunio ar y safle strategol sydd ar ôl yn Vinegar Hill erbyn diwedd y cyfnod monitro presennol yn achos pryder, er y gwneir cynnydd ar ddod â'r safle hwn rhagddo fel yr amlinellir yn fyr islaw.<br><br>**Fferm Deri, Y Fenni (SAH1):**<br>Cyflwynodd Persimmon Homes gais llawn (DC/2014/01360) am 250 uned breswyl (201 uned marchnad a 49 uned fforddiadwy) ym mis Tachwedd. Bu cynnydd y cais yn arafach na'r disgwyl oherwydd problemau sylweddol yn gysylltiedig â hyfywedd y safle, yn neilltuol ddarpariaeth tai fforddiadwy a rhoi llinellau pŵer dan ddaear. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu datrys yn ddilynol, cymeradwywyd y cais yng nghyfnod monitro 2017-208 a chafodd 183 uned eu cwblhau hyd yma.<br><br>Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle ddarparu 234 annedd o fewn cyfnod y Cynllun gyda'r holl anheddau yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod monitro nesaf.<br><br>**Heol Crug, Porthysgewin (SAH2):**<br>Yng nghyfnod monitro 2018/19 cyflwynodd Cyngor Sir Fynwy a Cartrefi Melin gais amlinellol ar y cyd (DM/2018/00696) ar gyfer 291 uned breswyl (218 uned marchnad a 73 uned fforddiadwy), a rhoddwyd caniatâd i hyn ym mis Mawrth 2019. Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf cymeradwywyd cais materion a gadwyd (DM/2019/01041) ar gyfer 269 uned breswyl (201 uned marchnad a 68 uned fforddiadwy). Mae hyn yn is na'r nifer targed o unedau ar gyfer y safle (285) yn y Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd y gostyngiad yn nwysedd y safle ei achosi gan newidiadau i'r mathau o anheddau a gynigir a gan welliannau cadarnhaol i ddyluniad y safle. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys seilwaith gwyrdd sy'n ffurfio echel gogledd-de y safle, goblygiadau ecolegol nyth moch daear ar y safle sydd wedi arwain at warchod mwy o ofod agored, tra bod y gofynion priffyrdd wedi arwain at gysylltiadau mwy diogel a hygyrch. Mae Polisi SAH2 yn dyrannu 1 hectar o B1, a gafodd ei |

ddisodli gyda chartref gofal fydd yn darparu hyd at 32 gwely ar yr ardal a amlinellwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth. Mae hyn yn destun cais cynllunio ar wahân, DM/2019/01629, a gafodd ganiatâd ar 26 Chwefror 2020. Cafodd derbyn y golled hon ei gyfiawnhau yn flaenorol yng nghyswllt y caniatâd amlinellol a gymeradwywyd mewn cyfnod monitro cynharach. Er nad yn fanwl gywir yn gyflogaeth B1, mae cartref gofal yn fath o gyflogaeth a byddai'n arwain at greu swyddi ar y safle.

Nid yw'r trywydd tai a baratowyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi unrhyw anheddau o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir i'r anheddau cyntaf gael eu cwblhau ar y safle yn 2022/23.

**Fairfield Mabey, Cas-gwent (SAH3):**
Cyflwynodd y perchennog tir gais amlinellol (DC/2014/01290) ym mis Hydref 2014 ar gyfer hyd at 600 o unedau preswyl (350 i'w cyflenwi o fewn cyfnod y Cynllun), gofod masnachol yn cynnwys swyddfeydd a gweithdai (Dosbarth Defnydd B1), gofod llawr graddfa fach ar gyfer manwerthu/bwyd a diod (Dosbarthiadau Defnydd A1 ac A3) a gofod agored gwyrdd a glas aml-swyddogaeth. Bu'r cynnydd gyda'r cais yn arafach na'r disgwyl am wahanol resymau, yn cynnwys problemau priffyrdd (bu gan Adran Priffyrdd Llywodraeth Cymru wrthwynebiad dal ar y cais am 18 mis). Fodd bynnag, cafodd y problemau oedd ar ôl eu datrys erbyn hyn a chafodd y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 450 uned (432 marchnad a thua 18 o unedau fforddiadwy ar 1.5 erw o'r safle) ym mis Tachwedd 2017. Gostyngodd y cais amlinellol yn safle Fairfield Mabey y ddarpariaeth cyflogaeth o 2.8ha i 0.65ha o dir B1. Cymeradwywyd Cais Materion a Gadwyd (DM/2019/00001) yn ystod y cyfnod monitro diwethaf am 347 uned. Roedd y cais am elfen tai marchnad y safle ac nid oedd yn cynnwys y tir a ddynodwyd ar gyfer tai fforddiadwy neu dir cyflogaeth; roedd elfen tai fforddiadwy y safle (26 uned) yn destun cais ar wahân y caniatawyd Materion a Gadwyd ar ei gyfer yn ystod y cyfnod monitro cyfredol (DM/2019/01960(RM)). Dechreuodd gwaith ar y safle gyda 18 annedd wedi eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro presennol.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi 77 annedd o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir y caiff gweddill yr anheddau eu cwblhau erbyn 2025/26.

**Heol Wonastow, Trefynwy (SAH4):**
Rhoddwyd cais amlinellol ar gyfer hyd at 370 annedd a 6.5ha o dir cyflogaeth ym mis Rhagfyr 2014. Cyflwynodd datblygwyr y safle (Barratt/David Wilson a Taylor Wimpey) gais Materion a Gadwyd (DC/2015/00392) ar gyfer 340 uned (238 uned marchnad a 102 uned fforddiadwy) a gafodd ganiatâd ym mis Tachwedd 2015. Cafodd y safle ei gwblhau yn ystod y cyfnod monitro presennol.

Mae cyfanswm dyraniad safle y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer cyfanswm o 450 uned. Mae'r unedau ychwanegol yn gysylltiedig â'r cais hwn i gael eu cyflenwi fel estyniad i'r safle yn Fferm Drewen. Ni chyflwynwyd cais am yr elfen hon o'r safle hyd yma.

**Rockfield Farm, Gwndy (SAH5):**
Dyrannwyd y safle ar gyfer 270 uned breswyl a 2ha o dir â gwasanaeth ar gyfer defnydd busnes a diwydiannol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd. Cyflwynwyd cais

cynllunio amlinellol ym mis Gorffennaf 2016 (DC/2016/00883) ar gyfer 266 uned a 5,575 m sg o dir cyflogaeth (defnydd B1). Ar gyfer dibenion yr Adroddiad Monitro Blynyddol, cofnodwyd 265 uned (198 uned marchnad a 67 uned fforddiadwy) fel budd net, mae gan y ffermdy presennol ddefnydd preswyl a chaiff ei ddymchwel felly cafodd ei dynnu o'r ffigur cyfanswm. Bu cynnydd gyda'r safle yn arafach na'r disgwyl oherwydd gwahanol faterion, yn cynnwys archaeoleg. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu datrys a chymeradwywyd y cais amlinellol ym mis Mawrth 2018. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gais Materion a Gadwyd (DIM/2018/01606) ar gyfer cam 1 y safle ym mis Chwefror 2019 ar gyfer 144 uned breswyl. Mae'r safle yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd gyda 57 annedd yn barod hyd yma.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi 90 annedd o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir i weddill yr anheddau ar gyfer cam 1 y safle gael eu cwblhau erbyn 2022/23. Disgwylir y caiff Cam 2 ei gwblhau erbyn 2025/26.

**Tir yn Vinegar Hill, Gwndy (SAH6):**
Mae'r safle hwn ar gyfer 225 uned preswyl yn gysylltiedig â safle cyfagos Fferm Rockfield a disgwylid iddo symud ymlaen ar yr un pryd. Er y bu cynnydd dechreuol ar y safle yn araf, cyflwynwyd cais hybrid ar gyfer y safle hwn (DM/2019/01937 – Tachwedd 2019) am ddau barsel o dir ar gyfer hyd at 155 annedd gyda gofod agored a seilwaith cysylltiedig. Ceisir caniatâd cynllunio llawn ar gyfer 72 annedd ar barsel A gyda chaniatâd cynllunio amlinellol yn cael ei geisio ar gyfer parsel B gyda phob mater wedi eu cadw heblaw am fynediad. Er y dyrannwyd ar gyfer 225 annedd yn y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd, dim ond ar gyfer hyd at 155 annedd y bwriedir eu cyflwyno gan nad yw perchennog y tir yn dymuno i barsel o dir gael ei ddefnyddio. Disgwylir y caiff y cais a gyflwynir ei benderfynu yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Nid yw'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi unrhyw anheddau o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir y caiff yr anheddau cyntaf ar y safle eu cwblhau yn 2022/23.

**Hen Felin Bapur, Sudbrook (SAH7):**
Cyflwynodd Harrow Estates gais cynllunio llawn (DC/2015/01184) ym mis Hydref (cadarnhawyd mai Redrow fyddai'r datblygwyr) ar gyfer 212 uned breswyl (192 uned marchnad a 20 uned fforddiadwy). Bu nifer o broblemau gyda hyfywedd y safle yn gysylltiedig â'r cais hwn gan olygu fod cynnydd gyda'r cais yn arafach na'r disgwyl. Fodd bynnag, cafodd y problemau hyn eu datrys yn ddilynol a chymeradwywyd y cais yng nghyfnod monitro 2016 – 2017 (Tachwedd 2016). Yn dilyn ailgynllunio rhan o'r safle, mae nifer yr unedau preswyl wedi gostwng i 210. Mae gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar y safle ar hyn o bryd, gyda 124 annedd wedi'u cwblhau hyd yma.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi 154 annedd o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir y caiff gweddill yr anheddau eu cwblhau erbyn 2022/23.

Cydnabyddir, gydag eithriad Heol Wonastow, nad yw safleoedd strategol a ddyrannwyd wedi datblygu yn unol â’r targed a ddynodwyd o gael caniatâd cynllunio erbyn diwedd 2014. Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau sy’n gysylltiedig gyda rhai o’r safleoedd, yn cynnwys Fferm Deri a Fairfield Mabey, nid oedd y dyddiad sbardun o gael caniatâd ar gyfer pob safle erbyn diwedd 2014 yn realistig. Cafodd y dyraniad strategol ym Melin Bapur Sudbrook ganiatâd yng nghyfnod monitro 2016-2017. Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn i safle Fferm Deri ynghyd â chaniatâd amlinellol ar gyfer Pont Mabey, Cas-gwent a fferm Rockfield, Gwndy yng nghyfnod monitro 2017-2018, gyda Heol Crug, Porthysgewin yn cael caniatâd amlinellol yn ystod cyfnod monitro 2018-2019. Disgwylir y bydd y safle strategol olaf, Vinegar Hill, Gwndy yn cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Mae’r ffigurau trywydd tai a gytunwyd yn dangos diffyg yng nghyfnod y Cynllun (h.y. hyd at ddiwedd 2021) o 1,183 annedd o safleoedd strategol. Er fod cynnydd yn parhau gyda safleoedd strategol, mae diffyg sylweddol yn dal i fod ar gyflenwi anheddau ar safleoedd strategol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad oedd mynd i’r afael â chyfyngiadau yn gysylltiedig gyda chyflwyno rhai o’r safleoedd strategol a phroses y cynllun datblygu ar y pryd yn golygu fod angen rhoi’r sylw blaenaf i hyfywedd ac ymarferoldeb safleoedd yng nghyswllt dyraniadau safle yn y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Cafodd y sbardun ei gyrraedd am y chweched blwyddyn yn olynol. Fel y nodir uchod, mae’n debygol y caiff y safle strategol sydd ar ôl yn Vinegar Hill, Gwndy ei ddatblygu yn ystod y cyfnod monitro nesaf a rhoddir adroddiad arno yn unol â hynny ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu nad yw’r safle yn ymarferol neu fod angen adolygu’r anghenion dyrannu. Fodd bynnag gall oedi mewn safleoedd yn dod rhagddynt fod â goblygiadau ar gyfer targedau a sbardunau monitro eraill a chaiff yr angen am unrhyw weithredu pellach ei ystyried mewn cysylltiad gyda’r dangosyddion neilltuol hynny. Yn neilltuol, mae gan gyflenwi safleoedd strategol oblygiadau amlwg ar gyfer y strategaeth ofodol a chyflenwi tai (marchnad gyffredinol a fforddiadwy). I gael mwy o wybodaeth am hyn gweler y dadansoddiad polisi ar gyfer Polisi S1, S2 a S4.

Oherwydd pwysigrwydd cyflawni’r safleoedd strategol, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar eu cynnydd.

**2. Anheddau a Gwblhawyd**

Cafodd anheddau a gwblhawyd eu cofnodi ar y safleoedd strategol a ddyrannwyd dilynol yn ystod y cyfnod monitro: Heol Wonastow, Trefynwy (cwblhau 13), Melin Bapur Sudbrook (cwblhau 28), Fferm Deri, y Fenni (cwblhau 83), Fairfield Mabey, Cas-gwent (cwblhau 18) a Fferm Rockfield, Gwndy (cwblhau 41). Mae hyn i’w ddisgwyl oherwydd i’r holl safleoedd hyn gael caniatâd cynllunio cyn y cyfnod monitro hwn. Ac eithrio hen Felin Bapur Sudbrook, roedd yr holl anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd yn debyg i neu’n uwch na thrywydd JHLAS 2019-20. Yng nghyswllt Melin Bapur Sudbrook roedd diffyg o anheddau a gwblhawyd; roedd trywydd 2019-20 wedi rhagweld cwblhau 40 annedd ar y safle yn 202-21, 28 a gafodd eu cwblhau mewn gwirionedd. Fodd bynnag, gan y cafodd y gwaith adeiladu ei atal am ran o’r cyfnod monitro oherwydd cyfyngiadau Covid 19, ni ystyrir bod y diffyg yn achos pryder a disgwylir y bydd cyflenwi yn ôl ar y trywydd yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Fel y dangosir uchod, gan y gwnaed cynnydd sylweddol ar y safle strategol sydd ar ôl, rhagwelir y bydd nifer yr anheddau a gwblheir yn gydnaws gyda'r targedau trywydd a gytunwyd a ddynodwyd gan y Grŵp Rhanddeiliaid Tai wrth i'r safleoedd ddatblygu yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN 1): Cyd-Astudiaethau Argaeledd Tir Tai (Ionawr 2015) yn ei gyfanrwydd, fel canlyniad i newid i Bolisi Cynllunio Cymru. Yng ngoleuni arweiniad newydd a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3), mae Cyngor Sir Fynwy, mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, wedi llunio trywydd tai. Caiff dadansoddiad pellach o'r trywydd tai ei gynnwys yn yr adran ar Polisi S2 Darpariaeth Tai. Er nad yw'r gofyniad i ddangos cyflenwad tai 5 mlynedd yn weithredol mwyach, mae'n ddefnyddiol ystyried yr unedau hynny y rhagwelir fydd yn cael eu cwblhau tu allan i'r 5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn dangos, er na chafodd nifer disgwyliedig yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol ei gyrraedd eto, mae'r safleoedd yn mynd rhagddynt gyda chyfanswm nifer yr unedau tu allan i'r cyfnod 5-mlynedd hwn (h.y. 2021-2026) wedi gostwng.

**Trywydd Grŵp Rhanddeiliaid Tai**

| | 2018 – 19 | | 2019 – 20 | | 2020-21 | | Newid yn Nifer yr Unedau tu allan i'r 5 mlynedd nesaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Tu allan i'r 5 mlynedd nesaf | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Tu allan i'r 5 mlynedd nesaf | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Tu allan i'r 5 mlynedd nesaf | |
| **Fferm Deri** | 218 | 0 | 150 | 0 | 67 | 0 | = |
| **Fairfield Mabey** | 325 | 125 | 305 | 68 | 355 | 0 | -68 |
| **Fferm Rockfield** | 266 | 0 | 250 | 0 | 209 | 0 | = |
| **Vinegar Hill** | 175 | 50 | 130 | 95 | 135 | 90 | -5 |
| **Heol Wonastow (Taylor Wimpey) *** | 34 | 0 | 4 | 0 | - | - | - |
| **Heol Wonastow (Barratt) *** | 52 | 0 | 9 | 0 | - | - | - |
| **Heol Wonastow (Fferm Drewen)** | 110 | 0 | 110 | 0 | 70 | 40 | +40 |
| **Heol Crug** | 203 | 88 | 169 | 100 | 200 | 69 | -31 |
| **Melin Bapur Sudbrook** | 175 | 0 | 114 | 0 | 86 | 0 | = |

*Safleoedd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro

Gwelodd un safle strategol gynnydd yn nifer yr unedau tu allan i'r cyfnod 5-mlynedd nesaf, Heol Wonastow (Fferm Drewen), Trefynwy. Fodd bynnag, daeth anheddau a gwblhawyd ar Fairfield Mabey, Vinegar Hill, Gwndy a Heol Crug, Porthysgewin ymlaen yn y trywydd. Felly, mae 199 uned sydd tu allan i'r 5 mlynedd nesaf (h.y. 2021-2026) yn nhrywydd tai 2021, o gymharu gyda 263 yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol.

Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn i benderfynu os yw dyraniadau preswyl strategol y Cynllun yn cael eu cyflawni yn unol gyda'r targedau trywydd tai.

| |
|---|
| |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Caniatawyd y safle cyn cyfnod monitro yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn.
**Trywydd 2019-20 gan fod y nifer anheddau a gwblhawyd a ragwelwyd ar gyfer cyfnod 2020-21 h.y. cyfnod monitro presennol

## Tai Fforddiadwy

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Darparu 960 o unedau annedd fforddiadwy dros gyfnod y cynllun. |
| **Polisi Strategol:** | S4 Tai Fforddiadwy |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y Cyfnod Datblygu Lleol a gefnogir:** | H7, SAH1-SAH11 |

**Newidiadau Cyd-destun**

**Prisiau Tai**

Cafodd yr amrywiadau a gofnodwyd ym mhrisiau tai cyfartalog y Sir ers 2012 eu nodi yn Adran 3 – Gwybodaeth Cyd-destun. Caiff y goblygiadau posibl ar dueddiadau prisiau tai cyfartalog a gofnodwyd dros y cyfnod monitro eu hasesu yng nghyswllt dangosydd 5 islaw.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020–31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol a **adeiladwyd** dros gyfnod y cynllun*[1] | Cyflenwi 96 o anheddau fforddiadwy y flwyddyn 2011-2021 (cyfanswm o 960 dros gyfnod y cynllun)<br>*(2014-15: 17)*<br>*(2015-16: 63)*<br>*(2016-17: 47)*<br>*(2017-18: 84)*<br>*(2018-19:131)*<br>*(2019-20: 82)* | 10% yn llai neu'n fwy na chyfradd adeiladu strategol y Cynllun Datblygu Lleol am 2 flynedd yn olynol | **71** |
| 2. Nifer anheddau fforddiadwy a **sicrhawyd** ar safleoedd tai newydd | a) 35% cyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 neu fwy annedd yn y Prif Drefi a'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd a ddynodwyd ym Mholisi S1<br>*(2014-15: 35%)*<br>*(2015-16: 34%)*<br>*(2016-17: 43%)*<br>*(2017-18: 16.5%)* | Cyfran tai fforddiadwy a gyflawnwyd ar safleoedd datblygu ym mhob ardal yn is na'r gofyniad a nodir ym Mholisi S4 | **23.35%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2018-19: 32%)*<br>*(2019-20: 100%)* | | |
| | b) 25% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 annedd neu fwy yn Aneddiadau Glannau Hafren a ddynodir ym Mholisi S1<br>*(2014-15: 100%)*<br>*(2015-16: D/G)*<br>*(2016-17: 9.7%)*<br>*(2017-18:31.7%)*<br>*(2018-19: 26%)*<br>*(2019-20: 32%)* | | **D/G (Dim ceisiadau cymwys)** |
| | c) 60% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 3 neu fwy annedd yn y Prif Bentrefi a ddynodwyd ym Mholisi S1<br>*(2014-15: 0%)*<br>*(2015-16: 60%)*<br>*(2016-17: 60%/20%)*<br>*(2017-18: 62.5%)*<br>*(2018-19: 60.0%)*<br>*(2019-20: 67.5%)* | | **60%/16%**** |
| | d) Mân bentrefi: safleoedd gyda chapasiti ar gyfer 4 annedd yn gwneud darpariaeth i 3 fod yn fforddiadwy, a safleoedd gyda chapasiti ar gyfer 3 annedd yn gwneud darpariaeth i 2 fod yn fforddiadwy<br>*(2014-15: D/G)*<br>*(2015-16: D/G)*<br>*(2016-17: D/G)*<br>*(2017-18: D/G)*<br>*(2018-19: D/G)*<br>*(2019-20: D/G)* | | **D/G (Dim ceisiadau cymwys)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 3. Nifer anheddau fforddiadwy a ganiatawyd/ adeiladwyd ar Safleoedd Prif Bentrefi a ddynodir ym Mholisi SAH11 | Prif Bentrefi rhyngddynt i gyflenwi 20 annedd fforddiadwy y flwyddyn 2014-2021 *(2014-15: 0)* *(2015-16: 9 caniatawyd)* *(2016-17: 9 caniatawyd/9 wedi eu hadeiladu)* *(2017-18: 5 caniatawyd/0 wedi eu hadeiladu)* *(2018-19: 12 caniatawyd/3 wedi eu hadeiladu)* *(2019-20: 9 caniatawyd/0 wedi eu hadeiladu)* | 10% yn llai na'n fwy na'r gyfradd adeiladu targed am 2 flynedd yn olynol | **3 caniatawyd/ 9 wedi eu hadeiladu** |
| 4. Nifer tai fforddiadwy a **adeiladwyd** drwy gynlluniau eithriad gwledig | Dim targed *(2014-15: 0)* *(2015-16: 0)* *(2016-17: 0)* *(2017-18: 0 wedi eu hadeiladu/3 caniatawyd)* *2018-19: 4 (1 caniatawyd)* *2019-20: 4 (0 caniatawyd)* | Dim | **0 wedi eu hadeiladu/ 0 caniatawyd** |
| 5. Canran targed tai fforddiadwy ym Mholisi S4 | Targed i adlewyrchu amgylchiadau economaidd | Prisiau tai cyfartalog wedi cynyddu gan 5% uwch na phris sylfaen lefelau 2012 wedi'i gynnal dros 2 chwarter | **Gweler y dadansoddiad islaw (5)** |

**Dadansoddiad**

1. Cafodd cyfanswm o 71 annedd fforddiadwy eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro, gan gyfrif am 17% o'r holl anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd. Roedd safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn 79% ohonynt, gyda'r 21% arall ar safleoedd ar hap. Roedd y safle a ddyrannwyd yn Fferm Rockfield, Gwndy (SAH5) yn cyfrif am 17 o'r 71 o dai fforddiadwy a gwblhawyd a gofnodwyd, gan gynrychioli 24%. Cyfrannodd pump dyraniad pellach at y cyflenwad o dai fforddiadwy:

- Fferm Deri, y Fenni (SAH1) – 11 annedd fforddiadwy wedi eu cwblhau yn ystod 2020/21 annedd fforddiadwy wedi eu cwblhau yn ystod 2020/21
- Coed Glas, y Fenni (SAH9) – 12 cartref fforddiadwy wedi eu cwblhau yn ystod 2020/21
- Heol Wonastow, Trefynwy (SAH4) – 3 annedd fforddiadwy wedi eu cwblhau yn ystod 2020/21

- Melin Bapur Sudbrook (SAH7) – 4 annedd fforddiadwy wedi eu cwblhau yn ystod 2020/21
- Tir i'r de ddwyrain o Llanddingad (SAH11(iii)) – 9 annedd fforddiadwy wedi eu cwblhau yn ystod 2020/21

Yn ogystal ag anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd, cyfrannodd dau safle ar hap 15 annedd fforddiadwy gan gyfrif am 21% o'r cyfanswm.

- 17-25 Heol Aberhonddu, y Fenni – 12 annedd fforddiadwy a gwblhawyd yn ystod 2020/21
- Tir ger Walnut Tree Cottage, Llangybi – 3 annedd fforddiadwy a gwblhawyd yn ystod 2020/21.

Mae'r cyfanswm o 71 uned ychydig yn is na'r 82 o anheddau fforddiadwy a gwblhawyd a gofnodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd. Mae'r gyfradd cyflenwi wedi amrywio dros y cyfnodau monitro blaenorol gan amrywio o 17 yn 2014/15, 63 yn 2015/16, 47 yn 2016/17, 84 yn 2017/18, 131 yn 2018/19 a 82 yn 2019/20. Fodd bynnag, mae wedi cadw cyfradd cyson uwch mewn blynyddoedd diweddar gan adlewyrchu cyflenwad cyson uwch mewn blynyddoedd diweddar gan adlewyrchu darpariaeth y Cynllun Datblygu Lleol, a ategwyd gan nifer o safleoedd 100% tai fforddiadwy (nad oedd dim ohonynt yn ystod y cyfnod monitro hwn).

Gan fod nifer yr anheddau fforddiadwy a gafodd eu cwblhau yn is na'r targed a ddynodwyd (96 y flwyddyn) yn y cyfnod monitro diweddaraf, a hefyd yn is na'r targed a ddynodwyd yng nghyfnod monitro 2019/20, mae wedi sbarduno'r angen am ymchwiliad pellach.

Mae cyfanswm nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd a gofnodwyd dros chwe mlynedd mabwysiadu'r Cynllun (495) yn parhau'n is na'r cyflenwad gofynnol. Yn seiliedig ar darged y Cynllun Datblygu Lleol, dylai cyfanswm ó 672 o anheddau fforddiadwy fod wedi eu cwblhau sydd, yng ngoleuni'r nifer a gwblhawyd, yn rhoi diffyg o 177 uned rhwng 2014-2021. Mae'r 71 a gwblhawyd dros gyfnod monitro 2020/21 ynghyd â chyfradd y llynedd o 82 (2019/20) wedi cynyddu'r diffyg ymhellach.

Arweiniodd cynnydd araf ar weithredu'r nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, fel y'u hystyriwyd yn yr adrannau yn cyfeirio at Bolisïau S2 ac S3, at gyflenwad cyfyngedig o dai marchnad a hefyd dai fforddiadwy ar ddechrau cyfnod y Cynllun. Wrth i safleoedd a ddyrannwyd, yn cynnwys safleoedd mewn prif bentrefi, gael caniatâd, mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi cynyddu yn unol â'r targed. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol hyd yma nad yw Polisi S4 ei hun yn gweithredu'n effeithlon, er y bu oedi wrth benderfynu ar rai ceisiadau cynllunio safleoedd strategol, yn arbennig Fferm Deri (sydd bellach wedi'i ddatrys a datblygu wedi dechrau ar y safle), oherwydd trafodaethau am faterion hyfywedd yn deillio o ofynion Polisi S4. Mae'r materion hyfywedd hyn eu hunain yn effeithio'n uniongyrchol ar lefelau'r tai fforddiadwy a sicrhawyd, serch hynny cynhelir asesiadau trylwyr i sicrhau y cyflawnir y cyfraniad mwyaf posibl.

Roedd cyflwyno'r cyfnod clo Covid-19 cyntaf yn y Deyrnas Unedig yn cyd-daro gyda dechrau'r cyfnod monitro hwn. Mae'n ddi-os y bydd cau llawer o safleoedd adeiladu am gyfnod sylweddol wedi cael effaith ar y nifer o anheddau a gwblhawyd ac ar ddatblygu

| |
|---|
| safleoedd newydd. Mae hefyd ffactorau economaidd ehangach niferus sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth tai uwchben a thu hwnt i'r system cynllunio. Er nad yw effaith lawn Covid-19 yn hysbys eto, mae nifer y caniatad a roddwyd yng nghyfnod 2020/21 wedi gostwng yn sylweddol (fel y dangosir yn y dadansoddiad o'r Strategaeth Ofodol). Mae hyn hefyd yn debygol o fod oherwydd nifer cyfyngedig y safleoedd tai a gyflwynir drwy'r system cynllunio oherwydd lefelau ffosffadau mewn afonydd.<br><br>Gan y cafodd y sbardun ei gyrraedd, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar gyfraddau cwblhau mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol er mwyn penderfynu ei effeithlonrwydd wrth ddarparu anheddau fforddiadwy. |
| **2. Prif Drefi ac Aneddiadau Gwledig Eilaidd**<br>Roedd y gyfran o anheddau fforddiadwy a ganiatawyd ar safleoedd o 5 neu fwy o gartrefi ym mhrif drefi ac aneddiadau gwledig eilaidd yn ystod y cyfnod monitro yn gyfartal â 23.35%, sy'n is na tharged y Cynllun Datblygu Lleol o 35%.<br><br>Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar gyfanswm o 2 gais (gweler dadansoddiad Polisi ar gyfer polisïau S2 a S2). Mae'r cyntaf yn cyfeirio at y safle strategol yn Fairfield Mabey (SAH3) a nodwyd yn flaenorol yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2017/18 am 18 uned. Fodd bynnag cafodd cais ei gymeradwyo ers hynny (DM/2019/01960) am 26 annedd fforddiadwy, cafodd 8 annedd ychwanegol felly eu hychwanegu at Adroddiad Monitro Blynyddol 2020/21 gan na chawsant eu cofnodi'n flaenorol. Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ar y safle hwn yn ddilynol wedi codi o 8% i 11.7%.<br><br>Mae'r ail gais yn cyfeirio at y safle tai Gwledig Eilaidd a ddyrannwyd yng Nghwrt Burrium, Brynbuga (SAH10 (i)). Cafodd y safle hwn ei ddyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ar gyfer tua 20 annedd, fodd bynnag, cafodd ei ostwng ers hynny i gyfanswm o 7 annedd oherwydd problemau posibl gyda risg llifogydd ar ran isaf y safle. Caniatawyd dwy uned fforddiadwy ar y safle hwn, er bod hyn yn awgrymu 28.5% o ddarpariaeth tai fforddiadwy ar y safle, mae Polisi Strategol S4 yn nodi talgrynnu ar .5 pwynt degol. Mae saith uned yn arwain at ofyniad o 2.45% tai fforddiadwy, cafodd y gofyniad felly ei ostwng i 2 uned fforddiadwy ac mae'r safle felly yn cydymffurfio â'r polisi.<br><br>Er na chyrhaeddwyd y targed polisi o 35%, cydnabyddir fod hyn yn seiliedig ar ddim ond dau gais. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4 yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.<br><br>**Aneddiadau Glannau Hafren**<br>Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd yng Nglannau Hafren (gweler dadansoddiad polisi Polisïau S1 ac S2). Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro Aneddiadau Glannau Hafren er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4.<br><br>**Prif Bentrefi**<br>Caniatawyd un cais yn ystod y cyfnod monitro o fewn Prif Bentrefi ar gyfer safleoedd o 3 neu fwy o anheddau. Roedd hyn yn cyfeirio at ddyraniad SAH11(xiv)(a) – tir i'r dwyrain o Drenewydd Gellifarch (i'r de o is-ffordd) yn y Cynllun Datblygu Lleol. Rhoddwyd caniatâd |

| |
|---|
| cynllunio amlinellol (DM/2018/02066) ar gyfer 11 uned i gyd rhwng y dyraniad yn y Cynllun Datblygu Lleol o 5 annedd a safle o fewn y ffin datblygu a fanteisiodd o ganiatâd presennol am 7 annedd (6 marchnad ac 1 fforddiadwy). Cafodd y safle ganiatâd yn ddilynol am 4 annedd fforddiadwy a 7 annedd marchnad agored. Bernir fod y rhan o'r safle o fewn dyraniad y Cynllun Datblygu Lleol yn cydymffurfio â pholisi ar 60% gan ei fod yn cyfeirio at 3 annedd fforddiadwy a 2 annedd marchnad agored. Mae'r un uned ychwanegol ar weddill y safle yn cyfeirio at ddarpariaeth 16%, fodd bynnag, fel y nodwyd ystyriwyd bod hyn yn safle syrthio-yn-ôl oherwydd caniatâd cynllunio byw. Drwyddi draw, ystyrir fod y safle wedi ateb gofynion y polisi tai fforddiadwy.<br><br>Felly sicrhawyd cyfradd canran cyffredinol o 60% ar safleoedd a ddyrannwyd SAH11. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd Prif Bentrefi er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4.<br><br>**Mân Bentrefi**<br>Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd bach mewn Mân Bentrefi. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd Mân Bentrefi er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4. |
| 3. Caniatawyd un cais dros y cyfnod monitro ar y safleoedd a ddyrannwyd a ddynodwyd ym Mholisi SAH11, fel y cyfeirir ato uchod, mae hyn yn cyfeirio at dir i'r de o'r ffordd yn Nrenewydd Gellifarch (SAH11(xiv)(a)). Rhoddir sylwebaeth lawn ar y cais yn adran 2 uchod. Fel y nodir, caniatawyd cyfanswm o 3 cartref fforddiadwy ar y safle a ddyrannwyd a gyrhaeddodd y targed o 60% uned fforddiadwy.<br><br>Cafodd y caniatâd cynllunio ar dir i'r de ddwyrain o Llanddingad (SAH11(iii)) y cyfeiriwyd ato mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ei gwblhau yn ystod y cyfnod monitro gan gyfrif am gyfanswm o 9 annedd a gwblhawyd.<br><br>Er y bu peth cynnydd gydag un dyraniad Prif Bentref yn sicrhau caniatâd cynllunio dros y cyfnod monitro, ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer y safleoedd hyn rhyngddynt i gyflawni 20 annedd fforddiadwy bob blwyddyn. Mae'r safleoedd hyn wedi cyflenwi 21 cartref fforddiadwy ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n sylweddol is na tharged y Cynllun o 20 uned fforddiadwy y flwyddyn. Rhoddir ystyriaeth bellach i gyflenwi'r safleoedd hyn fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Caiff y rhesymau am y diffyg cynnydd ar safleoedd Prif Bentrefi ei ymchwilio ymhellach fel rhan o'r broses hon, yn cynnwys er enghraifft ddisgwyliadau afrealistig gan berchnogion tir yng nghyswllt gwerthoedd tir. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ddad-ddyrannu y safleoedd hynny nad ydynt yn symud ymlaen fel y bwriadwyd. Anfonwyd llythyrau at berchnogion tir/asiantau'r holl Safleoedd Prif Bentrefi nas cyflawnwyd gan ofyn am dystiolaeth i ddangos y gellir cyflawni'r safleoedd a'u bod yn hyfyw ac os y bwriadant symud ymlaen â nhw erbyn diwedd 2021, gan nodi na chânt eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd heb y dystiolaeth hon. |
| 4. **Anheddau a Gwblhawyd mewn Safleoedd Eithriadau Gwledig.**<br>Ni chafodd unrhyw gynlluniau eithriad gwledig eu caniatáu na'u cwblhau dros y cyfnod monitro hwn. Er nad oes targed yng nghyswllt nifer yr anheddau a gwblhawyd ar gyfer cynlluniau eithriad gwledig, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn yn |

| |
|---|
| Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â chynlluniau eithriad gwledig. |
| 5. Mae'r sbardun ar gyfer cynnal profion ychwanegol ar hyfywedd yng nghyswllt targedau tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi S4 yn gynnydd o 5% neu fwy mewn prisiau tai cyfartalog yn uwch na phris sylfaen 2012 wedi'i gynnal dros 2 chwarter.<br><br>Fel a nodir yn Adran 3, mae data'r Gofrestrfa Tir yn dangos i brisiau tai cyfartalog yn Sir Fynwy gynyddu dros y cyfnod monitro presennol gyda phrisiau cyfartalog yn chwarter 1 2021 (Ionawr i Fawrth) yn £298,932, yn sylweddol uwch na phris llinell sylfaen chwarter 4 2012 (£188,720). Er hyn, ni chafodd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ei gyrraedd. Byddai cynnydd o 5% yn ffigur pris llinell sylfaen chwarter 4 2012 yn gyfystyr â chynnydd o £9,436 ac er bod prisiau tai cyfartalog wedi cynyddu dros y cyfnod monitro 2020-21, nid yw prisiau wedi cynyddu gan y swm hwn yn barhaus dros 2 chwarter. Bu gostyngiad amlwg mewn prisiau tai yn ail chwarter 2020 (£6,435) yn dilyn cyflwyno mesurau cyfnod clo oherwydd pandemig Covid-19 yn dilyn chwarter cyntaf y flwyddyn. Ers hynny, fodd bynnag, mae prisiau tai yn y Sir wedi parhau i gynyddu. Y cynnydd mwyaf a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro oedd £11,443 rhwng ail chwarter 2020 a thrydydd chwarter 2020. Felly, yn yr un modd ag mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, nid yw'r newid mewn prisiau cyfartalog tai yn golygu fod angen ailasesu'r dystiolaeth hyfywedd yng nghyswllt Polisi S4 a'i ddangosydd monitro, er bod fforddiadwyedd tai yn y Sir yn un o'r materion allweddol a ddynodwyd i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei drin. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro tueddiadau cyfartalog prisiau tai yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol er mwyn penderfynu ar unrhyw oblygiadau posibl ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn llwyddiannus.<br><br>Fodd bynnag, dylid hefyd gydnabod mai dim ond un ffactor a fedrai effeithio ar hyfywedd datblygiad yw prisiau tai. Er enghraifft, dangoswyd fod costau adeiladu wedi codi yn ystod y cyfnod monitro. Er na chaiff costau adeiladu eu nodi fel dangosydd monitro yn y Cynllun Datblygu Lleol, caiff materion hyfywedd cyffredinol eu hadolygu wrth i wybodaeth ddod ymlaen ar sail achos unigol ac mewn cysylltiad gydag unrhyw waith hyfywedd strategol yng nghyswllt proses y Cynllun Datblygu Rhanbarthol Newydd. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried unrhyw oblygiadau posibl pellach ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn effeithlon. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Ystyried cynnydd safleoedd Prif Bentrefi fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosyddion Craidd

[1] Dangosydd a Tharged yn seiliedig ar ardal cynllunio Sir Fynwy a Chynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn unig.

**60% wedi ei gyflawni ar safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r 16.6% yn cyfeirio at ran o'r safle ehangach oedd â chaniatâd yn bodoli cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

## Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cadw cyfleusterau cymunedol a hamdden presennol a cheisio datblygu cyfleusterau ychwanegol. |
| **Polisi Strategol:** | S5 Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1 & 5 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | CRF1, CRF3 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newid sylweddol mewn cyd-destun yng nghyswllt y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio | Dim targed*<br><br>*(2014-15: 9)*<br>*(2015-16: 5)*<br>*(2016-17: 4)*<br>*(2017-18: 10)*<br>*(2018-19: 8)*<br>*(2019-20:12)* | Dim* | **3** |
| 2. Nifer cyfleusterau cymunedol/ hamdden a gollwyd | Lleihau colled cyfleusterau cymunedol a hamdden<br><br>*(2014-15: 3)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 6)*<br>*(2017-18: 2)*<br>*(2018-19:2)*<br>*(2019-20:4)* | Colli unrhyw 1 gyfleuster cymunedol/ hamdden mewn unrhyw 1 flwyddyn | **1** |
| **Dadansoddiad** | | | |

| |
|---|
| 1. Cafodd tri chais cynllunio eu cymeradwyo ar gyfer defnyddiau'r gymuned a hamdden yn ystod y cyfnod monitro presennol. Roedd dau o'r tri chais yn ymwneud â defnyddiau hamdden ac un â defnyddiau cymunedol.<br><br>Roedd y ddau ddefnydd hamdden yn ymwneud â pharc cymunedol ac ardal chwarae ar dir yn Eglwys San Mihangel a'r Holl Angylion, Llanfihangel Troddi a newid defnydd yr hen lein reilffordd yn Llanbadog, Brynbuga i lwybr seiclo/llwybr troed defnydd cymysg. Yng nghyswllt y budd cyfleuster cymunedol, cymeradwywyd cais am siop gymunedol, caffe a chegin addysgu yn y Pafiliwn, Westway Rogiet.<br><br>Er nad yn fudd, nodir y cymeradwywyd cais am adnewyddu cyrtiau tennis presennol a system llifoleuadau newydd yng nghaeau chwaraeon Sycamore, Magwyr.<br><br>Drwyddi draw, roedd nifer y cyfleusterau cymunedol a ganiatawyd yr isaf a gofnodwyd ers mabwysiadu'r cynllun a gallai fod yn adlewyrchu'r pandemig yn ystod y cyfnod monitro. Fodd bynnag, er yn is na blynyddoedd blaenorol, mae'n debyg i'r nifer a ganiatawyd mewn blynyddoedd blaenorol gyda phum cyfleuster wedi eu caniatáu yn 2015-16 a phedwar yn 2016-17. |
| 2. Collwyd un cyfleuster cymunedol yn ystod y cyfnod a gafodd ei fonitro. Mae hyn yn gysylltiedig â cholli The Castle Inn, Cas-gwent, a gafodd newid defnydd i breswyl ac ychwanegu 4 annedd o fewn y safle. Cyfiawnhawyd hyn ar y sail fod cyfleusterau eraill digonol ar gyfer y gymuned leol, gydag o leiaf 24 o dafarndai a bwytai trwyddedig o fewn anheddiad Cas-gwent. Felly ystyriwyd fod yr egwyddor o golli'r dafarn yn dderbyniol gan roi ystyriaeth i Bolisïau S5 a CRF1.<br><br>Er bod y data a gollwyd yn dangos y cafodd nifer o gyfleusterau cymunedol eu colli i ddefnyddiau eraill yn ystod y cyfnod monitro ac felly y cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd ei gyrraedd, caiff eu colled ei gyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Fel canlyniad, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Ni ystyrir ei fod yn dderbyniol cynnwys targed/sbardun ar gyfer y dangosydd hwn oherwydd fod y Cyngor mewn rhai achosion yn edrych ar ostwng nifer y cyfleusterau cymunedol neu ganolbwyntio buddsoddiad ar gyfleusterau presennol.

# Manwerthu

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cyfeirio datblygiadau newydd manwerthu bwyd ac eitemau answmpus i ganol trefi a chanolfannau lleol y Sir a cheisio cynyddu eu bywiogrwydd, apêl a hyfywedd. |
| **Polisi Strategol:** | S6 Manwerthu |
| **Amcanion Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1 & 2 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | RET1-RET4 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu Lleoedd ac adferiad Covid-19 ym mis Gorffennaf 2020. Mae hyn yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i gynorthwyo wrth weithredu yn y cyfnod adfer yn dilyn argyfwng pandemig Covid-19. Mae'r ddogfen yn dynodi materion allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol ynghyd i sicrhau gweithredu effeithlon mewn ymateb i adferiad Covid-19; un o'r rhain yw ailfywiogi canol trefi. Mae'n cydnabod fod Covid-19 wedi effeithio'n niweidiol ar ganol trefi ac er y dylai datblygiadau manwerthu barhau i gael eu canoli yng nghanol trefi, dylid galluogi canolfannau manwerthu a masnachol i weithredu mor hyblyg ag sydd modd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd canolfannau manwerthu a masnachol yn ganolbwynt gweithgaredd cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol ac yn ffocws ystod amrywiol o wasanaethau a gweithgareddau/swyddogaethau diwylliannol sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol.

I gefnogi canol trefi ymhellach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr ar 30 Mawrth 2021 yn nodi fod nifer o hawliau datblygu dros dro a ganiatawyd i ddod i rym. Mae hyn yn ymwneud â defnydd tir dros dro, newid defnydd unedau mewn canol trefi, celfi stryd ac adlenni. Mae hyn yn caniatáu newid defnydd dros dro o A1, A2, A3 i A1, A2, A3 o fewn canol tref am ddim mwy na chwe mis rhwng 30 Ebrill 2021 a 29 Ebrill 2022. Y bwriad yw galluogi'r system cynllunio i fod yn ymatebol, hyblyg a phragmatig i gynorthwyo gyda'r adferiad o Covid-19. Caiff unrhyw effeithiau ar hyn ar ganol trefi y Sir ei gofnodi yn y cyfnod monitro nesaf.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Faint o ddatblygiad newydd manwerthu bwyd a nwyddau answmpus a ganiateir mewn canol trefi/canolfannau lleol | 90% o'r holl arwynebedd llawr newydd manwerthu bwyd a nwyddau answmpus i gael ei | Mwy na 10% o ofod llawr newydd manwerthu bwyd a nwyddau answmpus yn cael ei ddatblygu tu allan i ganol | 0% datblygiadau manwerthu wedi ei ganatau mewn canol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| fel cyfran o'r holl ddatblygiad manwerthu a ganiateir | leoli yng nghanol trefi/canolfannau lleol *(2014-15: 0%)* *(2015-16: 53.2%)* (2016-17: 33%) (2017-18 – 35.7%) (2018-19 – 0%) (2019-20 – 70.5%) | trefi/canolfannau lleol mewn unrhyw 1 flwyddyn | trefi/ canolfannau lleol<br><br>Caniatáu 30 m sg tu allan i ganol trefi/ canolfannau lleol* |
| 2. Canran unedau gwag o fewn ardaloedd siopa canolog pob canol tref a chanolfan leol** | Dim cynnydd yn nifer yr unedau gwag | Cyfradd unedau gwag mewn canol tref/canolfan leol yn cynyddu am 2 flwyddyn yn olynol | |
| | **a) Y Fenni** *(2014: 5.1%)* *(2015: 5.8%)* *(2016: 8.7%)* *(2017: 6.3%)* *(2018: 4.7%)* *(2019: 6.6%)* | | **7.6%** |
| | **b) Cil-y-coed** *(2014: 9.2%)* *(2015: 7.6%)* *(2016: 10.1%)* *(2017: 8.8%)* *(2018: 10.6%)* *(2019: 7.6%)* | | **13.4%** |
| | **c) Cas-gwent** *(2014: 9.0%)* *(2015: 10%)* *(2016: 7.1%)* *(2017: 5.9%)* *(2018: 11.8%)* *(2019: 11.2%)* | | **13.5%** |
| | **d) Trefynwy** *(2014: 8.3%)* *(2015: 7.9%)* *(2016: 4.9%)* *(2017: 10.1%)* *(2018: 10.1%)* *(2019: 14.4%)* | | **15.4%** |
| | **e) Magwyr** *(2014: 9.1%)* *(2015: 0%)* *(2016; 0%)* *(2017: 9.1%)* *(2018: 4.5%)* *(2019: 13.6%)* | | **0%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **f) Rhaglan**<br>*(2014: 0%)*<br>*(2015: 0%)*<br>*(2016: 0%)*<br>*(2017: 0%)*<br>*(2018: 9%)*<br>*(2019: 9%)* | | **9%** |
| | **g) Brynbuga**<br>*(2014: 7.8%)*<br>*(2015: 11.1%)*<br>*(2016: 13.1%)*<br>*(2017: 9.7%)*<br>*(2018: 15.8%)*<br>*(2019:15.3%)* | | **9.8%** |
| 3. Canran defnyddiau A1 ym mhrif ffryntiadau siopa y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy *** | % o ddefnyddiau A1 heb fod yn ddim llai na'r trothwyon a ddynodwyd ar gyfer prif ffryntiadau siopa y trefi fel y'u diffiniwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa ** | Ffigurau % ar gyfer prif ffryntiad siopa yn syrthio dan y trothwy a nodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol | |
| | **a) Y Fenni**<br>• PSF1 Stryd Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore & 1 Stryd Nevill<br>***(Targed 75%)***<br>*(2014: 76%)*<br>*(2015: 77%)*<br>*(2016:76%)*<br>*(2017: 75%)*<br>*(2018: 75%)*<br>*(2019: 74%)* | | • **73%** |
| | • PSF2 Rhodfa Cibi<br>***(Targed 100%)***<br>*(2014: 100%)*<br>*(2015: 100%)*<br>*(2016: 100%)*<br>*(2017: 100%)*<br>*(2018: 94%)*<br>*(2019: 100%)* | | • **100%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • PSF3 Stryd Groes (51-60 a Neuadd y Dref) ***(Targed 55%)*** *(2014: 36%)* *(2015: 36%)* *(2016:36%)* *(2017: 36%)* *(2018: 36%)* *(2019:36%)* | | • **36%** |
| | **b) Cil-y-coed** • PSF4 Heol Casnewydd ***(Targed 65%)*** *(2014: 65%)* *(2015: 65%)* *(2016: 65%)* *(2017: 65%)* *(2018: 63%)* *(2019: 63%)* | | • **63%** |
| | **c) Cas-gwent** • PSF5 Stryd Fawr ***(Targed 75%)*** *(2014: 80%)* *(2015: 80%)* *(2016: 80%)* *(2017: 80%)* *(2018: 76%)* *(2019: 80%)* | | • **80%** |
| | • PSF6 Stryd Santes Fair ***(Targed 65%)*** *(2014: 65%)* *(2015: 65%)* *(2016: 65%)* *(2017: 69%)* *(2018: 69%)* *(2019: 73%)* | | • **73%** |
| | **d) Trefynwy** • PSF7 Stryd Mynwy ***(Targed 75%)*** *(2014: 77%)* *(2015: 76%)* *(2016:72%)* *(2017: 74%)* *(2018:73%)* *(2019: 73%)* | | • **73%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • PSF8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt a Stryd Priordy (1-4 ***(Targed 65%)*** *(2014: 57%)* *(2015: 57%)* *(2016:62%)* *(2017: 65%)* *(2018: 67%)* *(2019:67%)* | | • **69%** |

**Dadansoddiad**

1. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau ar gyfer datblygiadau newydd A1 manwerthu bwyd a nwyddau answmpus yng nghanol trefi/canolfannau lleol y Sir yn ystod y cyfnod monitro. Gan y cafodd un cais (100% o'r ceisiadau ar gyfer defnyddiau manwerthu newydd) ei ganiatáu tu allan i'r canolfannau, cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd. Fodd bynnag, dylid nodi fod y cais yn cyfeirio at gynllun cymunedol bach gyda'r elfen fanwerthu yn cyfrif am 30 msg o gyfanswm o 180 msg. Er y cyrhaeddwyd y sbardun, oherwydd maint a natur y cynllun, rhoddwyd sgôr oren yn hytrach na sgôr coch gan nad oes unrhyw bryderon am weithredu'r polisi perthnasol. Rhoddir manylion llawn islaw.

- DM/2020/01687 – mae hyn yn cyfeirio at siop gymunedol, caffe a chegin addysgu ar dir cymunedol yn Westway Rogiet. Cafodd ei ystyried yn dderbyniol yn nhermau egwyddor newid defnydd oherwydd y budd cymunedol a chymdeithasol, gan ei fod yn cyfeirio at ddarparu siop a gofod cymunedol mewn man canolog o fewn ffin datblygu pentref lle mae cyfleusterau o'r fath yn brin ar hyn o bryd. Er iddo gael ei ddyrannu fel DES2 (gofod agored cymunedol), cafodd y safle ei amgáu'n llawn gan ffens 2m o uchder a chlwydi ar glo. Fel canlyniad, nid oes gan y cyhoedd fynediad i'r gofod ar hyn o bryd. Ystyriwyd y byddai agor y gofod a darparu cyfleuster o'r fath yn annog mwy o bobl i ymweld a defnyddio'r dyraniad ehangach a'r cyfleusterau cyfagos sy'n cynnwys ardal gemau aml-ddefnydd (MUGA) a lleiniau chwarae.

Ystyrir fod y datblygiad yn addas oherwydd amgylchiadau neilltuol y cais. Oherwydd hyn, ni ystyrir fod unrhyw bryderon gyda gweithredu polisïau manwerthu y Cynllun Datblygu Lleol ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd fframwaith polisi manwerthu y Cynllun.

2. Roedd y cyfraddau unedau gwag a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro** yn holl ardaloedd siopa canolog y sir, ac eithrio Trefynwy, yn is neu'n fras debyg i gyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr (13.7% Rhagfyr 2020, Local Data Company). Roedd cyfraddau unedau gwag manwerthu yng nghanol trefi y Sir yn amrywio o 7.6% yn y Fenni i 15.4% yn Nhrefynwy.

Dengys cymhariaeth gyda chyfradd unedau gwag y llynedd y bu gostyngiad mewn cyfraddau unedau gwag dwy ganolfan, Magwyr a Brynbuga. Gwelodd Magwyr ostyngiad o

| |
|---|
| 13.6% yn 2019 i ddim unedau gwag eleni, tra bu gostyngiad o 15.3% i 9.8% ym Mrynbuga. Ar y llaw arall, cofnododd 4 canolfan gynnydd mewn cyfraddau unedau gwag ers y cyfnod monitro blaenorol – y Fenni (6.6% i 7.6%), Cil-y-coed (7.6% i 13.4%), Cas-gwent (11.2% i 13.5%) a Threfynwy (14.4% i 15.4%). Mae dwy o'r canolfannau, y Fenni a Threfynwy, wedi gweld cyfraddau unedau gwag yn cynyddu am ddwy flwyddyn yn olynol ac felly cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. Yn y Fenni, bu cynnydd mewn cyfanswm cyfraddau unedau gwag ar gyfer prif ffryntiadau a hefyd ffryntiadau eilaidd, er y bu'r cynnydd mwyaf sylweddol ar draws y prif ffryntiadau. Mae'r gyfradd gyffredinol unedau gwag (7.6%) yn awr ar ei uchaf ers 2016, er ei fod yn parhau'n is na chyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr. Yn Nhrefynwy, fodd bynnag, er fod cyfraddau unedau gwag hefyd wedi cynyddu ar draws prif ffryntiadau a hefyd ffryntiadau eilaidd, bu'r cynnydd mwyaf mewn cyfraddau unedau gwag mewn ffryntiadau eilaidd o 12.3% yn 2018 i 21.1% yn y cyfnod monitro hwn sydd wedi effeithio ar gyfradd gyffredinol unedau gwag. Yn rhannol, gall hyn adlewyrchu effaith pandemig Covid-19 ar y stryd fawr, yn neilltuol gyda cholli rhai cadwyni cenedlaethol tebyg i Peacocks o Drefynwy. Fodd bynnag, gan fod hyn yn uwch na chyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr a'r uchaf a gofnodwyd dros y 15 mlynedd flaenorol, bydd angen edrych yn ofalus ar hyn yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf. Gallai llacio dros dro mewn hawliau datblygu a ganiateir a nodir yn llythyr Llywodraeth Cymru o 30 Mawrth 2021 ynghyd â chanllawiau adferiad ôl Covid-19 Llywodraeth Cymru i ganiatáu i ganolfannau manwerthu a masnachol i weithredu mor hyblyg ag sydd modd effaith gadarnhaol ar gyfraddau unedau gwag.<br><br>Ac eithrio Trefynwy, mae'r holl ganolfannau yn is neu'n fras debyg i gyfradd unedau gwag Stryd Fawr y Deyrnas Unedig, sy'n dangos fod canol trefi a chanolfannau lleol Sir Fynwy yn gweithredu'n effeithlon, a allai yn ei dro fod yn adlewyrchiad o Covid a'r cynnydd mewn gweithio gartref gyda phreswylwyr yn defnyddio eu canolfannau lleol i gael mynediad i fânwerthu/gwasanaethau a chyfleusterau, yn hytrach na theithio i'r gwaith i drefi/dinasoedd mwy. Felly mae effeithiau Covid-19 ar y Stryd Fawr a phatrymau siopa'r dyfodol yn dal i ddod i'r amlwg a bydd angen ei fonitro yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar dueddiadau. |
| 3. Mae'r canran o ddefnyddiau manwerthu A1 a gofnodwyd ym mhrif ffryntiadau siopa y trefi yn ystod y cyfnod monitro*** yn gyffredinol gydnaws gyda'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Prif Ffryntiadau Siopa.<br><br>Cafodd y trothwyon a ddynodwyd mewn dwy o'r Prif Ffryntiadau Siopa eu gosod ar lefel uwch na'r lefel bresennol o ddefnyddiau manwerthu heblaw A1 gan fod dymuniad ar y pryd i wella eu cynnig manwerthu h.y. PSF3 Stryd Groes (51-60 a Neuadd y Dref), y Fenni a PSF8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt a Stryd Priordy (1-4) Trefynwy. Er na fu unrhyw newid yn y gyfran o ddefnyddiau manwerthu o fewn PSF3 ers y dechreuwyd monitro, bu cynnydd yn y gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn y cyfnod monitro diwethaf, o 57% yn 2015 i 69% yn 2020. Yn ystod y cyfnod monitro presennol, mae'r gyfran o ddefnyddiau A1 ar hyd y ffryntiad wedi cynyddu i 69%, yn fwy na'r trothwy a ddynodwyd o fewn y ffryntiad hwn (65%). Er yn cyflawni'r trothwy a ddynodwyd o fewn PSF8, mae'n dal yn bwysig cadw safiad polisi cryf ar gynigion ar gyfer newid defnydd i ddefnyddiau heblaw manwerthu yn y ddau ffryntiad hwn er mwyn gwella diogelu eu cynnig manwerthu. |

| |
|---|
| Mae cymharu gyda ffigurau llynedd yn dangos fod y gyfran o ddefnyddiau A1 o fewn prif ffryntiadau siopa y trefi wedi gwella neu wedi parhau heb newid ac eithrio'r dilynol:<br>• Cofnododd PSF1 Stryd Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore & 1 Stryd Neville, Y Fenni ddirywiad bach, i lawr o 74% i 73%. Mae hyn oherwydd newid defnydd un uned o ddefnydd A1 i ddefnydd A2. Arferai'r uned fod y Black Mountain Gold Chocolate Shop ac mae'n awr yn Asiant Tai. Er na fu'r uned yn wag am o leiaf 2 flynedd, bu ymgais i farchnata'r safle ar gyfer ei defnydd presennol. Dywedwyd hefyd y gall asiant tai gynyddu bywiogrwydd y Prif Ffryntiad Siopa gan ei fod yn cyflwyno arddangosiad ffenestr deniadol a deinamig. Ystyriwyd felly gan na fyddai effaith niweidiol ar fywiogrwydd y ffryntiad, byddai'r newid defnydd yn dderbyniol ond y gallai amod gyfyngu'r defnydd i asiant tai yn unig, gan y gallai defnyddiau swyddfa A2 arall amharu ar fywiogrwydd y Prif Ffryntiad Siopa. Felly, ystyriwyd fod y newid defnydd yn dderbyniol.<br><br>Drwyddi draw, ystyrir fod prif ffryntiadau siopa y trefi yn gweithio'n dda ac nad oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Mae'n debygol y gaiff unrhyw effaith tymor byr ar y canran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiadau siopa y trefi yn deillio o lacio hawliau datblygu a ganiateir dros dro ei deimlo yn ystod y cyfnod monitro nesaf ac felly caiff ei asesu bryd hynny. Fodd bynnag, bydd angen monitro effeithiau hirdymor y pandemig Covid-19 ar y Stryd Fawr a phatrymau siopa y dyfodol mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn monitro'r mater hyn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd fframwaith polisi manwerthu y Cynllun. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Rhoddwyd un caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad manwerthu dros y cyfnod monitro mewn lleoliadau allan o'r dref.
**Papur Cefndir Manwerthu Sir Fynwy (Mawrth 2021). Dyddiad sylfaen Hydref 2020.
***Canllawiau Cynllunio Statudol Prif Ffryntiadau Siopa Sir Fynwy, Ebrill 2016.

## Economi a Menter

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Sicrhau cyflenwad digonol o dir cyflogaeth a diogelu tir cyflogaeth y Sir |
| **Polisi Strategol:** | S8 Menter ac Economi, S9 Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 7 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | E1-E3, RE1, SAE1-SAE2 |

**Newidiadau Cyd-destun**

**Covid-19 ac Adeiladu Lleoedd Gwell: Creu Lleoedd ac Adferiad yn dilyn Covid-19**

Ym mis Gorffennaf 2020 fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu lleoedd a'r Adferiad Covid-19 ym mis Gorffennaf 2020. Mae hyn yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio y Llywodraeth i gynorthwyo wrth weithredu yn y cyfnod adfer ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Mae'r ddogfen yn dynodi materion allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol ynghyd i sicrhau gweithredu effeithlon mewn ymateb i'r adferiad Covid-19; un o'r materion hyn yw cydnabod newid mewn arferion gwaith a'r berthynas gyda thir cyflogaeth. Caiff ei dderbyn yn eang fod y newid sylfaenol mewn arferion gwaith, a brofwyd fel gwaddol o'r pandemig Covid-19, gyda chynnydd sylweddol mewn pobl yn gweithio gartref/o bell wedi ei gwneud yn llai pwysig ble mae rhai swyddi wedi eu lleoli gan nad oes angen i weithwyr bellach deithio i'r gwaith mewn llawer o achosion.

Mae'r ddogfen Adeiladu Lleoedd Gwell yn cydnabod y newid a fu mewn arferion gwaith ac yn cydnabod, hyd yn oed ar ôl codi'r holl gyfyngiadau, bod Covid-19 yn debygol o gael effeithiau tymor hirach ar ble a sut y gweithiwn, gyda mwy o weithio gartref/gweithio o bell yn parhau. Mae'n ychwanegu fod hyn yn debygol o gael effeithiau ar y gofynion am fwy o ofod gwaith ac mae potensial am stoc gwarged sylweddol. Bydd effaith Covid-19 ar ofynion a'r defnydd o dir cyflogaeth yn parhau i gael ei fonitro a'i adolygu wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd fynd yn ei flaen.

| Dangosydd | Targed<br>*(Profiad Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Cyflenwad/datblygiad net tir cyflogaeth♦ | Cadw digon o dir cyflogaeth i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9 ha y flwyddyn | Dim digon o dir cyflogaeth ar gael i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn | **40.16ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2014-15: 46.8ha)*<br>*(2015-16: 41.18ha)*<br>*(2016-17: 40.76ha)*<br>*(2017-18: 40.16ha)*<br>*(2018-19: 40.16ha)*<br>*(2019-20: 40.16ha)* | | |
| 2. Defnydd o dir cyflogaeth♦ | Cadw digon o dir cyflogaeth i ateb y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9 ha y flwyddyn<br>*(2014-15: 0.38ha)*<br>*(2015-16: 1.131ha)*<br>*(2016-17: 3.21ha)*<br>*(2017-18: 5.002ha)*<br>*(2018-19: 0.873ha)*<br>*(2019-20: 3.74ha)* | Dim digon o dir cyflogaeth ar gael i gyrraedd y targed defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn | **0.38ha** |
| 3. Caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer datblygiad newydd (yn ôl math) ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd a ddynodwyd ym Mholisi SAE1♦ | Dim targed penodol<br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 3)*<br>*(2016-17: 2)*<br>*(2017-18: 1)*<br>*(2018-19: 2)*<br>*(2019-20: 0)* | Diffyg datblygu ar safleoedd cyflogaeth strategol a ddynodir ym Mholisi SAE1 erbyn diwedd 2017 | **Rhoddwyd 2 ganiatâd cynllunio** |
| 4. Rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B) yn ôl anheddiad♦♦ | Dim targed penodol | Dim | |
| | **Prif Drefi**<br>*(2014-15: 9. ha)*<br>*(2015-16: 0.95ha)*<br>*(2016-17: 0.52ha)*<br>*(2017-18: 0.784ha)*<br>*(2018-19: 4.37ha)*<br>*(2019-20: 0.11ha)* | | **0.30ha** |
| | **Aneddiadau Glannau Hafren**<br>*(2014-15: 0.39ha)*<br>*(2015-16: 2.83ha)*<br>*(2016-17: 0.17ha)*<br>*(2017-18: 2.124ha)*<br>*(2018-19: 0.04ha)*<br>*2019-20: 0.92ha)* | | **3.47ha** |
| | **Aneddiadau Gwledig Eilaidd** | | **0ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2014-15: 0.3ha)*<br>*(2015-16: 0.48ha)*<br>*(2016-17: 0.01ha)*<br>*(2017-18: 0ha)*<br>*(2018-19: 0.005ha)*<br>*(2019-20: 0.01ha)* | | |
| | **Gwledig Cyffredinol**<br>*(2014-15: 0.25ha)*<br>*(2015-16: 0.22ha)*<br>*(2016-17: 1.14ha)*<br>*(2017-18: 0.575ha)*<br>*(2018-19: 0.454ha)*<br>*(2019-20: 0.096ha)* | | **1.27ha** |
| 5. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B♦♦) yn ôl sector* | Dim targed penodol | Dim | |
| | Gweithgynhyrchu | | **3.13ha** |
| | Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau a beiciau modur | | **0.1ha** |
| | Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu | | **0.61ha** |
| | Gweithgareddau stad tiriog; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gwasanaeth gweinyddol a chefnogi | | **1.20ha** |
| | Gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd | | **0ha** |
| 6. Faint o dir cyflogaeth a gollir i ddefnyddiau heb fod yn gyflogaeth (h.y. dim defnyddiau B1, B2, B8) | Lleihau'r defnydd o dir cyflogaeth i ddefnyddiau heb fod yn B1, B2, B8<br>*(2014-15: 0.08ha)*<br>*(2015-16: 0.56ha)*<br>*(2016-17: 0.65ha)*<br>*(2017-18:0.12ha)*<br>*(2018-19: 0.105ha)*<br>*(2019-20: 0ha)* | Colli unrhyw dir cyflogaeth B1, B2 neu B8 mewn unrhyw 1 flwyddyn | **1.21ha** |
| 7. Cyfran gweithlu preswyl yn gweithio o fewn Sir Fynwy*** | Cynyddu'r gyfran o'r gweithlu preswyl yn gweithio o fewn Sir Fynwy<br>*(2014: 54.5%)*<br>*(2015: 58.3%)* | Dim | **56.9%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2016: 57.9%)*<br>*(2017: 58.1%)*<br>*(2018: 60.4%)*<br>*(2019:60.1%)* | | |
| 8. Nifer pobl yn mewn-gymudo i weithio yn Sir Fynwy♦♦♦ | Gostwng y lefel o fewn-gymudo dros gyfnod y cynllun<br>*(2014: 19,200)*<br>*(2015: 17,800)*<br>*(2016: 20,400)*<br>*(2017: 17,100)*<br>*(2018: 24,600)*<br>*(2019: 18,900)* | Dim | **19,000** |
| Nifer y bobl yn all-gymudo i weithio o sir Fynwy♦♦♦ | Gostwng y lefel o all-gymudo dros gyfnod y cynllun<br>*(2014: 19,600)*<br>*(2015: 18,700)*<br>*(2016: 18,700)*<br>*(2017: 18,500)*<br>*(2018: 17,400)*<br>*(2019: 17,700)* | Dim | **19,600** |

**Dadansoddiad**

1. Ar hyn o bryd mae 40.16ha o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir a ddyrannwyd dan bolisi SAE1 o'r Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Nid yw argaeledd tir cyflogaeth wedi newid ers ffigurau'r tri Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol, sy'n adlewyrchu na fu unrhyw ddefnydd tir newydd ar safleoedd cyflogaeth strategol SAE1 y Sir yn ystod y cyfnod monitro presennol.

Felly cafodd digon o dir cyflogaeth ei gadw dros y cyfnod monitro gan roi cyfle i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn. Mae polisïau S8 a S9 yn gweithredu'n effeithlon yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau ei ymdrechion drwy ei Gyfarwyddiaeth Menter i hyrwyddo cynlluniau economaidd sy'n anelu i gefnogi gweithgaredd economaidd yn y Sir.

2. Roedd cyfradd defnydd tir cyflogaeth (h.y. datblygiadau a gwblhawyd) yn gyfartal â 0.38ha dros y cyfnod monitro, i gyd yn ymwneud â datblygiad ar safle cyflogaeth gwarchodedig SAEo – Bragdy Magwyr. Cafodd ceisiadau ar gyfer gosod seilos ychwanegol, ymestyn warws bresennol yn ogystal ag estyniad i'r adeilad cynhyrchu presennol, i gyd eu gorffen erbyn adeg arolwg tir cyflogaeth Mawrth 2021 a gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn cyfrif am y defnydd llawn a gofnodwyd yn 2020-2021 o 3.8ha.

Mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yn cyfeirio at gyfanswm y cyflenwad tir o Safleoedd Cyflogaeth Strategol SEA1 yn hytrach na chyfraddau defnydd, serch hynny caiff y dangosydd hwn ei fonitro'n agos mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â thir cyflogaeth.

| |
|---|
| 3. Cymeradwywyd dau gais cynllunio ar safle cyflogaeth a ddyrannwyd dan bolisi SAE1 yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r cyntaf yn cyfeirio at safle SAE1c – Gwent Euro Park, Magwyr i amrywio caniatâd amlinellol byw M/8467 ar gyfer defnydd B8 i ganiatáu defnyddiau B1, B2 a B8 (cyf: DM/2018/02082). Mae hyn yn ddyraniad hirsefydlog ar gyfer defnydd diwydiannol (B8) a gafodd ei farchnata am flynyddoedd lawer ond nid yw wedi arwain at unrhyw ddiddordeb cadarn yn ei ddatblygu ar gyfer warysau/dosbarthu. Byddai ymestyn ei ddefnydd i ddefnyddiau B1, B2 a B8 yn gwneud y safle yn fwy deniadol a hyblyg, tra'n cadw prif bwrpas y dyraniad sef gwella'r economi lleol. Er nad yw'r cais yn ymwneud â datblygiad penodol, y mae'n cynrychioli ymrwymiad i ddatblygu'r safle.<br><br>Cafodd cais pellach ei gymeradwyo yng nghyswllt safle SEA1d – Parc Busnes Westgate, Llan-ffwyst am 24 uned gofal ychwanegol (dosbarth defnydd C2) ar weddill y dyraniad (Cyf: DM/2019/02012). Er fod Swyddogion wedi cymeradwyo gwrthod y cais hwn oherwydd ei fod yn groes i ddyraniad cyflogaeth SAE1, cafodd y penderfyniad ei wrthdroi gan Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. Y cyfiawnhad a roddwyd am y penderfyniad oedd y byddai cyfleuster gofal yn creu swyddi a bod yr unedau gofal arfaethedig yn gyfleuster sydd eu hangen yn y Sir. Nodwyd hefyd oherwydd y datblygiad dosbarth defnydd heblaw B a gafodd ei gwblhau eisoes ar y safle ar gyfer defnyddiau masnachol ac A3, efallai nad yw defnydd dosbarth B mwyach yn gymwys gyda'r dyraniad ehangach.<br><br>Y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn yw'r diffyg datblygu ar ddyraniadau cyflogaeth SAE1 erbyn diwedd 2017. Rhoddwyd cyfanswm ó chwe chaniatâd cynllunio ar safleoedd SAE1 erbyn diwedd 2017 a phedwar arall ers 2017, gan roi cyfanswm o 10 cais ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (er fod y tri yn cyfeirio at geisiadau newid defnydd heb fod yn ymwneud â Dosbarthiadau Defnydd B).<br><br>Cydnabyddir, serch hynny, yn gyffredinol mai cynnydd cyfyngedig fu ar gyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol dros y cyfnod monitro. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â chyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol. Cynhaliwyd adolygiad llawn o ddyraniadau SAE1 fel rhan o'r sylfaen tystiolaeth i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drwy baratoi Adolygiad Tir Cyflogaeth (Mehefin 2021). Mae asesiadau manwl o'r safleoedd cyflogaeth strategol yn mynd rhagddynt a byddant yn parhau i gael eu hadolygu wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ddatblygu. |
| 3. Nod y dangosydd hwn yw monitro faint o ofod llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiateir fesul anheddiad yn Sir Fynwy. Cymeradwywyd naw cais ar gyfer defnyddiau cyflogaeth o'r fath yn ystod y cyfnod monitro, yn gyfanswm o 5.04ha. (Dylid nodi nad yw hyn yn cynnwys caniatâd i amrywio'r dosbarthiadau defnydd ar Gwent Euro Park a drafodir uchod). O'r rhain roedd pedwar caniatâd ar safleoedd cyflogaeth gwarchodedig (safleoedd SAE2), yn gyfanswm o 3.77ha ac roedd y pump caniatâd arall ar dir cyflogaeth heb ei ddyrannu yn gyfanswm o 1.27ha.<br><br>Roedd y prif drefi yn cyfrif am 0.30ha o'r gofod llawr cyflogaeth dosbarth defnydd B a gymeradwywyd. Roedd hyn yn cyfeirio at un cais (cyf: DM/2020/01346) ar safle gwarchodedig SAE2j ym Mharc Beaufort, Cas-gwent am newid defnydd o ystafell arddangos ceir gyda bwyty i warws manwerthu a storfa B8 yn cyfrif am 76% o'r gofod llawr |

| |
|---|
| gyda bwyty. Roedd yr ail yn ymwneud â newid defnydd o sefydliad amhreswyl D1 i ddosbarth defnydd B1 yng Nghanolfan Berkeley, Cas-gwent.<br><br>Ardal Glannau Hafren oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gyflogaeth dosbarth defnydd B cymeradwy, yn cyfrif am 3.47ha o'r cyfanswm o 5.04ha. Cafodd tri chaniatâd cynllunio eu cymeradwyo yn y rhan hon o'r Sir, gyda'r mwyaf ar safle cyflogaeth gwarchodedig SA2o – Bragdy Magwyr. Roedd cais DM/2020/00103 i godi 16 cynhwysydd eplesu a dau faes parcio dros dro yn cyfrif am 3.07ha. Roedd y ddau gais arall yng Nglannau Hafren yn cyfeirio at ddau gais cynllunio ar safle cyflogaeth gwarchodedig SA2q Stad Ddiwydiannol Cheeseman, Rogiet ac yn cyfrif am 0.4ha cyfunol. Roedd y cyntaf am 0.3ha o ddefnydd warws B8 (DC/2013/009400) a'r ail am 0.1ha o ddefnydd B2 yn ymwneud ag adeiladu 2 fae MOT newydd (DM/2020/00756).<br><br>Roedd pedwar caniatâd o fewn ardaloedd gwledig yn cyfrif am y 1.27ha gweddilliol o ofod cyflogaeth dosbarth defnydd B. Roedd hyn yn cynnwys newid defnydd ysgubor i ddefnydd B1 yn St Arvans (DM/2019/02081), newid defnydd baeau amaethyddol i B2/B8 yn Fferm Magwyr Pill (DM/2020/00940), prosesu pren a datblygiad storfa yn Llancaio (DM/2020/00992) a newid defnydd unedau dofednod i ddefnydd B1 ar gyrion Trefynwy (DM/2018/02026).<br><br>Er nad oes targed penodol yn ymwneud â'r dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn awyddus i fonitro caniatâd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau B yn y Sir. Mae faint o ofod llawr cyflogaeth a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro hwn yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (1.136ha) ac yn debyg i 2018-19 (4.86ha). Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol ac yn gweithio gyda chydweithwyr yn Adran yr Economi a Menter i hyrwyddo cyfleoedd economaidd yn y Sir.<br><br>Er fod dangosyddion 4 a 5 yr adran hon yn cyfeirio at ddosbarthiadau defnydd B, mae'n ddefnyddiol nodi y rhoddwyd caniatâd nifer o weithiau ar gyfer defnyddiau eraill cynhyrchu cyflogaeth (h.y. defnyddiau tu allan i B) yn ystod y cyfnod monitro, yn neilltuol gynlluniau menter/arallgyfeirio gwledig fel y'u manylir yn y dadansoddiad ar gyfer Polisi S10.<br><br>Yn ychwanegol, fel y manylir yn y dadansoddiad ar gyfer Polisi S11 (Economi Ymwelwyr), cymeradwywyd 14 cais ar gyfer defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, i gyd ar gyfer cyfleusterau llety twristiaid yn amrywio o westai i dai gosod gwyliau a llety glampio mewn gwahanol aneddiadau ar draws y Sir. Bydd hyn yn hwb pellach i economi ymwelwyr yn Sir Fynwy. |
| 5. Nod y dangosydd hwn yw fonitro faint o ofod llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiatawyd gan y sector yn Sir Fynwy. Roedd dosbarth defnydd B1 yn cyfrif am 1.2ha o ofod llawr a gymeradwywyd drwy dri chais cynllunio. Roedd dosbarth defnydd B2 yn cyfrif am 3.23ha, drwy dri chais cynllunio. Roedd dosbarth warysau a defnydd storio B8 yn cyfrif am 0.3ha o'r gofod llawr a gymeradwywyd. Cafodd 0.31ha arall ei gymeradwyo ar ddau gais yn cynnwys cyfuniad o ddosbarthiadau defnydd B. |

| |
|---|
| Gan droi'n fwy penodol at sectorau cyflogaeth, yn seiliedig ar Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) y Deyrnas Unedig 2007, roedd y caniatâd cyflogaeth ar gyfer 5.04ha o ddosbarthiadau defnydd B a gofnodwyd dros y cyfnod monitro yn y sectorau dilynol **:<br>• Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau/beiciau modur (0.1ha) – 2 ganiatâd,<br>• Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu (0.61ha) – 3 caniatâd<br>• Gweithgynhyrchu (3.13ha) – 2 ganiatâd<br>• Gweithgareddau eiddo tirog; gweithgareddau gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cefnogi (1.20) – 3 chaniatâd;<br>• Llety a gwasanaethau bwyd (0).<br><br>Er nad oes unrhyw dargedau penodol ynghylch y dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn monitro sectorau cyflogaeth sy'n datblygu o fewn y Sir. Bydd hyn yn cynorthwyo i benderfynu os yw uchelgais y Cyngor ar gyfer tyfu sectorau economaidd allweddol penodol yn cael eu cyflawni. Cynhelir adolygiad llawn o'r polisïau cyflogaeth presennol fel rhan o sylfaen tystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cydnabyddir fod gan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd rôl allweddol wrth gefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ffyniant economaidd ac y bydd yn un o'r prif alluogwyr wrth gyflawni blaenoriaethau Sir Fynwy ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a gaiff ei nodi yn Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf Economaidd ac Uchelgais. |
| 6. Caniatawyd pedwar cais yn ystod y cyfnod monitro oedd yn ymwneud â cholli defnyddiau B ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd neu a warchodwyd (SAE1 a SAE2), oedd yn golled o 1.21ha.<br><br>Roedd un cais cynllunio yn cyfeirio at safle cyflogaeth penodol a ddyranwyd dan bolisi SAE1d – Parc Busnes Westgate, Llan-ffwyst. Fel y trafodwyd yng nghyswllt pwynt 3 uchod, roedd hyn yn ymwneud â 24 o unedau gofal ychwanegol (dosbarth defnydd C2) ar ran gweddilliol y dyraniad. Y cyfiawnhad a roddwyd am y penderfyniad oedd y byddai cyfleuster gofal yn creu swyddi a bod yr unedau gofal arfaethedig yn gyfleuster sydd eu hangen yn y Sir. Nodwyd hefyd, gan y cafodd datblygiad dosbarth y tu allan i B a gwblhawyd ar y safle ar gyfer dibenion masnachol ac A3, efallai nad yw dosbarthiadau defnydd B mwyach yn gydnaws gyda'r dyraniad ehangach.<br><br>Roedd y tri chais arall ar safleoedd cyflogaeth gwarchodedig (SAE2). Roedd un yn ymwneud ag uned ar Stad Ddiwydiannol Pont Hafren, Cil-y-coed ar gyfer newid defnydd o B1/B2/B8 i hefyd gynnwys defnydd yr uned ar gyfer D2 a chymuned Sui Generis i'w ddefnyddio gan Theatr Gerddorol Cil-y-coed. Ystyriwyd bod llesiant cymdeithasol a diwylliannol y gymuned leol o gymharu ag uned wag a'r potensial i ddatblygu sector twristiaeth economaidd allweddol yn bwysicach na'r golled ac yn bodloni Polisi E1.<br><br>Roedd cais arall yn ymwneud ag uned ar SAE2c Union Road, y Fenni ar gyfer newid defnydd o ddefnydd B i gampfa D2 (ôl-weithredol a hefyd newydd). Ni ystyriwyd y byddai defnydd campfa yn llesteirio'r ardal gyflogaeth ehangach a, gan fod y defnyddiau cyfagos hefyd yn ddefnyddiau y tu allan i B, tebyg i feithrinfa, roedd y gampfa arfaethedig yn dderbyniol.<br><br>Roedd y cais olaf yn ymwneud â thir ar safle warchodedig SA2d – Hatherleigh Place, y Fenni ar gyfer newid defnydd dros dro o B2 i sui generis (storio ceir a ddefnyddiwyd gan weithwyr |

| |
|---|
| yn gysylltiedig gydag adeiladu Heol Blaenau'r Cymoedd A465). Roedd y safle hwn wedi bod yn wag ers nifer o flynyddoedd. Felly ystyriwyd bod defnyddio'r tir ar gyfer defnydd arfaethedig am gyfnod o 3 blynedd yn dderbyniol ac na fyddai'n atal defnyddio'r tir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Gan y bu colled o dir cyflogaeth dosbarth defnydd B yn ystod y cyfnod monitro, cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd. Fel y dangoswyd, serch hynny, mae cyfiawnhad dros golli tir cyflogaeth i ddosbarthiadau y tu allan i ddefnydd B o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw'n dangos unrhyw broblem gyda gweithredu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac felly nid oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |
| 7. Dengys Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2020 fod 56.9% o breswylwyr y Sir yn gweithio yn yr ardal. Mae hyn yn is na ffigur y llynedd o 60.1% a hefyd yn is na'r lefelau cyfartalog a gofnodwyd ers dechrau monitro'r Cynllun. Mae hyn hefyd ar lefel is na chyfartaledd Cymru o 68%. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac felly dylid ei drin yn ofalus. |
| 8. Yn ôl Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2020, mae gan Sir Fynwy lif ar i allan net o 600 o gymudwyr – gyda 19,000 yn cymudo i'r ardal i weithio a 19,600 yn cymudo ar i allan. Roedd hefyd fewn-gymudo sylweddol o Flaenau Gwent (2,500), Casnewydd (2,600) a Thorfaen (2,700) ac o'r tu allan i Gymru (3,900). Y prif ardaloedd ar gyfer all-gymudo oedd Bryste (4,600), Casnewydd (3,900), Caerdydd (1,700), Torfaen (1,400) a Swydd Henffordd (1,300) gyda 3,800 arall yn cymudo i ardaloedd eraill y tu allan i Gymru. Mae'r gyfran uchel o gymudo i/o ardaloedd tu allan i Gymru yn amlwg yn adlewyrchu lleoliad Sir Fynwy fel awdurdod ar y gororau.<br><br>Mae dymuniad i ostwng lefelau mewn-gymudo a hefyd all-gymudo wedi'i gofnodi yn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Er fod lefel yr all-gymudo wedi parhau'n gymharol gyson dros gyfnod y Cynllun, bu lefel y mewn-gymudo yn amrywiol, yn amrywio o 17,100 i frig o 24,600. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau i'r ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach a dylid felly gael ei drin yn ofalus.<br><br>Er y gall y Cyngor geisio annog datblygu economaidd a chymeradwyo ceisiadau cynllunio cysylltiedig, mae ffactorau ehangach tebyg i gysylltiadau teuluol a phrisiau eiddo sydd tu allan i reolaeth y cynllun yn dylanwadu ar batrymau teithio i'r gwaith. Gall effeithiau tymor hirach Covid-19 a newidiadau mewn patrymau gwaith gyda chynnydd mewn gweithio o bell/gweithio gartref sy'n debygol o ddod yn dueddiad tymor hirach hefyd ddylanwadu ar lif cymudo y dyfodol. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Ystyried cynnydd safleoedd cyflogaeth fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |

| | |
|---|---|
| 4. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 6. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 7. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 8. | Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2007 y Deyrnas Unedig. Nid yw ond yn cynnwys y sectorau hynny y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y cyfnod monitro. I gael rhestr lawn o sectorau, gweler SIC 2007.

** Diwygiwyd i gynnwys caniatâd a gollwyd yn y cyfnod monitro 2018 - 19 - DM/2018/00696 – Heol Crug, Porthysgewin– Caniatâd amlinellol ar gyfer 291 annedd a 0.73ha Cartref Gofal. Cymeradwywyd cartref gofal ar dir a ddynodwyd ar gyfer defnydd B1 (SAH2).

♦Ffynhonnell Data: Papur Cefndir Tir Cyflogaeth Sir Fynwy am y cyfnod Ebrill 2020-Mawrth 2021

♦♦Diwygiwyd i egluro fod y dangosyddion hyn yn monitro dosbarthiadau defnydd B yn unig.

♦♦♦Ffynhonnell Data: Ystadegau Cymudo 2020 Llywodraeth Cymru (dyddiad cyhoeddi 14 Ebrill 2021).

## Menter Wledig

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Annog arallgyfeirio yr economi gwledig |
| **Polisi Strategol:** | S10 Menter Wledig |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 3, 5, 7 & 14 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | RE1-RE6 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destun sylweddol yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1 Nifer cynlluniau arallgyfeirio gwledig a menter gwledig* a gymeradwywyd | Dim targed<br>*(2014-15: 7)*<br>*(2015-16: 10)*<br>*(2016-17: 6)*<br>*(2017-18: 8)*<br>*(2018-19: 7)*<br>*(2019-20: 15)* | Dim | **8** |

**Dadansoddiad**

Cafodd cyfanswm o wyth cais yn ymwneud â menter wledig/arallgyfeirio eu cymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro. Cafodd pump o'r ceisiadau eu cymeradwyo fel cynlluniau menter wledig a thri cais fel cynlluniau arallgyfeirio gwledig o ffermydd presennol.

O'r cynlluniau menter wledig a gymeradwywyd, cymeradwywyd tri chynllun newydd sef: Ardal priodasau/digwyddiadau yng Nghwrt Cefn Tilla, Llandeni; adeilad newydd yn Fferm Cwm Caio, y Fenni i hwyluso busnes melin lifio newydd; ac adeilad newydd yn Maron Cottage, Drenewydd Gellifarch er mwyn gweithredu busnes trin cŵn.

Roedd y ddau gynllun menter arall yn cyfeirio at gais am ystafell staff fwy a safle llesiant yn Fferm Pen y Wyrlod, Llanwytherin ac, yn olaf cymeradwywyd cais ar gyfer symud ac ehangu uned farchogaeth (yn cynnwys annedd menter wledig) o Park Dressage Goetre i hen safle

| |
|---|
| Clwb Golff Alice Springs, Kemeys Commander. Ystyriwyd fod y cynnig yn ateb y profion a nodir yn TAN 6 ac yn cynnig buddion yng nghyswllt cyflogaeth a'r economi gwledig ehangach.<br><br>Roedd y cynigion arallgyfeirio gwledig yn cynnwys newid defnydd hen unedau dofednod i ddefnydd busnes B1 Busnes yng Nghaeau Vauxhall, Trefynwy; newid defnydd o ddefnydd amaethyddol i safle hyfforddiant ar gyfer offer trin deunyddiau megis cloddwyr yn Fferm Keepers Lodge, Llanisien, ac yn olaf newid defnydd dau fae amaethyddol i ddefnydd B2/B8 ym Fferm Magwyr Pill, Magwyr.<br><br>Mae nifer a chysondeb y cynlluniau arallgyfeirio gwledig a menter wledig a gymeradwywyd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (cyfanswm o 61 cynllun) yn awgrymu fod Polisi Strategol S10 a'r polisïau rheoli datblygu cefnogol yn gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu os yw'r fframwaith polisi hwn yn effeithlon yng nghyswllt arallgyfeirio yr economi gwledig. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Nid yw'r Cynlluniau Menter Wledig a restrir yma yn cynnwys y rhai sydd angen cyfiawnhad arbennig fel y'u diffinnir tan TAN6.

## Economi Ymwelwyr

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Annog twristiaeth gynaliadwy ansawdd uchel |
| **Polisi Strategol:** | S11 Economi Ymwelwyr |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 3, 5 & 7 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | T1-T3, RE6, SAT1 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yng nghyswllt y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1 Nifer cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd *(yn cynnwys estyniadau/ addasu adeiladau ac adeiladau newydd)* | Dim targed<br><br>*(2014-15: 17)*<br>*(2015-16: 10)*<br>*(2016-17: 24)*<br>(2017-18: 16)<br>(2018-19: 22)<br>(2019-20: 17) | Dim | **Cymeradwywyd 14 cynllun twristiaeth** |
| 2 Nifer cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygiad, newid defnydd neu ddymchwel | Lleihau colled cyfleusterau twristiaeth<br><br>*(2014-15: 5)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 1)*<br>(2017-18: 3)<br>(2018-19: 3)<br>(2019- 20: 7) | Colli unrhyw 1 cyfleuster twristiaeth mewn unrhyw 1 flwyddyn | **Colli 3 cyfleuster twristiaeth** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| 1. Cafodd 14 cais eu cymeradwyo ar gyfer defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod twristiaeth, y cyfan ar gyfer cyfleusterau llety twristiaeth,. Roeddent yn cynnwys: | | | |

| |
|---|
| • 5 uned gwyliau (i gyd wedi eu haddasu) mewn gwahanol aneddiadau*<br>• Estyniad i Westy Mayhill, Wyesham, Trefynwy i roi 3 ystafell wely ychwanegol yn y gwesty a 2 uned osod ar wahân;<br>• 6 safle llety Glampio (3 pod yn Spring Farm Gwehelog; 2 pod yn Lower House Llanfihangel Troddi; 3 pod yn New House Farm, Llangwm; 2 uned glampio yn Buckholt House, Buckholt; Caban Bugail yn Hen Fferm Llangatwg, Llangatwg Feibon Afel a 9 pod glampio yng Nghlwb Golff Raglan Parc).<br>• Newid defnydd gofod garej presennol i lety tŷ bynciau 6 gwely yn Ebbw Farm, Hen Heol Rhosan, Llandeilo Bertholau;<br>• Newid defnydd gofod swyddfa llawr cyntaf i lety Gwely a Brecwast 5 ystafell wely yn Rhif 12 Sgwâr Albion, Cas-gwent.<br><br>Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn rhoi tua 53 o ofodau gwely newydd a byddant yn rhoi hwb pellach i'r llety i ymwelwyr sydd ar gael yn Sir Fynwy.<br><br>Mae nifer o gyfleusterau llety twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro yn awgrymu fod polisïau perthnasol y Cynllun a'r 'Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Cynaliadwy' yn gweithredu'n effeithlon gan alluogi datblygiadau o'r fath i gael eu cynnal yn Sir Fynwy.<br><br>Dengys cymhariaeth gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol fod y nifer o gynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd o fewn y cyfnod monitro presennol yn parhau ar lefel gadarnhaol. Cafodd cyfanswm o 119 cynllun twristiaeth eu cymeradwyo ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2014 sy'n dangos ymhellach fod fframwaith polisi twristiaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn gweithio'n effeithlon i alluogi datblygiadau o'r fath yn y Sir.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro ceisiadau twristiaeth yn agos yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â darparu cyfleusterau twristiaeth. |
| 2. Caniatawyd tri chais yn ystod y cyfnod monitro yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth<br><br>Roedd dau o'r ceisiadau'n ymwneud â dileu amodau unedau gosod gwyliau i uned ddefnydd preswyl, un yn Parkfield House, St Arvans a'r llall yn Nhŷ'r Pwll, Coldbrook. Y cyfiawnhad am hyn oedd bod y dystiolaeth yn dangos mai ychydig o alw oedd am yr unedau ac nad oeddent yn hyfyw yn ariannol.<br><br>Roedd y cais olaf a ganiatawyd yn ymwneud â cholli The Park Hotel ym Mhenbiwdal, Pandy i newid defnydd i 2 annedd. Y cyfiawnhad dros hyn oedd y cyflwynwyd tystiolaeth sylweddol i ddangos y cafodd y gwesty ei farchnata am 2 flynedd ac na fu'n ariannol hyfyw ers rhai blynyddoedd.<br><br>Er bod y data a gasglwyd yn dangos y collwyd peth llety ymwelwyr i ddefnyddiau eraill dros y cyfnod monitro ac felly y cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd, mae'r golled yn fach mewn nifer a rhoddir cyfiawnhad drosto o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith |

| |
|---|
| polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt y mater hwn, o gofio am bwysigrwydd twristiaeth i economi'r Sir.<br><br>Ni wrthodwyd caniatâd cynllunio i unrhyw gyfleusterau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro presennol. |
| **Argymhellion** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

* Llanisien, Devauden, Earlswood, St Arvans a Penrhos

.

## Defnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Sicrhau fod datblygiad yn cydymffurfio gydag egwyddorion datblygu cynaliadwy |
| **Polisi Strategol:** | S12 Defnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 8, 9, 10 a 11 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | SD1-SD4 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Nid oes unrhyw newidiadau cyd-destun ar gyfer y cyfnod hwn.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1.Cyfran datblygiad ar dir llwyd fel canran o'r holl ddatblygiad a ganiatawyd *(yn cynnwys newid defnydd tir) (yn eithrio deiliaid tai, addasu adeiladau ac adeiladau amaethyddol)* | Cynyddu cyfran datblygu ar dir llwyd<br><br>*(2014-15: 28% /17.3ha)*<br>*(2015-2016: 16.8%/10.51ha)*<br>*(2016-17: 51.2% /18.6ha)*<br>*(2017-18: 40.18%/ 21.58ha)*<br>*(2018-19: 12.7% / 3.7ha)*<br>*(2019-20: 21% /5.3ha)* | Dim cynnydd yn y gyfran datblygu ar dir llwyd am 2 flynedd yn olynol | **6.0ha 28.3%** |
| 2 Faint o ddatblygiad (yn ôl categori TAN15) a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 heb fod yn ateb holl brofion TAN 15 | Pob datblygiad i gydymffurfio gyda gofynion TAN 15<br><br>*(2014-15: 1)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>(2017-18: 1)<br>(2018-19:1) | Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn groes i ofynion TAN 15 | **0 cais wedi'u rhoi ym Mharth C2** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (2019-20: 0) | | |
| 3 Nifer datblygiadau newydd a ganiatawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle * | Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy<br><br>*(2014-15: 2)*<br>*(2015-16: 9)*<br>*(2016-17: 5)*<br>(2017-18: 1)<br>(2018-19: 3)<br>(2019-20: 6) | Dim cynnydd blynyddol | **1** |
| 4 Nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle | Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy<br><br>*(2014-2015: D/G)*<br>*(2015-2016: 4)*<br>*(2016-2017: 3)*<br>(2017-2018:2)<br>(2018-19: 1)<br>(2019-20: 1) | Dim cynnydd blynyddol | **0** |
| **Dadansoddiad** | | | |

1. Caniatawyd cyfanswm o 20.002ha o ddatblygiad dros y cyfnod monitro, gyda 5.95ha ar safleoedd tir llwyd. Roedd hyn yn gyfartal â chaniatau 28.3% o'r holl ddatblygiadau (ac eithrio deiliaid tai, addasu adeiladau ac adeiladau amaethyddol) ar dir llwyd.

Roedd datblygiad preswyl yn cyfrif am 1.773ha/29.8% o dir llwyd a ganiatawyd. Roedd hyn yn bennaf yn gysylltiedig gyda lleiniau mewnlenwi tai o fewn cwrtil preswyl/ardal gerddi presennol.

Roedd cyfran fawr o'r tir llwyd a ganiatawyd ar 60% (3.57ha) mewn cysylltiad gyda datblygiad cyflogaeth. Roedd hyn yn bennaf yn gysylltiedig gydag estyniad mawr ar gyfer 16 cynhwysydd eplesu a dau faes parcio dros dro ym Mragdy Magwyr (3.07ha). Roedd 0.5ha (8.4%) arall yn gysylltiedig gydag ymestyn y maes parcio yng Ngwasanaethau Traffordd Magwyr.

| |
|---|
| Roedd gweddill y datblygiad a ganiatawyd ar dir llwyd yn ymwneud â chyfleusterau cymunedol: 0.5ha (8.4%) mewn cysylltiad â llwybr seiclo defnydd cymysg yn Llanbadog; ac 0.1ha (1.68%) ar gyfer datblygiad twristiaeth lle caniatawyd caban bugail ar gyfer uned gosod gwyliau/glampio o fewn libart preswyl Old Llangattock Farm.<br><br>Fel gyda'r ddwy flynedd fonitro flaenorol: 2018-19 (12.7%/3.7ha) 2019-2020 (21%/5.3ha), mae'r canran datblygiadau a ganiatawyd ar safleoedd tir llwyd a'r nifer o hectarau a gafodd ganiatad yn debyg, gyda chanran is o ddatblygiad tir llwyd o gymharu â thir glas. Mae hyn yn dangos y tir llwyd cyfyngedig sydd ar gael o fewn y Sir ar gyfer datblygu. Serch hynny, mae'r gyfran o ddatblygiad ar dir llwyd (28%) wedi cynyddu o'r ddwy flynedd flaenorol (2018-19: 12.7% a 2019-2020: 21%) gan roi dangosydd gwyrdd cadarnhaol.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |
| 2. Ni roddwyd cais cynllunio i unrhyw geisiadau yn groes i ofynion TAN 15 yng ngorlifdir naill ai Parth C1 na C2 dros y cyfnod monitro. Mae polisi S12 fel canlyniad yn gweithredu'n effeithlon yn y cyswllt hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |
| 3. Dim ond un cais am arae solar graddfa-fach (maint 906msg/0.09ha) yn Upper Glyn Farm, Devauden, a gymeradwywyd yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar-safle. Fel mewn cyfnodau monitro blaenorol, caniatawyd nifer gyfyngedig o gynlluniau adnewyddadwy ar-safle, yn neilltuol baneli solar a osodwyd ar y ddaear, a chredir fod hynny'n ganlyniad gostyngiad yng nghynlluniau cymhelliant y Llywodraeth (tariff cyflenwi trydan). Ymhellach, ystyrir fod mwyafrif cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa lai yn disgyn dan ddatblygiad a ganiateir, ac felly nid ydynt yn cael eu codi lan yn y system cynllunio.<br><br>Er y cyrhaeddwyd y sbardun, mae'n bwysig nodi y caniatawyd cyfanswm o 27 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar-safle ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2014 sy'n awgrymu fod Polisi Strategol S12 a'i bolisïau cefnogi yn gweithredu'n effeithlon yng nghyswllt darpariaeth ynni adnewyddadwy.<br><br>Serch hynny, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â defnydd effeithiol o adnoddau. |
| 4. Ni chofnodwyd fod unrhyw gynlluniau ychwanegol yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod monitro presennol. Dylid nodi, fodd bynnag, y cafodd cyfanswm o 11 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle eu cwblhau ac yn weithredol ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014. Mae hyn yn dangos ymhellach fod Polisi Strategol S12 a'i bolisïau cefnogi yn gweithredu'n effeithlon yng nghyswllt darpariaeth a chwblhau cynlluniau ynni adnewyddadwy ar-safle. |

| |
|---|
| Serch hynny bydd y Cyngor yn parhau i fonitro’r mater hwn yn agos yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt defnydd effeithiol o adnoddau. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Cynhwysir dangosydd monitro ychwanegol yn y fframwaith monitro er mwyn dynodi cynlluniau mewn 4.

**Seiliedig ar geisiadau a gafodd ganiatâd ar gyfer ynni ádnewyddadwy ar-safle ers mabwysiadu’r Cynllun Datblygu Lleol.

## Tirwedd, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Diogelu gofod agored a safleoedd o bwysigrwydd cydnabyddedig cadwraeth natur a thirwedd |
| **Polisi Strategol:** | S13 Tirwedd, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol |
| **Amcanion y Cynllun a gefnogir:** | 8 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | LC1-LC6, GI1 & NE1 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| *1.* Faint o dir glas a gollwyd i ddatblygiad na chafodd ei ddyrannu yn y cynllun datblygu *(yn cynnwys datblygiad adeiladu newydd – tai, cyflogaeth ond yn eithrio adeiladau amaethyddol)* | Lleihau faint o dir glas heb ei ddyrannu a gollir<br><br>*(2014-15: 26 ha)*<br>*(2015-16: 44.6 ha)*<br>*(2016-17: 16.5 ha)*<br>(2017-18: 8.98ha)<br>(2018-19: 9.71ha)<br>(2019-20: 18.27ha) | Unrhyw dir glas heb ei ddyrannu a gollir mewn unrhyw 1 flwyddyn | **11.7 ha*** |
| 2. Faint o ofod agored cyhoeddus/caeau chwarae a gollwyd i ddatblygiad nad yw wedi ei ddyrannu yn y cynllun datblygu | Lleihau faint o ofod agored/meysydd chwarae a gollir i ddatblygiad nad yw wedi ei ddyrannu yn y cynllun datblygu lleol<br><br>*(2014-15: 1.47ha)*<br>*(2015-16: 0.76ha)*<br>*(2016-17: 0)*<br>(2017-18:0)<br>(2018-19 :1.74ha)<br>(2019-20: 0.1ha) | Unrhyw ofod agored a gollir oherwydd datblygiad, heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn | **0 ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Datblygiadau a ganiatawyd / gwblhawyd sydd o fewn ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol / cenedlaethol bwysig ** | Heb effeithio'n niweidiol ar unrhyw un<br><br>*(2014-15: D/G)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>(2017-18:0)<br>(2018-19:1)<br>(2019-20: 3) | Difrod neu ddarnio safleoedd dynodedig/ cynefinoedd | **1** |
| 4. Rhoi caniatâd i ddatblygiadau sy'n achosi niwed i werth cadwraeth natur cyffredinol safleoedd a ddynodwyd yn lleol | Lleihau datblygiadau a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth natur cyffredinol safleoedd a ddynodwyd yn lleol.<br>*(2014 -15: D/G)*<br>*(2015-16:1)*<br>*(2016-17: 1)*<br>*(2017-18:1)*<br>*(2018 – 19: 2)*<br>(2019-20: 2) | 1 neu 2 ddatblygiad yn arwain at niwed cyffredinol am 2 flwyddyn yn olynol, neu 3 neu fwy o ddatblygiadau yn arwain at niwed mewn unrhyw 1 flwyddyn | **0** |
| 5. Nifer datblygiadau newydd yn cyflenwi creu a chadwraeth cynefin | Cynyddu nifer y datblygiadau newydd yn cyflenwi creu/adfer cynefinoedd<br><br>(2014-15: 1)<br>(2015-16: 1)<br>(2016-17: 0)<br>(2017-18:2)<br>(2018-19 :1)<br>(2019-20 :0) | Dim | **0** |

**Dadansoddiad**

1. Yn ystod y cyfnod monitro presennol, rhoddwyd 27 caniatâd ar dir glas na chafodd ei ddyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol, gan roi cyfanswm o 11.7ha. Mae hyn yn is na'r cyfnod monitro blaenorol o 18.27ha yn 2019-20 ond yn debyg mewn ystod i gyfnodau monitro eraill (8.98ha yn 2017-18; 9.71ha yn 2018-19), a heb fod mor uchel â chyfnodau cynharach yn yr adolygiad (44.6ha yn 2015-16 a 26ha yn 2014-15) oedd yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fwy (araeau

PV solar) a gafodd eu cyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol a pholisi cynllunio cenedlaethol; ni chafodd unrhyw gynlluniau ynni adnewyddadwy o'r fath eu caniatáu yn ystod y cyfnod monitro presennol.

Roedd cyfleusterau llety twristiaeth yn cyfrif am y rhan fwyaf o dir glas heb ei ddyrannu a gafodd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro presennol, 8.8 hectar. Roedd y caniatâd yma yn cynnwys chwe safle llety glampio. Er fod y caniatad yma ychydig dros 8 hectar o dir glas heb ei ddyrannu, ystyriwyd eu bod yn dderbyniol mewn egwyddor yn unol â'r fframwaith polisi twristiaeth. Yn sylfaenol, nid yw'r cyfleusterau llety glampio ar safle parhaol ac maent yn cyfeirio at ddefnydd y gellir ei wrthdroi o dir amaethyddol.

Roedd y 2.9 hectar arall o dir glas heb ei ddyrannu a gafodd ganiatâd dros y cyfnod monitro yn ymwneud ag amrywiaeth o ddefnyddiau. Roedd saith caniatâd yn cyfeirio at ddatblygiadau preswyl o 1.03 hectar – roedd y rhain yn amrywio o estyniadau i gwrtilau preswyl i anheddau newydd a dwy annedd gweithwyr menter gwledig, yr ystyriwyd eu bod i gyd yn dderbyniol yn nhermau polisi. Roedd gweithgareddau 'marchamaeth' yn cynnwys arenâu marchogaeth a stablau, yn ffurfio 9 caniatâd arall (0.49 hectar). Ystyriwyd fod y rhain yn ddefnydd addas o dir mewn ardaloedd gwledig ac yn cydymffurfio gyda fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd cynigion eraill a ganiatawyd yn cynnwys cyflogaeth, ynni adnewyddadwy a defnyddiau cymunedol (1.51, 0.09 ac 0.51 hectar yn yr un drefn) yr ystyriwyd eu bod hwythau yn cydymffurfio gyda pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.

Er bod y data monitro yn dangos y collwyd tir glas heb ei ddyrannu dros y cyfnod monitro oherwydd y caniatâd a nodir uchod (er yn is na'r cyfnod monitro blaenorol) ac felly y cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn, mae cyfiawnhad dros y golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol fel y dangosir uchod. Nid yw'n dangos unrhyw broblem gyda gweithrediad polisïau'r Cynlluniau Datblygu Lleol ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn.

2. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau ar ardaloedd o ofod agored nad oedd wedi eu dyrannu ar gyfer datblygiad yn y Cynllun Datblygu Lleol dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn awgrymu y cyrhaeddwyd y targed dangosydd a'r deilliant monitro yn 2020-21 ar gyfer diogelu a lleihau'r golled o ofod agored heb ei ddyrannu.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro faint o ofod agored cyhoeddus heb ei ddyrannu a gaiff ei golli i ddatblygiad yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â'r mater hwn.

3. Caniatawyd un cais o fewn ardal cadwraeth natur cenedlaethol bwysig yn ystod y cyfnod monitro. Roedd hyn yn cyfeirio at ganiatâd ar gyfer adnewyddu hen adeilad i fod yn weithdy/storfa amaethyddol yn Fferm Tregeirgog, Llangofan, sy'n rhan o safle Diddordeb Gwyddonol Arbennig Ystlum Pedol Lleiaf Dyffryn Gwy ac Ardal Cadwraeth Arbennig Dyffryn Gwy.

| |
|---|
| Cafodd y cynnig ei gyfiawnhau y cynhaliwyd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac arolygon manwl i lywio'r asesiad o effaith y cynllun a gafodd ei liniaru a'i amodi ar y caniatâd a roddwyd.<br><br>Dengys hyn fod y fframwaith polisi yn cyfeirio at gadwraeth natur yn gweithredu'n effeithlon wrth ddiogelu safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol/cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro caniatâd a chwblhau o fewn y safleoedd cadwraeth natur hyn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi ynghylch y mater hwn. |
| 4. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau yr ystyrid y byddent yn achosi niwed i werth cadwraeth natur cyffredinol safleoedd gyda dynodiad lleol, gan awgrymu y cafodd y targed dangosydd a'r deilliant monitro i ddiogelu safleoedd gyda dynodiad o'r fath ei gyrraedd.<br><br>Dengys hyn fod y fframwaith polisi yn gysylltiedig â chadwraeth natur yn gweithredu'n effeithlon wrth ddiogelu safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd lleol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro caniatâd a chwblhau o fewn y safleoedd cadwraeth natur hyn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi ynghylch y mater hwn. |
| 5. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau yn benodol i sicrhau creu ac adfer cynefinoedd yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Er na roddwyd unrhyw geisiadau i sicrhau creu ac adfer cynefinoedd, mae'n debyg y bydd cynlluniau eraill a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro yn helpu i adfer cynefinoedd drwy well rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd. Er nad oes sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yng nghyswllt y dangosydd hwn, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt Tirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Mae 1.41ha o dir glas ychwanegol yn cyfeirio at safleoedd a ddyrannwyd SAH11 (ii) (Devauden) a SAH11(i) (b) (Garej Cross Ash) a chaiff felly ei eithrio.

**Diwygiwyd y dangosydd yn unol gyda dangosydd yr Asesiad Cynaliadwyedd ar gyfer hwylustod casglu data

## Gwastraff

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Diwallu cyfraniad y Sir i gyfleusterau gwastraff lleol |
| **Polisi Strategol:** | S14 Gwastraff |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 12 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | W1-W6, SAW1 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newid sylweddol sylweddol mewn cyd-destun yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Profiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2012 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| Faint o gapasiti rheoli gwastraff a fynegwyd fel canran o'r cyfanswm capasiti sydd ei angen fel y'i dynodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol | Anelu i ddarparu rhwng 2.2 a 5.6 hectar ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff mewn-lenwi newydd wedi'i leoli ar safleoedd cyflogaeth B2 priodol dros gyfnod y cynllun<br><br>*(2014-15: caniatâd i 1.49ha; 32.5ha safleoedd rheoli gwastraff posibl)*<br><br>*(2015-16: caniatâd i 0.24ha; 26.86ha safleoedd rheoli gwastraff posibl)*<br><br>*(2016-17: caniatâd i 0ha; 26.26ha safleoedd rheoli gwastraff posibl)* | Swm y tir cyflogaeth B2 yn is na 5.6ha | **Capasiti gwastraff a gafodd ganiatâd 0ha**<br><br>**Safleoedd rheoli gwastraff posibl a ddynodwyd 26.26ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2017-18: caniatâd i 0ha; 26.26ha safleoedd rheoli gwastraff posibl)*<br><br>*(2018-19: caniatâd 0ha; 26.26ha safleoedd rheoli gwastraff posibl)*<br><br>*(2019-29: caniatâd 0ha; 26.26ha safleoedd rheoli gwastraff posibl)* | | |

| **Dadansoddiad** |
|---|
| 1. Nid oedd unrhyw ganiatâd ar gyfer capasiti rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod monitro. Yn ychwanegol, nid oedd unrhyw alw am dir B2 dros y cyfnod monitro, mae faint o dir sydd ar gael ar gyfer safleoedd rheoli gwastraff posibl (h.y. safleoedd B2 a safleoedd gwaredu neu reoli gwastraff presennol) yn parhau'r un fath ag yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol ar 26.26ha. Felly, mae digonedd o dir yn parhau i fod ar gael ar gyfer safleoedd rheoli gwastraff posibl yng nghyswllt yr uchafswm gofyniad o 5.6ha. |

| **Argymhelliad** |
|---|
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

## Mwynau

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Diogelu ardaloedd o adnoddau agregau |
| **Polisi Strategol:** | S15 Mwynau |
| **Amcanion Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 12 |
| **Polisiau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | M1-M3 |

**Newidiadau mewn Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun ynghylch y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Faint o agregau sylfaenol a gafwyd o'r tir fel canran i'r cyfanswm capasiti a ddynodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol | Cadw isafswm cronfa dir o 10 mlynedd<br><br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>*(2017-18: 0)*<br>*(20181-9: 0)*<br>*(2019- 20: 0)* | Dim cadw isafswm cronfa dir o 10 mlynedd | **0** |
| 2. Nifer datblygiadau parhaol heb fod yn fwynol a ganiatawyd ar safleoedd a warchodwyd nad ydynt yn cydymffurfio gyda Pholisi M2* | Lleihau nifer y datblygiadau parhaol heb fod yn fwynau ar safleoedd a warchodwyd<br><br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>*(2017-18: 0)*<br>*(2018-19: 0)*<br>*(2019-20: 0)* | Os caniateir unrhyw ddatblygiadau o'r fath | **0** |
| **Dadansoddiad** | | | |

| |
|---|
| 1. Ni chafodd unrhyw fwynau seiliedig ar dir eu cloddio yn y Sir yn ystod y cyfnod monitro. Ni fu felly unrhyw ostyngiad yn y gronfa tir, sy'n dibynnu ar y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn Chwarel Ifton. Nid yw'r chwarel yma wedi gweithio ers peth amser ond mae ganddi'r budd o ganiatâd cynllunio presennol. Oherwydd pwysigrwydd cadw cronfa tir 10 mlynedd, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. |
| 2. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd ar gyfer datblygiadau parhaol heb fod yn fwynau ar safleoedd a warchodwyd nad oeddent yn cydymffurfio gyda Pholisi M2 yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Dengys hyn fod Polisi M2 yn cael ei weithredu'n effeithlon ac nad oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi ynghylch y mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Diwygiwyd y dangosydd i gynnwys cyfeiriad at Bolisi M2 er eglurhad.

## Trafnidiaeth

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cynyddu dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth a sicrhau fod pob datblygiad yn cyflawni egwyddorion cynllunio trafnidiaeth gynaliadwy |
| **Polisi Strategol:** | S16 Trafnidiaeth |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1-6, 9 & 13 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | MV1-MV10 |

**Newidiadau mewn Cyd-destun**

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Adeiladu Lleoedd Gwell – y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19 ym mis Gorffennaf 2020. Mae hyn yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i gynorthwyo wrth weithredu yn y cyfnod adfer yn dilyn argyfwng pandemig Covid-19. Mae'r ddogfen yn dynodi materion allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol ynghyd i sicrhau gweithredu effeithlon, ac mae Teithio Llesol yn un o'r materion hyn. Mae Adeiladu Lleoedd Gwell yn cydnabod y newid mewn ymddygiad o gynyddu gweithgaredd seiclo a cherdded a ddigwyddodd yn sgil pandemig Covid-19 ac mae'n amlinellu'r angen i gynyddu cyfleoedd i'r eithaf a sicrhau newid dull trafnidiaeth cadarnhaol yn yr hirdymor, a sbardunwyd gan y pandemig, ymaith o'r car i deithiau di-gar teithio llesol.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cyhoeddwyd y penderfyniad ym Mehefin 2019 na fyddai Ffordd Liniaru'r M4 yn mynd rhagddi, yn dilyn cwblhau ymchwiliad cyhoeddus i'r prosiect a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd. Caiff y llwybr o fewn Sir Fynwy ei ddiogelu ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd. Nododd Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog Economi a Seilwaith Llywodraeth Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi penodi Comisiwn arbenigol (Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru) gyda'r dasg o wneud argymhellion am ddatrysiadau eraill i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru. Ym mis Tachwedd 2020, dywedodd y Comisiwn y gwnaed nifer o argymhellion y mae Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Sir Fynwy yn eu hystyried ar hyn o bryd. Rhoddir manylion pellach a'r goblygiadau ar gyfer Sir Fynwy yn y dadansoddiad islaw.

| Dangosydd | Targed<br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer gwelliannau i drafnidiaeth a | Dim targed<br>*(2014-15: 3)* | Dim | **0 cytundeb A106 yn cyflwyno** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| sicrhawyd drwy gytundebau A106 | *(2015-16: 3)*<br>*(2016-17: 2)*<br>*(2017-18: 4)*<br>*(2018-19: 3)*<br>*(2019-20: 1)* | | **gwelliannau trafnidiaeth** |
| 2. Manylion cynlluniau Cynllun Trafnidiaeth Lleol* ym Mholisi MV10 yn unol gydag amserlen cyflenwi y Cynllun Trafnidiaeth Lleol | Cynigion y Cynllun Trafnidiaeth Lleol wedi eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r Cynllun | Cynigion y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a fanylir ym Mholisi MV10 ddim yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol | **Rhoddir manylion cynnydd yn y dadansoddiad islaw** |

**Dadansoddiad**

1. Ni fu unrhyw welliannau trafnidiaeth a cherddwyr yn ystod y cyfnod monitro presennol a sicrhawyd drwy gytundeb A106, sy'n dangos y nifer isel o geisiadau cynllunio, yn arbennig ar gyfer datblygiadau mawr, a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro. Er nad oes unrhyw darged penodol i'r dangosydd hwn, mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn monitro faint o welliannau trafnidiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau A106. Yn ôl disgwyl, gan y bu cynnydd gyda nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn arafach na'r disgwyl, nifer cymharol fach o welliannau trafnidiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau A106 yng nghyswllt y safleoedd hyn yn rhan gynnar cyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, i gyd yn y 7 mlynedd hyd yma, mae 9 o'r 16 cytundeb A106 wedi arwain at welliannau trafnidiaeth wedi cyfeirio at safleoedd a ddyrannwyd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro hyn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

2. Mae cynnydd y cynlluniau Cynllun Trafnidiaeth Lleol* a fanylir ym Mholisi MV10 yn unol ag amserlen y Cynllun Datblygu Lleol fel sy'n dilyn:

**Cynlluniau Ffordd Llywodraeth Leol:**

**Gwella coridor yr M4 Magwyr i Gas-bach:** (caiff y rhan yn Sir Fynwy a gaiff ei warchod ei ddangos ar y Map Cynigion). Ym mis Mehefin 2019 penderfynodd Llywodraeth Cymru i beidio symud ymlaen gyda phrosiect gwella coridor yr M4. Wedyn sefydlodd Llywodraeth Cymru Gomisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru i "ystyried y problemau, heriau ac amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn ne ddwyrain Cymru a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfres o ddatrysiadau eraill". Adroddodd y comisiwn ym mis Tachwedd 2020. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion ac mae Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Sir Fynwy yn ystyried yr argymhellion ar hyn o bryd.

**Cynlluniau Ffyrdd Cyngor Sir Fynwy:**

**B4245 Ffordd osgoi Magwyr/Gwndy:** (caiff y rhan i'w ddiogelu ei ddangos ar y Map Cynigion). Gweler uchod. Byddai prosiect gwella coridor yr M4 wedi rhoi ffordd osgoi i

Magwyr/Gwndy. Mae adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru yn cynnig ymchwilio cysylltiad newydd rhwng yr A48, y B4245 a gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren i ddwyrain Rogiet (gweler islaw) a fedrai, yn dibynnu ar yr union ddyluniad, roi ffordd osgoi ar aliniad arall.

**Ffordd Gyswllt B4245/M48** a Ffordd Gyswllt B4245/Cyffordd Twnnel Hafren:** Ystyriwyd bod y prosiectau hyn yn hanfodol ar gyfer estyniad mawr yng ngorsaf Cyffordd Twnnel Hafren (ochr ogleddol). Profodd yr estyniad a gynigiwyd i'r maes parcio bryd hynny yn anfforddiadwy ac anymarferol. Yn dilyn ailadeiladu'r draphont ffordd yng ngorsaf Cyffordd Twnnel Hafren fel rhan o'r gwaith trydaneiddio rheilffyrdd, paratowyd cynlluniau ar gyfer estyniad llai i'r maes parcio ar ochr ddeheuol Cyffordd Twnnel Hafren y gellir ei gyflenwi heb y cynlluniau ffyrdd hyn, a disgwylir y caiff y rhain eu cyflenwi yn ystod 2021/22.

Mae adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru yn cynnig ymchwilio cysylltiad rhwng yr A48, y B4245 a gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren, a bydd Trafnidiaeth Cymru yn cynnal astudiaeth bellach o'r cynnig hwn yn 2021/22.

**A488 Ffordd Osgoi Allanol Cas-gwent:** Daeth astudiaeth cam 2 WelTAG Trafnidiaeth Cas-gwent, a noddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Swydd Caerloyw i ben ym mis Mawrth 2021. Mae'n argymell adeiladu ffordd liniaru traffig ar gyfer Cas-gwent i alluogi traffig i osgoi canol tref Cas-gwent ac ailadeiladu'r A48 bresennol i wella teithio llesol a bysus i ac o amgylch canol tref Cas-gwent. Mae cam 3 WelTAG (achos busnes llawn/dyluniad mewnol) ar y gweill ar gyfer 2021/22.

**A472 Ffordd Osgoi Brynbuga:** Dim cynnydd

**Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus:**

**Cyfnewidfa Gorsaf Reilffordd y Fenni**:** Mae cynllunio amlinellol ar gyfer y bont droed hygyrch newydd arfaethedig wedi cadarnhau ei bod yn ymarferol. Bwriedir dyluniad manwl yn 2021/22 gyda chyflenwi yn 2022/23. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cyflogi cynghorwyr i adolygu cynlluniau ar gyfer y gyfnewidfa bws-rheilffordd, yr estyniad arfaethedig i'r maes parcio a gwell mynediad teithio llesol. Bydd yr astudiaeth yn adrodd yn 2021/22.

**Cyfnewidfa Gorsaf Reilffordd a Gorsaf Bysus Cas-gwent**:** Cafodd cynigion ar gyfer gwelliannau i orsaf rheilffordd Cas-gwent eu cynnwys yn astudiaeth Trafnidiaeth Cas-gwent a adroddodd ym Mawrth 2021 (gweler uchod). Mae WelTAG cam 3 (achos busnes llawn/dyluniad manwl) ar y gweill ar gyfer 2021/22

**Cydgyfnewidfa Cyffordd Twnnel Hafren****: Mae'r uwchraddiad arfaethedig yng Nghyffordd Twnnel Hafren yn rhan o gyd-raglen 'Metro Plus' Llywodraeth Cymru/Prifddinas Ranbarth Caerdydd. Cafodd estyniad 150-lle i'r maes parcio ei gynllunio'n llawn yn 2020/21 a disgwylir y caiff ei gyflenwi yn 2021/22. Cafodd estyniad i'r bont droed ei amlinellu, dylunio a'i gyflwyno i Network Rail. Cafodd llwybr troed newydd ar deras maes parcio presennol yr orsaf ac ar hyd Station Approach ei fras ddylunio, mae dyluniad manwl ar y gweill ar gyfer 2021/22. Cafodd llwybr troed newydd ar hyd Heol yr Orsaf / Seaview Terrace ei gyflenwi'n flaenorol. Cafodd amlinelliad o lwybr troed/seiclo newydd ar hyd y

B4245 rhwng Gwndy a Rogiet ei ddylunio; mae adolygiad o'r dyluniad i ostwng costau ar y gweill ar gyfer 2021/22.

**Safle coetsis Trefynwy:** Dim gwaith pellach.

**Parcio a Theithio Trefynwy**:** Dim gwaith pellach

**Parcio a Theithio Cas-gwent****: Dim gwaith pellach.

**Gwelliant gorsaf bysus Trefynwy:** Dim gwaith pellach.

**Gwelliant gorsaf bysus y Fenni:** Bu peth gwaith i ailgyflunio'r orsaf bysus, i wella lloches a galluogi pellter cymdeithasol gan deithwyr yn aros. Y datrysiad yn y tymor canol i'r tymor hir yw symud yr orsaf bysus i'r orsaf rheilffyrdd.

**Cynlluniau Cerdded a Seiclo**

**Monmouth Links Connect 2**:** Cafodd y rhaglen oedd ar ôl yn Monmouth Links Connect 2 ei disodli gan Fapiau Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol Trefynwy. Gwnaed gwaith datblygu pellach ar Groesiad Teithio Llesol arfaethedig Mynwy Gwy a dolen Kings Fee.

**Rhwydwaith cerdded a seiclo y Fenni:** Cafodd cynllun parth cyhoeddus canol tref y Fenni ei gwblhau. Cafodd astudiaethau pellach ar y llwybrau teithio llesol ar hyd Dolydd y Castell a thuag at yr orsaf a de ddwyrain y Fenni eu cychwyn.

**Croesiad afon Llan-ffwyst i gerddwyr a seiclwyr –** Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2018/19, fodd bynnag gwrthododd Cyfoeth Naturiol Cymru roi Caniatâd Gweithgaredd Risg Llifogydd. Gwrthodwyd apêl Cyngor Sir Fynwy. Mae Cyngor Sir Fynwy yn edrych ar hyn o bryd ar opsiynau i ostwng y risg llifogydd fel y gall Cyfoeth Naturiol roi Caniatâd Gweithgaredd Risg Llifogydd.

**Mynediad i gerddwyr a seiclwyr Cyffordd Twnnel Hafren:** Gweler uchod.

Rhoddir adroddiad yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol ar gynlluniau'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol

Er na chafodd hynny ei ddynodi'n benodol ym Mholisi MV10, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn dynodi nifer o gynlluniau trafnidiaeth ychwanegol yn Sir Fynwy sydd ar y rhaglen i gael eu cyflenwi yng nghyfnod 2015-2020 a chânt hefyd eu monitro drwy broses yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae gorsaf reilffordd llwybr cerdded newydd Magwyr a Gwndy yn un cynllun o'r fath. Dywedodd Adran Trafnidiaeth Cyngor Sir Fynwy fod y gwaith wedi dechrau ar Brosiectau Buddsoddiad Llywodraethiant Rheilffyrdd Network Rail (GRIP) yng nghyswllt yr orsaf arfaethedig, gyda GRIP1 (diffinio allbwn) a GRIP2 (dichonoldeb) wedi eu cwblhau gyda gwaith yn parhau ar GRIP3 (dethol opsiwn). Mae'r amserlenni presennol yn rhagweld y caiff y cynllun ei gyflenwi erbyn 2022/23.

| |
|---|
| Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynnydd y cynlluniau a nodir uchod yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu os ydynt yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy 2015 wedi disodli Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru 2010. Cafodd y cynlluniau trafnidiaeth a ddynodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol eu cario ymlaen i'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol – felly cafodd geiriad y dangosydd ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.

** Dangos y cynlluniau hynny a ddynodwyd yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru.

## Creu Lleoedd a Dylunio

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Diogelu safleoedd ac adeiladau o ddiddordeb adeiledig a hanesyddol cydnabyddedig |
| **Nod Strategol:** | S17 Creu Lleoedd a Dylunio |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 14 & 15 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | DES1-4, HE1-4 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Cafodd Siarter Creu Lleoedd Cymru ei lansio gan y Gweinidog yng Nghynhadledd Cynllunydd Cymru RTPI Cymru ar 23 Tachwedd 2020. Caiff rhaglen waith ei sefydlu yn dilyn lansiad y Siarter. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn llofnodi'r Siarter yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

| Dangosydd | Targed *(Profiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1.Nifer adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol | Dim ceisiadau i arwain at golli adeiladau rhestredig | Colli mwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy flwyddyn yn olynol * | **Gweler dadansoddiad (1) islaw** |
| 2. Nifer ardaloedd cadwraeth gyda gwerthusiad cymeriad cyfredol | 100% o Werthusiadau Ardal Cadwraeth drafft a ddynodwyd erbyn 2016** | Targed heb ei gyrraedd | **19 wedi eu cwblhau (100%) Gweler dadansoddiad (2) isod** |
| 3.Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau ar gyfer goblygiadau dylunio / amgylcheddol sylweddol | Pob datblygiad i gyfrannu at greu amgylchedd ansawdd uchel, wedi'i ddylunio'n dda | Canlyniadau monitro yn negyddol | **Gweler dadansoddiad (3) islaw** |
| 4.Sampl o geisiadau cynllunio wedi eu rhoi ar gyfer datblygiadau gyda photensial ar gyfer effaith | Dim effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol | Unrhyw ddatblygiad yn effeithio'n niweidiol ar yr | **Gweler dadansoddiad (4) isod** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol / archeolegol, cofebion rhestredig ac ardaloedd cadwraeth | | amgylchedd hanesyddol | |
| 5. Achlysuron pan fyddai datblygiad a ganiatawyd yn cael effaith niweidiol ar adeilad rhestredig, ardal cadwraeth, safle o arwyddocâd archeolegol neu barc tirlun hanesyddol neu eu safle | Nid yw cynigion datblygu yn cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol adeiledig a'u safle<br>*(2014-15: dim)*<br>*(2015-16: dim)*<br>*(2016-17: dim)*<br>*(2017-18: dim)*<br>*(2018-19: dim)*<br>*(2019-20: un)* | Rhoddir 1 neu fwy caniatâd cynllunio lle mae gwrthwynebiadau yn dal i fod gan Dîm Cadwraeth y Cyngor, Cadw neu GGAT | **Dim wedi eu cofnodi** |

**Dadansoddiad**

1.Nifer adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol:

| | **Dyddiad Sylfaen 2011** | **2015** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adeiladau Rhestredig** | 2146 | 2153 | 2153 | 2152 | 2151 | 2149 | 2148 |
| **Henebion cofrestredig** | 169 | 164 | 164 | 164 | 164 | 164 | 164 |
| **Parciau a Gerddi Hanesyddol** | 44 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 |
| **Ardaloedd Archeolegol Sensitif** | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| **Tirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |

Cafodd dau adeilad rhestredig eu dadrestru dros y cyfnod monitro ac roedd un rhestriad newydd, gan fynd â'r cyfanswm ar draws Sir Fynwy i 2,148. Nid oedd unrhyw newidiadau yng nghyswllt henebion cofrestredig, parciau a gerddi hanesyddol, ardaloedd archeolegol sensitif neu dirluniau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol dros y cyfnod monitro.

Er y collwyd dau adeilad rhestredig yn ystod y cyfnod monitro, mae rhestru adeilad newydd wedi arwain at golled net o un adeilad rhestredig. Cafodd y dangosydd felly ei fodloni gan na fu mwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd olynol. Ers dechrau monitro yn 2015 bu colled gronnus o 5 adeilad rhestredig. Serch hynny, ni ystyrir fod hyn yn arwyddocaol ac nid yw'r Tîm Treftadaeth wedi codi pryderon yng nghyswllt y colledion hyn. Bu hefyd restriad newydd i anheddau yn y 3 blynedd ddiwethaf. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt y mater hwn.

| |
|---|
| 2. Fel y cyfnod monitro blaenorol, ni chafodd mwy o Werthusiadau Ardal Cadwraeth eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn ystod y cyfnod monitro. Fodd bynnag cafodd cyfanswm 19 Gwerthusiad Ardal Cadwraeth eu mabwysiadu ac felly cyrhaeddwyd y targed o 100% o Werthusiadau Ardal Cadwraeth drafft a ddynodwyd erbyn 2016 yng nghyfnod monitro 2015-16. Caiff y 12 Gwerthusiad Ardal Cadwraeth arall eu datblygu yn y dyfodol os oes adnoddau ar gael. |
| 3. Yn anffodus ni chynhaliwyd taith dylunio y Pwyllgor Cynllunio yn ystod y cyfnod monitro hwn oherwydd efeithiau parhaus pandemig Covid-19. |
| 4. Nid yw'r Tîm Treftadaeth wedi dynodi unrhyw geisiadau fyddai â'r potensial am effaith sylweddol ar amgylchedd hanesyddol Sir Fynwy.<br><br>Ni chyrhaeddwyd y sbardun ac ystyrir fod polisi 'datblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth' (HE1) y Cynllun Datblygu Lleol presennol yn gweithio'n effeithlon. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gadw golwg agos ar ddatblygiadau mewn ardaloedd hanesyddol sensitif. |
| 5.Nid yw Tîm Treftadaeth y Cyngor wedi dynodi unrhyw geisiadau dros y cyfnod monitro gyda gwrthwynebiad yn dal i fod gan Dîm Treftadaeth y Cyngor, Cadw neu GGAT.<br><br>Ni chyrhaeddwyd y sbardun ac ystyrir fod polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol presennol sy'n diogelu'r amgylchedd hanesyddol yn gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi ynghylch y mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Diwygiwyd y geiriad sbardun i egluro fod y sbardun yn cyfeirio at golli mwy na adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd yn olynol

**Diwygiwyd geiriad targed ar gyfer eglurhad, gan gyfeirio at y 18 drafft Gwerthusiad Ardal Cadwraeth oedd yn mynd rhagddynt yn ystod y cyfnod cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

# 6 Fframwaith Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd

**Methodoleg**

6.1 Mae monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ehangu'r asesiad o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag Amcanion Monitro y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cyfuniad o ddata ansoddol a meintiol gyda sylwebaeth yn y golofn olaf i ddisgrifio'r cynnydd a rhoi argymhelliad. Ni chafodd yr holl ddangosyddion a restrwyd yn wreiddiol yn fframwaith monitro y Gwerthusiad Cynaliadwyedd eu cynnwys, dim ond lle mae data ar gael y rhoddwyd gwybodaeth.

6.2 Mae gorgyffwrdd gyda rhai o ddangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol, caiff y dangosyddion hyn eu dangos mewn teip gwyrdd trwm er eglurdeb. Bwriedir i hyn roi arwydd o'r cysylltiad rhwng monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Rhoddir sylwebaeth fer er y dylid cyfeirio at Adran 5 Dadansoddiad Polisi y Cynllun Datblygu Lleol i gael gwybodaeth ychwanegol.

6.3 Mae nifer o ddangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd lle na chyhoeddir gwybodaeth yn flynyddol, er enghraifft y rhai'n seiliedig ar y Cyfrifiad. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau, ar sail flynyddol, fel canlyniad nid yw'r rhain o reidrwydd yn mynd i fod yn ddefnyddiol o hyn ymlaen yn nhermau monitro'r dyfodol. Cawsant eu cadw er mwyn rhoi llinell sylfaen, ac er y gwnaed gwaith i geisio canfod ffynonellau eraill o wybodaeth, ni ymddengys fod dim ar gael.

6.4 Ni chafodd y system sgôr golau traffig ar gyfer Dangosyddion Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ei defnyddio ar gyfer Monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Nod yw llawer o amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Yn ychwanegol, nid y Cynllun Datblygu Lleol ar ben ei hun fyddai'r unig ffactor fyddai angen ei ystyried wrth gyflawni eu nodau. Nid yw Monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn cynnwys targedau per se, yn wahanol i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol. Byddai felly'n anodd dehongli'r sylwadau i roi sgôr golau traffig. Mae'r symbolau sy'n gysylltiedig gyda dangosyddion neilltuol yn dynodi'r cyfeiriad a ddymunir ar gyfer newid. Mae'r symbolau yn cyfeirio at (+) cynnydd neu fwy; (-) gostyngiad, llai neu ddim a; (nc) dim newid. Gan fod hyn yn cyfeirio at seithfed cyfnod monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, caiff ei gymharu gyda'r chwech Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol ac mae'n dangos tueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Yn unol â hynny, dywedir yn yr adran sylwadau fod y cyfeiriad newid yn berthnasol. Defnyddir hyn i asesu cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol tuag at gyrraedd y dangosyddion a ddynodwyd ar gyfer datblygu cynaliadwy.

6.5 Mae gwybodaeth a gynhwysir yn fframwaith monitro’r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ymwneud yn bennaf ag ystod eang o ddata a gynhyrchwyd yn fewnol, gan wahanol adrannau’r Cyngor ac yn allanol gan sefydliadau eraill. Lle cafodd data ei gyrchu’n allanol, rhoddir troednodyn i sicrhau y gellir adnabod y ffynhonnell data yn rhwydd.

**Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Hygyrchedd | Caniatáu mynediad teg i bawb i swyddi, gwasanaethau a'r cyfleusterau maent eu hangen, mewn ffordd sy'n gostwng dibyniaeth ar ddefnydd ceir. | **1.** Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-)<br>**2.** Cyfran o bobl sy'n teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo (+)<br>**3. Cyfran o'r gweithlu sy'n aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith, yn ôl ystadegau teithio i'r gwaith (+)**<br>**4. Cyfran o ddatblygiadau tai a gwblhawyd o fewn neu'n agos at y prif drefi, Aneddiadau Glannau Hafren, Aneddiadau Gwledig Eilaidd a gwledig cyffredinol, fel y'u dynodir ym Mholisi S1.**<br>**5.** Canran datblygiad newydd mawr* o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws aml a | **1.** 21.9km**<br>**2.** 16.7%**<br>**3.** 56.9%*****<br>**4.** Prif Drefi: 54.2%, Glannau Hafren: 32.7%, Aneddiadau Gwledig Eilaidd: 2.6%, Gwledig Cyffredinol: 10.5%<br>**5.** 100% | **1 – 2.** Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo. Y pellter cyfartalog teithio i'r gwaith oedd 21.9km. Ni chaiff data ei gyhoeddi tan y Cyfrifiad nesaf yn 2021, fel canlyniad ni fedrir cael cymhariaeth ystyrlon tan yr amser hwnnw. Bydd y data wedyn yn parhau'r un fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>**3.** Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru yn dynodi fod 56.9% o weithlu Sir Fynwy yn parhau yn eu hardaloedd eu hunain ar gyfer gwaith. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng gan 3.2% ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac felly dylid ei drin yn ofalus .<br><br>**4.** Y Prif Drefi a roddodd y gyfran fwyaf o anheddau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro, gan fod yn gyfartal â 54.2% o'r ffigur cyffredinol (419). Roedd Aneddiadau Glannau Hafren yn cyfrif am gyfanswm o 32.7% o'r anheddau a gwblhawyd, cynnydd o gymharu gyda'r cyfnod monitro blaenorol (24.43%). Roedd Aneddiadau Gwledig Eilaidd yn cyfrif am 2.6% o'r anheddau a gwblhawyd a'r ardal Gwledig Cyffredinol, sy'n cynnwys ffigurau o'r Prif Bentrefi, yn cyfrif am 10.5%. Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at y Strategaeth Ofodol yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn.<br><br>**5.** Cafodd un cynllun mawr* ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn cyfeirio at safle SAH11 (xiv)(a) i'r de o is-heol yn |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | rheolaidd (+) yn cynnwys caniatâd preswyl, cyflogaeth, manwerthu a hamdden yn unig). | | Drenewydd Gellifarch a gafodd gymeradwyaeth amlinellol ar gyfer 11 annedd. Mae'r cynllun uchod yn union i'r de o safle bws a gwasanaeth bws aml a rheolaidd rhwng Cwmbrân a Chas-gwent. Cofnododd yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol 66.6%, fodd bynnag, roedd hyn yn cynnwys tri chais perthnasol lle'r oedd dau o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws aml, o gymharu â dim ond un cais yn y cyfnod hwn gan arwain at gyfradd cwblhau o 100%. Byddir yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Tai | Darparu ystod o fathau a daliadaethau tai sy'n galluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion tai | **1.** Pobl mewn angen tai (-)<br>**2. Anheddau fforddiadwy a gwblhawyd (+)**<br>**3. Cartrefi marchnad gyffredinol a gwblhawyd**<br>**4. Lefel flynyddol tai a gwblhawyd a gafodd ei fonitro o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ********<br>***5.* Cyfanswm cronnus anheddau a gwblhawyd o gymharu â'r gofyniad cronnus ******** | **1.** 468 y flwyddyn dros gyfnod 5 mlynedd (dyddiad sylfaen 2020)<br>**2.** 71<br>**3.** 348<br>**4.** -31 uned<br>**5.** -1500 uned<br>**6.** Rhoddwyd caniatâd i 1 gyda dwysedd o 16 annedd fesul hectar.<br>**7.** 0 annedd wedi'u | **1.** Mae'r Asesiad o'r Farchnad Tai Leol 2020-2025 yn defnyddio gwahanol fethodoleg i'r hyn a ddefnyddir i roi tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol felly ni fedrir cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol. Ni ddylid cymryd y ffigur o 468 fel targed ar gyfer cyflenwi tai fforddiadwy gan nad cartrefi adeiladu newydd yw'r unig gyflenwad o dai fforddiadwy yn Sir Fynwy. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda landlordiaid preifat i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi rhent preifat ac i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Yr angen rhent cymdeithasol yw 319.61 y flwyddyn, mae Perchnogaeth Cartrefi Cost Isel yn 115.20 y flwyddyn, a'r Rhent Canolraddol yn 33 y flwyddyn. Caiff angen perchnogaeth cartref cost isel ei drin drwy amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys cyfraniadau A106 ar gynlluniau tai adeilad newydd a negodwyd gan y Cyngor. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys cynlluniau Cymorth Prynu a Rhentu i Brynu y Llywodraeth yn ogystal â thai perchnogaeth cartrefi cost isel a ailwerthir. Fel y nodir uchod ni ddylid cymryd y ffigur hwn fel targed blynyddol, y mae serch hynny yn rhoi |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | **6.** ***Dwysedd tai a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd (SAH1 – SAH10)***<br>**7. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ac a gwblhawyd ar safleoedd strategol fel y'i dynodwyd ym mholisi S3.**<br>**8. Nifer anheddau fforddiadwy a adeiladwyd drwy gynlluniau eithriad gwledig.**<br>**9. Nifer anheddau a ddarparwyd yn unol gyda'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2** | caniatáu, cwblhau 183<br>**8.** 0<br>**9.** Gweler y tabl yn yr adran sylwadau | arwydd o'r angen amcanestynedig cyfredol ar gyfer tai fforddiadwy o fewn y Sir ac yn gosod meincnod y gall y Cyngor weithio ato.<br><br>**2 – 3.** Cafodd 71 o anheddau fforddiadwy eu cwblhau a 348 o anheddau marchnad a gwblhawyd dros y gyfnod monitro.<br><br>**4 - 5** Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i fonitro cyflenwi tai. Roedd y newidiadau yn dileu'r polisi cyflenwad tir tai pum mlynedd a chyflwyno datganiad polisi yn ei le yn ei wneud yn glir fod y trywydd tai, a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ac a gytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, yn sail ar gyfer monitro cyflenwi gofynion tai cynllun datblygu fel rhan o Adroddiadau Monitro blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Cynhwyswyd ddau ddangosydd am y tro cyntaf yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol oedd yn mesur y cyflenwad tir tai pum mlynedd. Mae'r cyntaf o'r dangosyddion hyn yn mesur y lefel flynyddol o anheddau a gwblhawyd a gafodd eu monitro ar y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Yn 2020-21 roedd y ffigur hwn yn -31 annedd (6.9%). Mae'r ail o'r dangosyddion hyn yn mesur cyfanswm cronnus yr anheddau a gwblhawyd wedi ei fonitro o gymharu â'r gofyniad cronnus. Yn 2020-2021 roedd y ffigur hwn yn -1500 annedd (-33.3%). Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at y Ddarpariaeth Tai yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosyddion newydd hyn.<br><br>**6.** Rhoddwyd caniatâd ar gyfer un safle dros y cyfnod monitro presennol. Dyrannwyd safle Cwrt Burrium, Brynbuga (SAH10(i)) yn y |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 20 annedd ar arwynebedd safle gwreiddiol o 0.66ha. Cafodd y cais ei ddiwygio'n sylweddol yn dilyn y cyflwyniad gwreiddiol ym mis Mawrth 2018 ar gyfer 18 annedd. Yn dilyn yr ymgynghoriad a thrafodaeth gyda Thîm Rheoli Risg Llifogydd y Cyngor, daethpwyd i'r casgliad nad oedd rhan isaf y safle yn addas ar gyfer datblygu. Roedd hyn oherwydd pryderon oedd yn cael blaenoriaeth am lefel y risg llifogydd. Felly, cafodd terfyn y safle ei ostwng i tua 0.4 hectar gyda 7 annedd a gynigiwyd, yn gyfwerth â 16 annedd fesul hectar. Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at y Ddarpariaeth Tai yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn.<br><br>**7.** Bu gostyngiad yn nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau ar safleoedd strategol dros gyfnod monitro (cwblhau 183 annedd 2020-2021) o gymharu gyda'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (cwblhau 219 annedd 2019-2020). Mae mwyafrif y safleoedd strategol a gwblhawyd (83) yn cyfeirio at safle SAH1 Fferm Deri. Yr anheddau eraill a gwblhawyd oedd: SAH5 Fferm Rockfield, Gwndy (41), SAH7 Melin Bapur Sudbrook (28), SAH3 Fairfield Mabey, Cas-gwent (18) a SAH4 Heol Wonastow, Trefynwy (13).<br><br>**8.** Ni chafodd unrhyw gynlluniau eithriad gwledig eu caniatáu neu eu cwblhau dros y cyfnod monitro hwn. Er nad oes targed yng nghyswllt y nifer a gwblhawyd ar gyfer cynlluniau eithriad gwledig, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r cynlluniau eithriad gwledig. |

<table>
<thead>
<tr><th>Pennawd</th><th>Amcan</th><th>Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd</th><th>Data</th><th>Sylwadau</th></tr>
</thead>
<tbody>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td>9. Mae’r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o 419 o anheddau a gwblhawyd o gymharu gyda’r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2. Mae’r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at y Strategaeth Ofodol yn rhoi dadansoddiad llawn o’r dangosydd hwn.<br><br>
<table>
<thead><tr><th></th><th>2020 – 2021</th><th>Targed</th></tr></thead>
<tbody>
<tr><td>Prif Drefi</td><td>54.2%</td><td>41%</td></tr>
<tr><td>Glannau Hafren</td><td>32.7%</td><td>33%</td></tr>
<tr><td>Gwledig Eilaidd</td><td>2.6%</td><td>10%</td></tr>
<tr><td>Gwledig Cyffredinol</td><td>10.5%</td><td>16%</td></tr>
</tbody>
</table>
<br>Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.</td></tr>
<tr><td>Iechyd, diogelwch a sicrwydd</td><td>Gwella iechyd a llesiant drwy annog ffyrdd o fyw mwy iach, a diogelu pobl rhag risg a all effeithio ar eu hiechyd a/n eu ddiogelwch</td><td>1. Faint o ofod agored a gafodd ei greu fel canlyniad i ganiatâd cynllunio</td><td>1. 0 ha.</td><td>1. Cymeradwywyd 0 ha o ofod agored ychwanegol fel canlyniad i ganiatâd cynllunio dros y cyfnod monitro. Cesglir y data hwn o ffurflenni statudol Rheoli Datblygu ac maent yn eithrio unrhyw geisiadau amlinellol neu geisiadau sy’n disgwyl llofnodi cytundebau A106. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol ar y cyfnod monitro blaenorol (12.7ha) ac mae’n bennaf oherwydd gostyngiad yn nifer y caniatâd cynllunio a roddwyd oherwydd fod gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd ganiatâd cynllunio eisoes ac i’r Cynllun Datblygu Lleol gyrraedd camau olaf cyfnod y Cynllun. Mae ffactorau eraill yn cynnwys cyfnod clo Covid-19 a’r cyfyngiadau oedd ar waith drwy gydol y cyfnod monitro.<br><br>Parhau i fonitro amcan yr Asesiad Cynaliadwyedd.</td></tr>
</tbody>
</table>

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cymuned | Cefnogi a hyrwyddo cymeriad neilltuol cymunedau lleol a chydlyniaeth gymunedol | **1.** **Nifer cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio (+)**<br>**2.** **Faint o dir cymunedol a chyfleusterau hamdden a gollwyd i ddefnyddiau eraill**<br>**3.** **Faint o ofod agored cyhoeddus/caeau chwarae a gollwyd i ddatblygiad na chafodd ei ddyrannu yn y cynllun datblygu** | **1.** 3<br>**2.** 1<br>**3.** 0ha | **1.** Cafodd tri chais cynllunio ganiatâd cynllunio ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden dros y cyfnod monitro. Mae dau o'r tri chais yn cyfeirio at ddefnyddiau hamdden ac un at ddefnydd cymunedol. Mae un o'r ceisiadau y cyfeirir atynt yn ymwneud â newid defnydd tir segur i barc cymunedol ac ardal leol gydag offer chwarae, un arall i siop gymunedol a chaffe a'r olaf i newid defnydd i hen lein reilffordd i lwybr troed a llwybr seiclo. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad yn nifer y cyfleusterau cymunedol/hamdden a roddwyd (2018-2019; 8, 2019-2020; 12) ac felly nid yw'n cyrraedd y cyfeiriad newid a ddymunir ond gallai ddangos y gostyngiad cyffredinol yn y caniatâd cynllunio a gymeradwywyd drwy gydol y cyfnod monitro ac effaith cyfnod clo Covid-19 a chyfyngiadau cysylltiedig ar gynlluniau. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at Gyfleusterau Cymunedol a Hamdden.<br><br>**2.** Collwyd un cyfleuster cymunedol dros y cyfnod a gafodd ei fonitro. Roedd y golled hon yng nghyswllt addasu tafarn yng Nghas-gwent yn annedd breswyl newydd. Er fod y data a gasglwyd yn dangos na chafodd y cyfleuster cymunedol ei golli i ddefnyddiau eraill dros y cyfnod monitro ac fel canlyniad y cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd, mae'r cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfiawnhau'r golled. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at Gyfleusterau Cymunedol a Hamdden.<br><br>**3.** Yn ystod y cyfnod monitro ni roddwyd unrhyw ganiatâd ar ardaloedd o ofod agored nad oedd wedi eu dyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Datblygu Blynyddol. Mae mwy o fanylion yn y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at Dirlun, Seilwaith Gwyrdd ac Amgylchedd Naturiol.<br><br>**Parhau i fonitro yr amcan Asesiad Cynaliadwyedd.** |
| Bioamrywiaeth | Diogelu, gwerthfawrogi, rheoli a hybu ecosystemau, cynefinoedd iach ac amrywiaeth rhywogaethau naturiol, gan werthfawrogi buddiannau cadwraeth lle bynnag y cânt eu cyfnod. | **1. Datblygiadau a ganiatawyd sy'n achosi niwed i werth Cadwraeth Natur safleoedd a ddyrannwyd yn lleol (-)**<br>**2. Nifer datblygiadau newydd yn cyflenwi creu ac adfer cynefinoedd**<br>**3.** Hectarau o goetir hynafol a gollwyd i ddatblygiad (-)<br>**4. Datblygiad a ganiatawyd o fewn ardaloedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn rhyngwladol/ cenedlaethol.** | **1.** 0 cais<br>**2.** 0<br>**3.** 0.ha coetir hynafol o bosibl yn cael eu colli i ddatblygiad<br>**4.** 1 | **1.** Ni chytunwyd i unrhyw geisiadau yn ystod y cyfnod monitro fydd yn achosi niwed i werth cadwraeth natur cyffredinol y safleoedd a ddyrannwyd yn lleol. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at y Tirlun, Seilwaith Gwyrdd ac Amgylchedd Naturiol.<br><br>**2.** Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau yn benodol i greu ac adfer cynefinoedd yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>**3.** Ni chollwyd unrhyw goetir hynafol fel canlyniad i geisiadau a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn ostyngiad ar y ddau Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (2018/19; 0.0125ha a 2019/20; 0.05ha) a gytunwyd ac felly cyflawnwyd y newid cyfeiriad a ddymunir. Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro'n agos yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.<br><br>4. Cafodd 1 datblygiad ei ganiatáu o fewn ardaloedd cadwraeth natur sy'n bwysig yn rhyngwladol/cenedlaethol yn ystod y cyfnod monitro sef Safle Diddordeb Gwyddonol Arbennig Ystlum Pedol Lleiaf yn Nyffryn Gwy. Cafodd y cynnig ei gyfiawnhau ar y sail y cynhaliwyd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac arolygon manwl i lywio asesiad effaith y cynllun, y lliniarwyd yn llawn yn ei erbyn a gydag amodau ar |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | y caniatâd a roddwyd. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ynghylch Tirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Asesiad Cynaliadwyedd.** |
| Tirwedd | Cynnal a gwella ansawdd a chymeriad y tirwedd, yn cynnwys ei gyfraniad i osodiad a chymeriad aneddiadau | **1.** Nifer y coed a ddiogelwyd gan Orchmynion Cadw Coed a gollwyd i ddatblygiad (0) | **1.** Collwyd 1 goeden a ddiogelwyd gan Orchymyn Cadw Coed | **1.** Collwyd 1 goeden Gorchymyn Cadw Coed i ddatblygiad yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn gynnydd o gymharu gyda'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (0 coed).<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Asesiad Cynaliadwyedd.** |
| Amgylchedd Adeiledig | Cynnal a chyfoethogi'r amgylchedd adeiledig ar gyfer ei gymeriad gweledol a'i arbenigrwydd ac i greu amgylchedd byw gwell. | **1. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy a carbon isel.**<br>**2. Nifer datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (h.y. caniatâd yn dilyn mabwysiadu'r** | **1.** 1<br>**2.** 0<br>**3.** D/G | **1.** Cymeradwywyd un cais ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar-safle yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y cynllun hwn yn ymwneud â chais am godi system gynhyrchu ynni adnewyddadwy PV solar a osodwyd ar y ddaear ar fferm i dde Devauden. Mae hyn yn cymharu gyda chyfanswm o chwe chynllun yn yr Adroddiad Monitro blynyddol blaenorol. I gael manylion pellach am y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar Ddefnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd.<br><br>**2.** Ni chafodd unrhyw gynlluniau yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar-safle eu cwblhau dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu ag Adroddiadau Monitro Blynyddol y gorffennol fodd bynnag, dylid nodi ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014, |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | **Cynllun Datblygu Lleol a gwblhawyd dros gyfnod monitro 2020-21)**<br>**3. Sampl ceisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda'r potensial am oblygiadau dylunio/amgylcheddol sylweddol .** | | y cafodd cyfanswm o 11 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar-safle eu cwblhau ac yn gweithredu.<br><br>**3.** Yn anffodus ni chynhaliwyd taith dylunio y Pwyllgor Cynllunio yn ystod y cyfnod monitro oherwydd effaith pandemig Covid-19.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Treftadaeth hanesyddol | Deall, gwerthfawrogi, diogelu ac adfer, lle mae angen, dreftadaeth ddiwylliannol y safle, yn cynnwys nodweddion o'r amgylchedd adeiledig a lled-naturiol | **1. Nifer adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol (-)**<br>**2. Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda'r potensial ar gyfer effaith sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol/ archeolegol, henebion cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth yr oedd datblygiad** | . Adeiladau Rhestredig: 2148, Henebion Cofrestredig: 164, Parciau a Gerddi Hanesyddol: 45, Ardaloedd Archeolegol Sensitif: 10 a Tirluniau o Bwysigrwydd Hanesyddol: 3<br>**2.** D/G | **1.** Cafodd un adeilad rhestredig eu ddadrestru gan Cadw yn ystod y cyfnod monitro. Nid oedd unrhyw newidiadau eraill yng nghyswllt Henebion Cofrestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Archeolegol Sensitif neu Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Rhestredig yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>**2.** Yn anffodus ni chynhaliwyd taith ddylunio y Pwyllgor Cynllunio yn ystod y cyfnod monitro oherwydd effaith pandemig Covid-19.<br><br>**3.** Cynhyrchwyd cyfanswm o 19 Gwerthusiad Ardal Cadwraeth a'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Gweler y Dadansoddiad Polisi Creu Lleoedd a Dylunio yn Adran 5 i gael manylion pellach.<br><br>**Parhau i fonitro amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | **wedi effeithio'n niweidiol arnynt**<br>**3 Nifer ardaloedd cadwraeth gyda gwerthusiad cymeriad cyfredol** | **3.** 19 gwerthusiad cymeriad Ardal Cadwraeth cyfredol | |
| Aer | Gostwng pob math o lygredd aer er budd ansawdd aer lleol ac integriti'r awyrgylch i ddiogelu rhag newid hinsawdd | **1.** Nifer lleoliadau lle mae ansawdd aer yn uwch na lefelau amcan fesul blwyddyn (-)<br>**2.** Canran pobl a gyflogir yn defnyddio eu car/fan fel eu prif ffordd o deithio i ac o'r gwaith naill ai drwy yrru neu fel teithiwr (-)<br>**3.** Cyfran o bobl a gyflogwyd yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo (+) | **1.** 0<br>**2.** 81.4%**<br>**3.** 16.7%** | **1.** Ni thorrwyd y lefel amcan blynyddol o nitrogen deuocsid yn 2020. Mae hyn yn adlewyrchu'r effaith a gafodd pandemig Covid-19 ar lif traffig yn Sir Fynwy. Am y bumed flwyddyn yn olynol, ni fu'r lefel ym Mrynbuga yn uwch na'r amcan. Mae hyn yn welliant ers y cyfnod monitro blaenorol ac yn dangos effeithiau'r pandemig. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro yn Adroddiadau Monitro blynyddol y dyfodol.<br><br>**2 – 3.** Cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drwy gerdded neu seiclo. Daw'r ystadegau dull teithio i'r gwaith hefyd o Gyfrifiad 2011 sy'n dangos fod 81.4% o bobl a gyflogid yn defnyddio eu car/fan eu hunain fel eu prif ffordd o deithio i ac o'r gwaith. Ni chyhoeddir data tan y Cyfrifiad nesaf yn 2021, ac fel canlyniad ni fydd modd rhoi cymhariaeth ystyrlon tan yr adeg honno. Bydd y data felly'n parhau'r un fath yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Asesiad Cynaliadwyedd.** |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Ansawdd dŵr | Cadw a gwella ansawdd dŵr daear, wyneb ac arfordirol | **1.** % o afonydd yn cyrraedd ansawdd dŵr 'da' (+)<br>**2.** Cyfran o'r safleoedd a ddyrannwyd a phob datblygiad arall dros 10 annedd/1ha sy'n cynnwys SuDS (+) | **1.** 32%***<br>**2.** 2 o 5 | **1.** Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyfuno statws ecolegol a chemegol yn ei adroddiadau, bydd angen i'r corff dŵr wyneb gyrraedd statws dda yn y ddwy elfen er mwyn cyrraedd 'statws da' cyffredinol. Yn Nosbarthiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2018 interim), mae 32% o afonydd Sir Fynwy yn cyrraedd statws 'Da'.<br><br>**3.** O'r 5 cais a ganiatawyd, roedd 2 yn cynnwys SuDS. Mae'r ddau hyn yn cyfeirio at gynlluniau preswyl, 1 am 24 uned gofal agos (C2) ar safleoedd cyflogaeth dynodedig Westgate (SAE1d) a'r llall am 11 annedd ar safle SAH11(xiv)(a) yn Drenewydd Gellifarch. Mae'r safleoedd yn cynnwys tirlunio, basinau cadw palmant hydraidd fel mesurau SuDS.<br><br>**4.** Er na chafodd SuDS eu hymgorffori'n llwyr yn yr holl brif ddatblygiadau yn ystod y cyfnod monitro, ymddengys fod cyfiawnhad dros ddiffyg SuDS mewn llawer o achosion a chaiff y rhesymeg am ddiffyg SuDS ei gydnabod o fewn rhai o fanylion ceisiadau ac adroddiadau swyddogion. Mae nifer y datblygiadau mawr a ganiatawyd wedi gostwng ers y cyfnod monitro blaenorol lle caniatawyd 10 cynllun o'r fath. Mae'r gyfran o'r cynlluniau sy'n cynnwys SuDS wedi parhau ar 40%, yr un fath â'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol o gymharu â 23% yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn debyg o fod oherwydd y rheoliadau newydd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2019. Caiff y dangosydd hwn ei fonitro'n agos yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Cyflenwad dŵr | Cynnal ansawdd y dŵr sydd ar gael yn cynnwys cyflenwadau dŵr yfed a lefelau dŵr daear ac afonydd | **1.** Cyfran cyrff dŵr daear yn cyrraedd statws ansawdd 'da' (+) | **1.** 100%*** | **1.** Mae Sir Fynwy o fewn tri chorff dŵr daear, Hen Dywodfaen Goch Ddefonaidd Wysg (ORS), ORS Defonaidd Eilaidd Gwy a Chalchfaen Garbonifferaidd ddeheuol Gwy. Cafodd pob un o'r tri chorff dŵr daear statws da am faint o gymharu â chyfnod monitro 2015. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn gynhyrchu dosbarthiad blynyddol ac felly mae'r ffigurau'n aros yr un fath ag yn y chwe cyfnod monitro blaenorol. Serch hynny caiff y dosbarthiad nesaf ei gynhyrchu ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basin Afon diweddaraf a dylid eu cynhyrchu mewn pryd ar gyfer yr Adroddiad Monitro blynyddol nesaf.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd** |
| Risg llifogydd | Sicrhau y caiff datblygiad newydd ei ddylunio a'i leoli i osgoi risg llifogydd, a bod hyn yn sicrhau na chaiff risg llifogydd ei godi mewn man arall | **1. Nifer caniatâd a roddwyd ar gyfer datblygu ym Mharthau Llifogydd C1 a C2 heb gyrraedd holl brofion TAN 15 (-)**<br>**2.** Cyfran safleoedd a ddyrannwyd a phob datblygiad arall dros 10 annedd/1ha sy'n cynnwys SuDS (+)<br>**3.** Achosion lle bu llif isel yn yr haf (-) | **1.** 0<br>**2.** 2 o 5<br>**3.** 0*** | **1.** Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw gais sy'n groes i ofynion TAN 15 naill ai yng ngorlifdir Parth C1 na C2 yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn ailadrodd canlyniadau y cyfnod monitro blaenorol.<br><br>**2.** O'r 5 cais a ganiatawyd, roedd 2 yn cynnwys SuDS. Roedd y ddau gais hyn yn gysylltiedig â chynlluniau preswyl, 1 am 24 uned gofal achos (C2) ar safle cyflogaeth dynodedig Westgate (SAE1d) a'r llall am 11 annedd yn safle SAH11(xiv)(a) yn Drenewydd Gellifarch. Mae'r safleoedd yn cynnwys tirlunio, basinau cadw pafinau hydraidd fel mesurau SuDS.<br><br>Er na chafodd SuDS ei gynnwys yn llwyr yn yr holl ddatblygiadau mawr yn ystod y cyfnod monitro, ymddengys fod cyfiawnhad dros ddiffyg SuDS mewn llawer o'r achosion a chaiff y rhesymeg am ddiffyg SuDS ei gydnabod o fewn rhai o fanylion y cais ac adroddiadau swyddogion. Mae nifer y datblygiadau mawr a ganiatawyd wedi gostwng ers y |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyfnod monitro blaenorol pan ganiatawyd 10 cynllun o'r fath. Mae'r gyfran o gynlluniau sy'n cynnwys SuDS wedi parhau ar 40%, yr un fath â'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol o gymharu gyda 23% yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2018/19. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o fod oherwydd y rheoliadau newydd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2019. Caiff y dangosydd ei fonitro'n agos yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.<br><br>**3.** Mae tair gorsaf monitro afon allweddol yn Sir Fynwy ar yr Afon Wysg, yr Afon Gwy a'r Afon Mynwy. Mae'r data llif yn seiliedig ar y dyddiau lle mae'r rhain wedi syrthio dan lif Q95 yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021. Q95 yw'r 95fed canradd, gan olygu fod y llif yn fwy na hyn am 95% o'r amser ac yn is na hyn am 5% o'r amser. Ar gyfartaledd, mae llif dan Q95 am tua 18 diwrnod y flwyddyn. Caiff ei ddefnyddio'n aml fel dangosydd nodweddiadol o lif isel yr haf. Yn y cyfnod monitro diweddaraf, gostyngodd llif dan Q95 mewn 2 o'r 3 gorsaf monitro, sef yn yr Afon Gwy a'r Afon Wysg. Yng ngorsaf monitro yr Afon Gwy roedd llif dan Q95 am 17 diwrnod ac yng ngorsaf monitro'r Afon Gwy am 2 diwrnod. Yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (2019-2020, cofnododd pob un o'r tair gorsaf monitro lif dros Q95.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Mwynau a gwastraff | Sicrhau y caiff deunyddiau a mwynau sylfaenol eu rheoli mewn ffordd | **1. Nifer y datblygiadau parhaol y tu allan i fwynhau a ganiatawyd ar safleoedd gwarchodedig nad** | **1.** 0<br>**2.** 64.60%****<br>**3.** 0ha wedi ei ganiatáu<br>**4.** 0 | **1.** Ni roddwyd caniatâd i unrhyw gais am ddatblygiadau parhaol y tu allan i fwynau ar safleoedd a ddiogelwyd nad oedd yn cydymffurfio gyda Pholisi M2 yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn debyg i'r cyfnod monitro blaenorol. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | gynaliadwy, drwy ddiogelu ardaloedd mwynol, annog ailddefnyddio ac ailgylchu ac osgoi gwaredu terfynol ar adnoddau | **ydynt yn cydymffurfio â Pholisi M2 (-)**<br>**2.** Cyfran casgliadau gwastraff cartrefi Sir Fynwy a gaiff eu hailgylchu a'u compostio (+)<br>**3. Faint o gapasiti rheoli gwastraff a ganiatawyd a ddangosir fel canran o'r cyfanswm capasiti gofynnol fel y'i dynodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol**<br>**4. Faint o adnoddau agregau sylfaenol a enillwyd a dir fel canran o'r cyfanswm capasiti a ddynodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.** | | **2.** Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnod 2019 - 2020 sy'n awgrymu y cafodd 64.6% o gyfanswm gwastraff aelwyd Sir Fynwy ei ailgylchu neu ei gompostio (seiliedig ar y gwastraff bwrdeisiol a gasglwyd/cynhyrchwyd yn unol â'r dangosydd). Mae hyn wedi cynyddu ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol sy'n dangos y cafodd 61.6% ei ailgylchu neu ei gompostio. Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.<br><br>**3.** Ni roddwyd unrhyw ganiatâd ar gyfer capasiti rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod monitro. I gael gwybodaeth bellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at Gymru.<br><br>**4.** Ni chafodd unrhyw agregau sylfaenol a enillwyd o'r tir eu hechdynnu dros y cyfnod monitro. Ni fu felly unrhyw ostyngiad yn y gronfa dir yn Sir Fynwy. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at Fwynau.<br><br>**Parhau i fonitro amcan yr Asesiad Cynaliadwyedd.** |
| Tir/pridd | Defnyddio tir yn effeithiol drwy roi blaenoriaeth i ddatblygiad ar dir a ddatblygwyd yn | **1. Cyfran datblygiad a ganiatawyd ar dir glas fel canran o'r holl ddatblygiad ac eithrio deiliaid tai, addasu** | **1.** 71.7%<br>**2.** 11.7ha<br>**3.** 28.2dpha<br>**4.** 0ha | **1**. Caniatawyd cyfanswm o 21.002ha hectar o ddatblygiad dros y cyfnod monitro, 15.052ha ohono ar safleoedd tir glas. Roedd hyn yn gyfwerth â 71.7% o'r holl ddatblygiadau (ac eithrio deiliaid tai, addasu adeiladau ac adeiladau amaethyddol) a ganiatawyd ar dir glas. Mae faint o dir glas a ganiatawyd ar gyfer datblygiad yn is na'r tri chyfnod |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | flaenorol lle'n bosibl a defnyddio tir presennol yn effeithiol drwy drin llygredd a diogelu pridd amaethyddol gradd uwch. | **adeiladau ac adeiladau amaethyddol (dim newid neu -)**<br>**2. Faint o dir glas a gollwyd i ddatblygiad na chafodd ei ddyrannu yn y cynllun datblygu.**<br>**3.** Dwyseddau cyfartalog blynyddol datblygiadau tai newydd (+)<br>**4.** Hectarau tir amaethyddol Gradd 3a a gwell a gollwyd i ddatblygiad mawr* (ac eithrio dyraniadau Cynllun Datblygu Lleoli a datblygiadau amaethyddol)' | | monitro blaenorol (2019-2020; 19.79ha (79%) ,2018-2019; 25.27ha (87.1%), 2017-2018; 32.12ha (59.8%).<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn.<br><br>**2.** Dros y cyfnod monitro rhoddwyd 27 caniatâd ar dir llwyd heb ei ddyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol, gan fod yn gyfanswm o 11.7 hectar. Mae hyn yn ostyngiad ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (18.27ha) a'r trydydd swm isaf o dir glas heb ei ddyrannu a ganiatawyd. (2014-15: 26ha, 2015-16: 44.6ha, 2016-17: 16.5ha, 2017-18: 8.98ha, 2018-19: 9.71ha, 2019-20: 18.27ha). I gael manylion pellach gweler Dadansoddiad Polisi Tirlun, Seilwaith Gwyrdd ac Amgylchedd Naturiol yn Adran 5.<br><br>**3.** Roedd dwysedd cyfartalog blynyddol yr holl ddatblygiadau tai newydd yn gyfwerth â 28.2 annedd fesul hectar. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r ddau Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol 23.65 dpha (2019-2020) a 27.95 dpha (2018-2019). Fodd bynnag, mae'n is nag Adroddiad Monitro Blynyddol 2017-2018 (29.1 dpha). Er bod y ffigur hwn hefyd yn uwch na'r tri Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf a gofnododd 23.5 dpha (2016-2017) 22 dpha (2015-2016) a 21 dpha (2014 - 2015), nodir fod canlyniad eleni yn seiliedig ar ddim ond un cais gan mai dim ond un safle dros 10 annedd a gafodd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **4.** Ni chafodd unrhyw dir amaethyddol ar Radd 3a ac uwch ei golli oherwydd datblygiadau sylweddol yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Ynni | Sicrhau gwelliannau mewn effeithlonrwydd ynni ym mhob adeilad newydd ac annog cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy | **1. Nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (h.y. caniatâd yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol a gafodd eu cwblhau dros gyfnod monitro 2020-2021)** | **1.** 0 | **1.** Ni chafodd unrhyw gynlluniau yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar safle eu cwblhau dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu ag Adroddiadau Monitro Blynyddol y gorffennol. Fodd bynnag, dylid nodi ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014, y cafodd cyfanswm o 11 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar safle eu cwblhau ac yn weithredol ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Cyflogaeth | Darparu amrywiaeth o swyddi o fewn Sir Fynwy sy'n helpu i ddiwallu anghenion y gweithlu preswyl | **1. Cyflenwad/datblygiad a defnydd net tir cyflogaeth (+)**<br>**2. Faint o dir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau y tu allan i gyflogaeth**<br>**3. Cyfran o'r gweithlu preswyl yn gweithio yn Sir Fynwy (+)** | **1.** Cyflenwad 40.16ha, Defnydd 0.3803ha<br>**2.** 1.21ha<br>**3.** 56.9%*****<br>**4.** 21.9km**<br>**5.** Y Fenni: 7.6%, Cil-y-coed:13.4%, | **1.** Dynododd y Papur Cefndir Tir Cyflogaeth bod 40.16ha o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir (mae'r cyflenwad yn cyfeirio at SAE1 Safleoedd Diwydiannol a Busnes Dynodedig yn unig) gan olygu fod digon o dir cyflogaeth yn parhau ar gael. Roedd cyfradd defnydd tir cyflogaeth yn 0.3803ha dros y cyfnod monitro. Mae'r defnydd[9] yn is nag yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (3.7364ha) ac yn debyg i'r defnydd a gofnodwyd yn 2014-15. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5.<br><br>**2.** Cafodd pedwar cais eu rhoi yn ystod y cyfnod monitro sy'n cyfeirio at golli defnyddiau B ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd neu a |

[9] Mae defnydd tir cyflogaeth yn cyfeirio at SAE1 Safleoedd Diwydiannol a Busnes a Ddynodwyd, SAE2 Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig a Safleoedd Defnydd Cymysg.

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | **4.** Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-)<br>**5. Canran unedau gwag o fewn ardaloedd siopa canolog pob tref a chanolfan leol** | Cas-gwent: 13.5%, Trefynwy: 15.4%, Magwyr: 0%, Rhaglan: 9.1%, Brynbuga: 9.8% | warchodwyd (SAE1 a SAE2) oedd yn golled o 1.21ha. I gael mwy o wybodaeth gweler Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5.<br><br>**3.** Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru yn dynodi fod 56.9% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardaloedd eu hunain i weithio. Gostyngodd y ffigur hwn gan 3.2% ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigur hwn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach a dylai felly gael ei drin yn ofalus.<br><br>**5.** Roedd y pellter cyfartalog teithio i waith yn 21.9km adeg Cyfrifiad 2011. Ni chyhoeddir data tan y Cyfrifiad nesaf yn 2011, ac fel canlyniad ni fydd modd cael cymhariaeth ystyrlon tan yr adeg honno. Bydd y data hwn wedyn yn aros yr un fath yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol.<br><br>**5.** Cynyddodd cyfradd unedau gwag a gofnodwyd yn ardaloedd siopa canolog holl drefi a chanolfannau lleol y Sir heblaw am Frynbuga (9.8%), Magwyr (0%) a Rhaglan (9.1%). Mae'r cyfraddau unedau gwag eraill yn cynnwys y Fenni (7.6%), Cil-y-coed (13.4%), Cas-gwent (13.5%), Trefynwy (15.4%). Mae'r cynnydd mewn cyfraddau unedau gwag yn debyg o fod yn ganlyniad i bandemig Covid-19, fodd bynnag ac eithrio Trefynwy, mae'r holl ardaloedd siopa canolog eraill yn parhau dan gyfradd unedau gwag Stryd Fawr y Deyrnas Unedig o 13.7% ym mis Rhagfyr 2020 (Local Data Company). I gael manylion llawn gweler y Dadansoddiad Polisi Manwerthu yn Adran 5.<br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Creu cyfoeth | Cynyddu ffyniant ac ansawdd bywyd drwy ddatblygu economi lleol mwy hunan-gynhaliol gan annog twf cynhenid | **1.** Amrywiaeth o safleoedd SAE1/SAE2/Defnydd Cymysg Dynodedig, maint a dosbarthiad ar gael<br>**2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl anheddiad**<br>**3. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl sector**<br>**4. Cyfran gweithlu preswyl yn gweithio yn Sir Fynwy (+)**<br>**5. Nifer y bobl yn teithio i'r gwaith yn Sir Fynwy**<br>**6. Nifer y bobl yn teithio i'r gwaith allan o Sir Fynwy**<br>**7.** Gwariant twristiaeth (+)<br>**8. Nifer cynlluniau arallgyfeirio/mentro** | **1.** Gweler y tabl yn yr adran sylwadau<br>**2.** Prif Drefi: 0.30ha, Glannau Hafren: 3.47ha, RSS: 0ha, Gwledig Cyffredinol: 1.27ha<br>**3.** Gweler y tabl yn yr adran sylwadau.<br>**4.** 56.9%*****<br>**5.** 19,000*****<br>**6.** 19,600*****<br>**7.** £81.16 miliwn ******<br>**8.** 8<br>**9.** 14<br>**10.** 3 | **1.** Mae'r tabl islaw yn dynodi'r amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth ar draws y Sir yn ôl lleoliad ynghyd â maint y safleoedd sydd ar gael. Er fod cyfran fawr o'r tir ym Magwyr, mae dosbarthiad ar draws y Prif Drefi ac yn rhai o'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd. |

| Cyfeirnod Safle | Enw/Lleoliad Safle | Dosbarth Defnydd Safle | Tir gweddilliol ar gael (ha) |
|---|---|---|---|
| SAE1a | Wales One, Magwyr (gorllewin) | B1 | 4.0 |
| SAE1b | Quay Point, Magwyr | B1/B2/B8 | 13.76 |
| SAE1c | Gwent Europark, Magwyr | B8 | 13.3 |
| SAE1d | Westgate, Llan-ffwyst | B1/B2 | 1.3 |
| SAE1e | Heol Rhosan, Y Fenni | B1/B2 | 1.5 |
| SAE1f | Newhouse Farm, Cas-gwent | B2/B8 | 4.0 |
| SAE1g | South Woodside, Brynbuga | B1 | 1.3 |
| SAE1h | Pill Row, Cil-y-coed | B1/B8 | 1.0 |
| SAE2w | Wales One, Magwyr | B1/B2/B8 | 0.57 |
| SAH2 | Heol Crug, Porthysgewin | B1 | 1.0 |
| SAH3 | Fairfield Mabey, Cas-gwent | B1 | 0.65 |

<table>
<tr><th>Pennawd</th><th>Amcan</th><th>Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd</th><th>Data</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>gwledig a gymeradwywyd<br>9. Nifer cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd<br>10. Nifer cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygiad, newid defnydd neu ddymchwel</td><td></td><td>
<table>
<tr><td>SAH4</td><td>Heol Wonastow, Trefynwy</td><td>B1</td><td>2.78</td></tr>
<tr><td>SAH5</td><td>Fferm Rockfield, Gwndy</td><td>B1</td><td>2.0</td></tr>
</table>
<br>
2. Ardal Glannau Hafren oedd yn cyfrif am y mwyaf o ganiatâd a roddwyd yn ymwneud â chyflogaeth yn ystod y cyfnod monitro, gan fod yn gyfwerth â 3.47ha. Roedd yr aneddiadau Gwledig Cyffredinol yn dilyn gyda 1.27ha ac yna’r Prif Drefi gyda 0.30ha. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5.<br><br>
3. Dim ond lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cyflogaeth dros y cyfnod monitro mae’r tabl islaw yn ei ddynodi. Roedd y gyfran fwyaf o ofod llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiatawyd yn ymwneud â Gweithgynhyrchu. I gael rhestr lawn sectorau a gwybodaeth ychwanegol, gweler Dadansoddiad Polisi yr Economi a Menter yn Adran 5.<br><br>
<table>
<tr><th>Sector</th><th>Maint (ha)</th></tr>
<tr><td>Gweithgynhyrchu</td><td>3.13ha</td></tr>
<tr><td>Cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau a beiciau modur</td><td>0.1ha</td></tr>
<tr><td>Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu</td><td>0.61ha</td></tr>
<tr><td>Gweithgareddau stad tiriog; gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a</td><td>1.20ha</td></tr>
</table>
</td></tr>
</table>

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | <table><tr><td>thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gwasanaeth cefnogi</td><td></td></tr></table><br><br>**4.** Dengys ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru fod 56.9% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardaloedd eu hunain i weithio. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng gan 3.2% ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hwn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac y dylid felly ei drin yn ofalus.<br><br>**5 – 6.** Dynododd Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2020 gyfanswm o 19,000 yn cymudo i mewn i Sir Fynwy a 19,600 yn cymudo allan o Sir Fynwy. Bu cynnydd bach yn y lefel o fewn-gymudo ers y cyfnod monitro blaenorol (2019 – 2020: 18,900) gyda chynnydd sylweddol yn lefel yr all-gymudo (2019 – 2020: 17,700), gan arwain at all-lif net o gymudwyr. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac y dylid felly ei drin yn ofalus. Mae'r Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5 yn rhoi dadansoddiad pellach o'r wybodaeth yma.<br><br>**7.** Dynododd adroddiad STEAM Sir Fynwy (2020) gyfanswm gwariant blynyddol twristiaeth yn £81.16 miliwn dros gyfnod 2020. Mae hyn yn cymharu gyda £244.99 miliwn dros gyfnod 2019, yn gyfystyr â gostyngiad o 67.7%. Er fod hwn yn ostyngiad sylweddol ers y cyfnod blaenorol, mae'n adlewyrchu'r effaith a gafodd pandemig Covid-19 ar y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn genedlaethol. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **8.** Cymeradwywyd cyfanswm o 8 cais yn ymwneud ag arallgyfeirio/menter gwledig yn ystod y cyfnod monitro. Roedd 6 o'r ceisiadau a gymeradwywyd yn gynlluniau menter gwledig a 2 gais yn arallgyfeirio gwledig ffermydd presennol. Mae manylion llawn hyn ar gael yn Nadansoddiad Polisi Menter Gwledig yn Adran 5.<br><br>**9 – 10.** Cymeradwywyd cyfanswm o 14 cynllun twristiaeth dros y cyfnod monitro, i gyd yn gyfleusterau llety twristiaeth. Roedd hyn yn cynnwys addasu 5 adeilad i fod yn llety gwledig, estyniad i westy presennol yn Wyesham, Trefynwy, 6 safle glampio a 2 cais newid defnydd.<br><br>Cymeradwywyd tri chais cynllunio oedd yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth dros y cyfnod monitro. Roedd dau o'r ceisiadau'n ymwneud a dileu amodau gosod gwyliau a'r trydydd at newid defnydd gwesty presennol yn Pandy i 2 annedd. Rhoddwyd cyfiawnhad ar gyfer pob un o'r tri chais o fewn fframwaith polisi cyffredinol y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r Dadansoddiad Polisi Economi Ymwelwyr yn Adran 5 yn rhoi manylion llawn y math o gyfleusterau twristiaeth a sicrhawyd dros y cyfnod monitro.<br><br>**Parhau i fonitro amcan Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |

*Datblygiad mawr – datblygiad yn cynnwys un neu fwy o'r dilynol: datblygiadau o 10 neu fwy annedd neu 0.5ha neu fwy ar gyfer ceisiadau amlinellol a llawn; datblygu adeilad neu adeiladau lle mae'r gofod llawr a gaiff ei greu yn 1000$m^2$ neu fwy; datblygiadau ar safle gydag arwynebedd o 1ha neu fwy; ennill

neu weithio mwynau, neu ddefnyddio’r tir ar gyfer adneuon gweithio mwynau; neu ddatblygu gwastraff.
**Ffigur o Gyfrifiad 2011
*** Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.
**** Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru
*****Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru (2019)
******Adroddiad STEAM Sir Fynwy (2019)
******* Mae hwn yn un o ddau ddangosydd newydd a ychwanegwyd yn lle’r dangosydd blaenorol o gyflenwad tir tai pum mlynedd er mwyn adlewyrchu gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020) yn dilyn diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir Tai (Ionawr 2015).

# 7 Casgliadau ac Argymhellion

7.1 Hwn yw'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei baratoi ers y cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ei fabwysiadu. Gan y bu'r Cynllun Datblygu Lleol yn weithredol ers saith mlynedd, daeth tueddiadau i'r amlwg drwy'r broses fonitro am ba bolisïau sy'n gweithredu fel y bwriedid iddynt a pha rai sydd ddim. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos cynnydd da wrth gyflawni llawer o bolisïau'r Cynllun gyda thargedau a ddynodwyd yn cael eu cyrraedd a bod Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau'n gadarn. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn dangos nad oes rhai elfennau o'r Cynllun yn datblygu fel y bwriedid iddynt.

7.2 Mae Adran 5 yn rhoi asesiad manwl o sut mae polisïau strategol y Cynllun, a pholisïau cefnogi cysylltiedig, yn perfformio ar y targedau a deilliannau monitro allweddol a ddynodwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ddod i farn wybodus am gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/deiliannau monitro a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg gweledol o effeithlonrwydd polisïau'r Cynllun yn ystod y cyfnod monitro presennol yn seiliedig ar y sgôr goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad.

7.3 Drwyddi draw, mae'r cynllun yn gweithio'n effeithlon gyda mwyafrif y targedau monitro yn cael eu cyflawni, er fod hyn ychydig yn is nag Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd. Bu hefyd gynnydd bach yn nifer y dangosyddion nad ydynt wedi cyrraedd y targed eleni, ond mae cyfiawnhad priodol, ac ni chodwyd unrhyw bryderon. Fodd bynnag, bu hefyd cynnydd yn y sgôr 'coch' a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro presennol o gymharu gydag Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20 (3 sgôr coch o gymharu ag 1 yn 2019-20). Mae hyn oherwydd cynnydd mewn cyfraddau unedau gwag yn nhrefi y Fenni a Threfynwy. rhoddir sylwadau pellach islaw.

| | |
|---|---|
| Cyrraedd targedau / deilliannau monitro* | **54** |
| Nid yw targedau / deilliannau monitro* yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd ond dim pryderon am weithrediad y polisi | **29** |
| Nid yw targedau / deilliannau monitro yn cael eu cyrraedd gyda phryderon dilynol am weithrediad y polisi | **3** |
| Ni fedrir dod i unrhyw gasgliad oherwydd mai data cyfyngedig sydd ar gael neu ddim data perthnasol | **5** |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun, caiff y deilliannau monitro eu hasesu a rhoddir sgôr iddynt yn unol â hynny.

## Canfyddiadau Allweddol

7.4 Dengys gwybodaeth a gasglwyd drwy'r broses fonitro fod y rhan fwyaf o dargedau dangosydd a deilliannau monitro yn cael eu cyrraedd (sgôr golau traffig gwyrdd), gan ddangos fod polisïau perthnasol y Cynllun yn perfformio fel y bwriedid iddynt. Mae'r llwyddiannau mwyaf sylweddol yn cynnwys y dilynol: gwyrdd

**Strategaeth a Thai**

- Cafodd chwech o'r saith safle tai strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ganiatâd ers mabwysiadu'r Cynllun gyda chais yn cael ei ystyried ar y seithfed yn Vinegar Hill, Gwndy.
- Gwnaed cynnydd gyda chaniatâd wedi'i roi ar gyfer saith annedd ar safleoedd Gwledig Eilaidd SAH10(i) – Cwrt Burrium, Brynbuga a Dyraniad Prif Bentref SAH11(xiv)(a) – tir i'r dwyrain o Drenewydd Gellifarch am 11 uned (yn cynnwys tir ger y dyraniad). Cymeradwywyd materion a gadwyd yn ôl hefyd ar SAH11(ix)(a) – tir i gefn Carpenter's Arms, Llanisien ar gyfer 8 annedd.
- Mae cynnydd yn parhau tuag at weithredu'r strategaeth ofodol, gyda 52% o anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd. Roedd safleoedd mawr ar hap yn 29% o'r anheddau a gwblhawyd a safleoedd bach y 19% arall. Fe wnaeth caniatâd a roddwyd ar gyfer unedau preswyl hefyd aros o fewn yr ystod targed ar gyfer prif drefi mwyaf cynaliadwy y Sir, er yn seiliedig ar lai o ganiatâd.

**Economi a Menter**

- Mae gan y Sir gyfanswm o 40.16 hectar o dir cyflogaeth ar gael, gan ddangos fod digon o dir cyflogaeth ar gael i gadw'r gyfradd defnydd a ddynodwyd.
- Cymeradwywyd cais cynllunio i amrywio'r dosbarthiadau defnydd B a ganiateir ar safleoedd SAE1 a ddyrannwyd yn Gwent Euro Park, gan wneud y safle yn fwy hyblyg a rhwyddach ei gosod.
- Bu cynnydd yn nhermau caniatâd cyflogaeth o fewn y Sir, gyda naw caniatâd arall wedi eu rhoi ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth dosbarth defnydd B ar safleoedd cyflogaeth gwarchodedig (SAE2) ac mewn man arall yn y Sir, er enghraifft fel cynlluniau arallgyfeirio gwledig a menter gwledig, gan roi cyfleoedd cyflogaeth mewn amrywiaeth o sector (8 cais wedi eu cymeradwyo).
- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion am 14 cais cysylltiedig â thwristiaeth, yn amrywio o osodiadau gwyliau a gwestai i gyfleusterau glampio. Dengys cymhariaeth gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol fod nifer y cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro presennol yn parhau ar lefel gadarnhaol. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Cynaliadwy (Tachwedd 2017) wedi helpu i egluro ein cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y sector pwysig yma o'n heconomi.

**Manwerthu a Chyfleusterau Cymunedol**

- Mae cyfraddau unedau gwag yng nghanol Magwyr  a Brynbuga wedi gostwng ers y cyfnod monitro blaenorol, gyda Rhaglan yn parhau ar yr un lefel.
- Mae'r gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiadau siopa y drefi yn gyffredinol yn cydymffurfio gyda'r trothwyon a ddynodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa.
- Cymeradwywyd tri chais cynllunio ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y rhain yn cynnwys parc ac ardal chwarae cymunedol, newid defnydd hen lein reilffordd i lwybr beiciau a llwybr troed a siop gymunedol, caffe a chegin addysgu.

**Yr Amgylchedd**

- Caniatawyd cyfanswm o 21.002ha o ddatblygiad dros y cyfnod monitro, gyda 6ha wedi ei leoli ar safleoedd tir llwyd. Roedd hyn yn gyfwerth â 28.3% o'r holl ddatblygiadau (ac eithrio deiliaid tai, addasu adeiladau ac adeiladau amaethyddol) ac mae'n gynnydd ar ffigur y llynedd o 21%. Mae'r gymhareb o ddatblygiad tir glas/tir llwyd yn dangos y tir llwyd cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer ei ddatblygu o fewn y Sir.
- Nid oes unrhyw geisiadau newydd wedi arwain at golli gofod amwynder agored neu niwed i werth cadwraeth natur cyffredinol safleoedd lleol a ddynodwyd.
- Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw gais yn groes i ofynion TAN 15 yng ngorlifdir naill ai Parth C1 neu C2 dros y cyfnod monitro.
- Cofnodwyd un cais ar gyfer arae solar graddfa-fach yn ystod y cyfnod monitro. Mae'n bwysig nodi, serch hynny, nad yw'r monitro yn cynnwys cynlluniau deiliaid tai a bod mwyafrif y cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa lai yn dod dan ddatblygiad a ganiateir ac felly nad ydynt yn dod yn rhan o'r system cynllunio.
- Mae digonedd o dir yn parhau i fod ar gael ar gyfer safleoedd rheoli gwastraff posibl ac ni fu unrhyw ostyngiad yn y banc tir mwynau.
- Nid oedd unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli adeiladau rhestredig neu safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a fyddai wedi cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol.

7.5 Dengys hyn fod llawer o'r fframwaith polisi yn gweithredu'n effeithlon gan alluogi datblygiad priodol i ddigwydd ac y gwnaed cynnydd da wrth weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol.

7.6 Dengys y dadansoddiad hefyd fod gwahanol ddangosyddion polisi nad ydynt yn cael eu cyflawni ond nid oes unrhyw bryderon cyfatebol am weithredu polisi (sgôr golau traffig oren). Penderfynodd ymchwiliad pellach fod rhesymau yn cyfiawnhau'r perfformiad a gofnodwyd ac nad yw hyn yn dangos unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu'r fframwaith polisi neu strategaeth ar hyn o bryd. Y canfyddiadau mwyaf arwyddocaol yng nghyswllt y rhain yw:

**Tai**

- Cafodd 419 annedd eu hadeiladu yn ystod y cyfnod monitro (348 marchnad gyffredinol a 71 fforddiadwy). Er i'r targed hwn gael ei gyrraedd gan bod nifer y tai a gwblhawyd wedi bod yn 10% yn is na chyfradd adeiladu'r strategaeth Cynllun Datblygu Lleol am ddwy flynedd yn olynol, mae'r nifer o dai y cofnodwyd iddynt

gael eu cwblhau dros y tri chyfnod monitro diwethaf wedi bod yn sylweddol uwch na'r rhai a gafwyd ym mlynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun, gan adlewyrchu cynnydd safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol mewn blynyddoedd diweddar.

- Mae nifer yr anheddau newydd a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro ar 86 annedd yn amlwg is na'r tair blynedd flaenorol, o 1,238 yn 2017 - 2018, 598 yn 2018 – 2019, 251 yn 2019 – 2020. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd cyfuniad o ffactorau ond yn bennaf oherwydd fod gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd ganiatâd cynllunio eisoes a bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cyrraedd camau olaf cyfnod y Cynllun. Mae ffactorau eraill yn cynnwys cyfnod clo Covid-19 a'r cyfyngiadau oedd ar waith drwy gydol y cyfnod monitro. Mae cyflwyno'r mesurau newydd ym mis Ionawr i reoli lefelau ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, sy'n cynnwys cyfran fawr o'r Sir, hefyd wedi dechrau effeithio ar nifer y caniatâd a roddwyd.
- Nid yw'r safleoedd tai strategol arall a ddyrannwyd yn Vinegar Hill, Gwndy wedi cael caniatâd cynllunio hyd yma. Fodd bynnag, er y bu'r cynnydd dechreuol yn araf, mae'r datblygydd (Bovis) wedi cyflwyno cais hybrid (DM/2019/01937) ar gyfer 155 annedd, 72 annedd fel cais llawn a 83 annedd fel amlinellol. Mae'r Trywydd Tai a baratowyd mewn cysylltiad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn rhagweld y bydd y safle yn dechrau yn y cyfnod monitro nesaf gan ragweld cwblhau yn 2022/23.
- Roedd cyfran caniatâd preswyl newydd yn aneddiadau Glannau Hafren yn is na'r targed a ddynodwyd. Mae un dyraniad tai strategol arall yng Nglannau Hafren heb gael caniatâd cynllunio eto – tir yn Vinegar Hill, Gwndy. Gall penderfynu ar y cais hwn yn y cyfnod monitro nesaf arwain at gyfran uwch o ganiatâd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.
- Roedd cyfran yr anheddau a gwblhawyd yn y Prif Drefi yn uwch na'r targed a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf oherwydd cyflenwi safleoedd a ddyrannwyd. Daeth y prif gyfraniadau o safle Heol Wonastow (SAH4) yn Nhrefynwy, safleoedd Fferm Deri (SAH1) a Choed Glas (SAH9) yn y Fenni a safle Fairfield Mabey (SAH3) yng Nghas-gwent. Mae dau safle hap yn y Fenni hefyd wedi cyfrannu at y gyfradd cwblhau gyffredinol. Eto, arhosodd yr anheddau a gwblhawyd o fewn ardal Glannau Hafren, Aneddiadau Gwledig Eilaidd a Gwledig Cyffredinol i gyd o fewn yr ystod derbyniol gan ddangos, yn gyffredinol fod tai yn cael eu cyflenwi yn unol â'r strategaeth ofodol.
- Mae cyfanswm nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd a gofnodwyd dros chwe blynedd mabwysiadu'r Cynllun (495 uned) yn parhau yn is na'r targed cyflenwi gofynnol o 672 uned fforddiadwy ar gyfer yr un cyfnod.
- Nid yw'r cyfran o anheddau fforddiadwy a ganiatawyd ar safleoedd o 5 neu fwy ym Mhrif Drefi y Sir a'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd wedi cyrraedd y targed o 35%, gan gyrraedd cyfradd o 23.5% eleni. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar ddim ond dau gais a bydd yn parhau i gael ei fonitro.
- Er y bu peth cynnydd gyda dyraniadau Prif Bentrefi (cyfanswm o 47 caniatâd annedd fforddiadwy a chwblhau 21 annedd fforddiadwy ers mabwysiadu'r

Cynllun), ni chyrhaeddwyd y targed i'r safleoedd hyn gyda'i gilydd gyflenwi 20 annedd fforddiadwy y flwyddyn. Fodd bynnag, mae dau ddyraniad Prif Bentref wedi datblygu yn ystod y cyfnod monitro (SAH11(xiv)(a)) – tir i'r dwyrain o Drenewydd Gellifarch (yn cynnwys tir yn agos at y dyraniad) a materion a gadwyd ar SAH11(ix)(a) – tir i gefn Carpenter's Arms, Llanisien ar gyfer 8 annedd.

**Economi a Menter**

- Rhoddwyd pedwar cais yn ymwneud â cholli defnydd B ar safleoedd a ddyrannwyd (SAE1) neu a ddiogelwyd (SEA2) yn cyfrif am golled o 1.2ha. Roedd tri chais yn cyfeirio at unedau neu dir ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd (SEA2) ac yn ymwneud â defnydd D2 (campfa), defnydd cymunedol Sui Generis a defnydd Sui Generis yn gysylltiedig gydag adeiladu A465 Heol Blaenau'r Cymoedd. Roedd y pedwerydd yn gysylltiedig â chymeradwyo cartref gofal ar safle SAE1 a ddyrannwyd, a gyfiawnhawyd oherwydd y swyddi a gynhyrchid a bod angen y cyfleuster yn y Sir.
- Caniatawyd tri chais yn ystod y cyfnod monitro yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth, dau ohonynt yn ymwneud â dileu amodau unedau gwyliau i ddefnydd preswyl a'r trydydd i newid defnydd gwesty i ddwy annedd. Fodd bynnag, ystyriwyd bod cyfiawnhad ar bob un o'r cynigion o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.

**Manwerthu a Chyfleusterau Cymunedol**

- Mae cyfraddau unedau gwag yn ardaloedd siopa canolog Cil-y-coed a Chas-gwent wedi codi. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yn achosi unrhyw bryderon ar unwaith gyda bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau.
- Ni chaniatawyd unrhyw ofod llawr manwerthu ychwanegol o fewn canol tref/canolfan leol yn ystod y cyfnod monitro. Gan y gymeradwywyd un cais ar gyfer siop gymunedol, caffe a chegin addysgu, oedd yn cynnwys 30msg o ofod llawr manwerthu tu allan i ganolfan a gafodd ei diffinio, cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd. Fodd bynnag, oherwydd maint y cais a'r buddion cymunedol yn gysylltiedig ag ef, ni ystyrir fod unrhyw bryderon gyda gweithredu y polisïau manwerthu.
- Cafodd un safle cymunedol ganiatâd ar gyfer defnydd arall yn ystod y cyfnod monitro. Fodd bynnag, mae cyfiawnhad am y golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.

**Yr Amgylchedd**

- Cafodd tua 11.7ha o dir ganiatâd ar dir glas heb ei ddyrannu yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn ostyngiad ar ffigur y llynedd; fodd bynnag, mae hyn yn parhau'n uwch na'r targed o golli dim tir maes glas heb ei ddyrannu. Fodd bynnag, ystyriwyd bod cyfiawnhad dros y golled ym mhob achos o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol adeg gwneud y penderfyniad.

7.7 Serch yr uchod, mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses fonitro wedi dynodi dau darged dangosydd polisi allweddol nad ydynt yn datblygu yn ôl y bwriad (golau traffig coch). Mae hyn yn cyfeirio at gyfraddau unedau gwag yn y Fenni a Threfynwy a chyfanswm ffigurau anheddau a gwblhawyd:

**Manwerthu a Chyfleusterau Cymunedol**

- Cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd gan fod cyfraddau unedau gwag wedi codi am ddwy flynedd yn olynol yn ardaloedd siopa canolog y Fenni a Thefynwy.

**Strategaeth a Thai**

- Mae cyfraddau cwblhau anheddau yn dangos tangyflawniad o -1,500 uned (33%) ar gyfer cyfnod y Cynllun pan gaiff ei fesur o gymharu â'r gofyniad cyfartalog cronnus sydd newydd ei gyflwyno (Adroddiad Monitro Blynyddol).

7.8 Fel y trafodir yn yr adran dadansoddi polisi, y llynedd cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i'r ffordd y caiff cyflenwad tai ei fonitro. Mae'r newidiadau yn dileu'r polisi cyflenwad tir tai pum mlynedd ac yn cyflwyno datganiad polisi yn ei le yn ei gwneud yn glir mai'r trywydd tai, fel a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ac a gytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, fydd y sail ar gyfer monitro cyflenwi gofynion tai'r cynllun datblygu fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y ffordd y dylid gwneud hyn ei osod yn y Llawlyfr cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) (Mawrth 2020).

7.9 Felly ychwanegwyd dau ddangosydd at Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd, sy'n cymryd lle'r dangosydd blaenorol oedd yn mesur y cyflenwad pum mlynedd o dir tai. Mae'r cyntaf o'r dangosyddion hyn yn mesur lefel flynyddol yr anheddau a gwblhawyd a gafodd ei fonitro o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Er i'r Cynllun dangyflawni ym mlynyddoedd cyntaf cyfnod y Cynllun, yn y cyfnodau monitro mwyaf diweddar bu nifer yr anheddau a gwblhawyd yn llawer nes at y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog, -7 uned (-1.6%) yn 2018/19 a -94 uned (20.9%) yn 2019/20 a -31 uned (6.9%) yn 2020/21. Mae hyn yn bennaf oherwydd pa mor gyflym y daeth safleoedd strategol ymlaen. O'r 7 safle strategol, mae 6 wedi cael caniatâd cynllunio erbyn hynny felly mae'n debygol y bydd y nifer a gwblheir yn debycach i'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog o hyn ymlaen. fodd bynnag, cafodd y sbardun ar gyfer adolygu'r Cynllun ei gyrraedd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol ac mae gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn mynd rhagddo.

7.10 Mae'r ail o'r dangosyddion hyn yn mesur cyfanswm cronnus yr anheddau a gwblhawyd wedi eu monitro o gymharu â'r gofyniad cronnus. Bu tangyflawni cronnus anheddau a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun o -1,500 uned ac felly cyrhaeddwyd y sbardun. Fodd bynnag, mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol mwy diweddar, mae'r % o dangyflawni wedi gostwng yn gyson wrth i'r safleoedd strategol ddod ymlaen. Medrir priodoli'r diffyg hwn yn bennaf i gyfnod arweiniol safleoedd tai strategol. Dengys y dadansoddiad a drafodwyd yng nghyswllt Polisi S2 – Darpariaeth Tai a S3 –

Safleoedd Tai Strategol bod mwyafrif yr anheddau a gwblhawyd ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun Datblygu Lleol yn dod o ymrwymiadau presennol o'r Cynllun blaenorol. Mewn blynyddoedd diweddar, fodd bynnag, wrth i Safleoedd Strategol sicrhau caniatâd, mae eu cyfraniad at gyfanswm yr anheddau a gwblhawyd wedi cynyddu ac amcanestynnir y byddant yn cwrdd neu'n rhagori ar y gofyniad cyfartalog blynyddol dros y 4 blynedd nesaf wrth i weddill y safleoedd gael eu hadeiladu, gan ostwng y diffyg.

7.11 Fel y dangosir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, mae cynnydd parhaus yn cael ei wneud wrth gyflwyno safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, gyda chwech o'r saith safle strategol bellach â chaniatâd cynllunio a chyflwyno cais ar y seithfed yn Vinegar Hill, Gwndy. Mae tri o'r saith safle yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd (Fferm Deri, Y Fenni, Fairfield Mabey, Cas-gwent a Melin Bapur Sudbrook, Sudbrook) a chafodd un safle ei chwblhau (Heol Wonastow, Trefynwy). Mae hyn yn dangos ei bod yn ymarferol cyflawni'r safleoedd strategol, fodd bynnag mae gan eu cyfradd cyflenwi arafach na'r disgwyl oblygiadau amlwg ar gyfer cyflenwi'r gofyniad tai ac mae'n cadarnhau'r angen i symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

7.12 Oherwydd y pwysigrwydd a roddwyd i'r cyflenwad o dir tai, dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi yr Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Caiff y sefyllfa ddiweddaraf ar y Cynllun Datblygu Lleol ei drafod islaw yn yr adran argymhellion.

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

7.13 Bydd y gwaith o baratoi/mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn parhau yn yr adroddiad monitro nesaf fel sy'n addas. Fodd bynnag, caiff adnoddau eu canolbwyntio ar y Cynllun Newydd.

**Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

7.14 Mae Adran 6 yn ehangu ar yr asesiad o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag amcanion monitro y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd sy'n helpu i ddangos y cysylltiad rhwng monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

7.15 Mae rhai o'r canfyddiadau amlycaf yn benodol i'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod monitro presennol yn cynnwys:

- Cymeradwywyd un datblygiad newydd mawr[10] yn ystod y cyfnod monitro - SAH11(xiv)(a) i'r de o is-heol, Drenewydd Gellifarch. Mae'r safle o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws aml a rheolaidd.

[10] Caiff datblygiad mawr ei ddiffino fel datblygiad sy'n ymwneud â mwy neu un o'r datblygiadau dilynol o 10 neu fwy o anheddau neu 0.5ha neu fwy; datblygu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr a gaiff ei

- Collwyd un goeden oedd â Gorchymyn Cadw Coeden oherwydd datblygiad y cyfnod monitro. Mae hyn yn gynnydd ar Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd.
- Ni aed yn uwch na lefel amcan flynyddol nitrogen deuocsid yn ystod y cyfnod monitro, gan adlewyrchu'r gostyngiad mewn llif trafnidiaeth fel canlyniad i Covid-19.
- Mae dau o'r pump cynnig a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol o dros 10 annedd/1ha yn cynnwys Systemau Draeniad Trefol Cynaliadwy (SUDS)[11] yn y cynllun. Mae cyfran y cynlluniau sy'n cynnwys SuDS wedi parhau ar 40%, yr un fath ag yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol.
- Gostyngodd lefelau llif dŵr dan lefelau llif yr haf mewn dwy o'r tair gorsaf fonitro, yr Afon Gwy am 17 diwrnod a'r Afon Wysg am 2 ddiwrnod. Arhosodd yr Afon Mynwy yn uwch na lefel llif yr haf.
- Cafodd 64.9% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae hyn wedi cynyddu ychydig bach ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol a ddangosodd i 61.60% gael ei ailgylchu neu ei gompostio.
- Ni chafodd unrhyw dir amaethyddol Gradd 3a ac uwch ei golli i ddatblygiad mawr dros y cyfnod monitro.
- Dynododd adroddiad STEAM Sir Fynwy (2020) fod cyfanswm gwariant blynyddol twristiaeth yn £81.16 miliwn dros gyfnod 2020. Roedd hyn yn cymharu gyda £244.99 miliwn dros gyfnod 2019, yn gyfwerth â gostyngiad o 67.7%. Er fod hyn yn ostyngiad sylweddol ers y cyfnod blaenorol, mae'n adlewyrchu'r effaith a gafodd pandemig Covid-19 ar y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch, a gaiff ei adlewyrchu yn genedlaethol.

**Casgliadau ac Argymhellion**

7.16 Yn gyffredinol, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos fod cynnydd da yn parhau i gael ei wneud wrth weithredu llawer o bolisïau'r Cynllun a bod y strategaeth yn parhau'n gadarn. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd yng nghyswllt Safleoedd Tai Strategol y Cynllun, mae cyfraddau cwblhau cronnus ar gyfer cyfnod y Cynllun yn is na gofynion y Cynllun ac yn parhau'n fater o bryder os yw amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ac anghenion tai cymunedau Sir Fynwy i gael eu cyflawni.

---

greu yn 1000m2 neu fwy; datblygiadau ar safle gydag arwynebedd o 1ha neu fwy; ennill neu weithio mwynau, neu ddefnyddio'r tir ar gyfer adneuon gweitho mwynau, neu ddatblygiad gwastraff.

[11] Mae SuDS yn ddatrysiadau draeniad sy'n rhoi dewis arall heblaw sianelu dŵr wyneb drwy rwydweithiau o bibelli a charthffosiaeth i gyrsiau dŵr cyfagos. Drwy efelychu systemau draeniad naturiol, nod SUDS yw gostwng llifogydd dŵr wyneb, gwella ansawdd dŵr a chynyddu gwerth amwynder a bioamrywiaeth yr amgylchedd. Mae SuDS yn cyflawni hyn drwy ostwng cyfraddau llif, cynyddu capasiti storio dŵr a gostwng cludo llygredd i'r amgylchedd dŵr (*Cymdeithas Ddaearegol Prydain).*

7.17 Oherwydd y pwysigrwydd a roddir i gyflenwi a chynnal cyflenwad cyson o dir tai, ym mis Mai 2018 penderfynodd y Cyngor i ddechrau gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer y Sir (ac eithrio'r ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, fydd yn cynnwys y cyfnod 2018-2033.

7.18 Caiff y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi, a gafodd ei ddiwygio ymhellach ym mis Hydref 2020 i roi ystyriaeth i oedi ym mhroses y Cynllun fel canlyniad i Covid-19 a'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn ymgynghoriad ar set ddiwygiedig o opsiynau twf a gofodol yn ystod Ionawr-Chwefror 2021 i roi ystyriaeth i'r amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf, cyhoeddwyd Strategaeth a Ffafrir ddiwygiedig ar gyfer ymgynghoriad ar gyfer cyfnod wyth-wythnos dros fisoedd Gorffennaf/Awst 2021.

7.19 Mae'n anochel fod yr oedi a nodir uchod wedi oedi paratoi a rhaglen fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, gydag ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau ar y gweill ar gyfer hydref 2022 a disgwyl mabwysiadu'r Cynllun ddiwedd 2023. Codwyd pryderon difrifol yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ddiwethaf yng nghyswllt y ddeddfwriaeth oedd yn ei lle ar y pryd yng nghyswllt dyddiau dod i ben y Cynllun Datblygu Lleol a dyddiad 'dydd y farn'pan fyddai'r Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd yn peidio bod ag unrhyw bwysau o gwbl ar ôl ei ddyddiad gorffen o 31 Rhagfyr 2021, heb unrhyw fframwaith polisi cynllunio i lywio gwneud penderfyniadau. Ym mis Medi 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn egluro nad yw'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru 2015 yng nghyswllt y cyfnod y mae cynllun yn weithredol yn berthnasol i Gynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd cyn 2016. Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016, yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy a fabwysiadwyd, yn parhau i fod y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio nes caiff ei olynu gan Gynllun Datblygu Lleol pellach [12]. Croesawyd yr eglurhad hwn ac mae'n sicrhau fod fframwaith polisi yn parhau yn ei le tra caiff y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei ddatblygu, gan roi sail i benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer parhau datblygu economaidd a chyfleoedd ar hap.

7.20 Fodd bynnag, mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cyrraedd diwedd ei gyfnod cynllun 15-mlynedd gyda chaniatâd cynllunio bellach gan chwech o'r saith dyraniad tai strategol. Er y bydd y rhain yn parhau i fod â rôl bwysig mewn cyfraddau cyflenwi a chwblhau tai yn y tymor byr wrth i'r safleoedd gael eu hadeiladu, mae'r gostyngiad yn yr anheddau a ganiatawyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn achos consyrn. Felly mae cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i ddarparu fframwaith polisi a dull parhaus ar gyfer trin materion demograffig a fforddiadwyedd allweddol y Sir yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.

[12] Llythyr Llywodraeth Cymru – 24 Medi 2020 – https://gov.wales/local-development-plan-ldp-end-dates-letter-local-authorities

7.21 Mae gan y cyhoeddiad yn ystod y cyfnod monitro am faterion ansawdd dŵr ffosffadau yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol yr Wysg a'r Gwy hefyd oblygiadau ar gyfer parhad datblygu yn y Sir. Er mai effaith gyfyngedig a gafodd y mesurau newydd ar lefelau caniatâd yn ystod y cyfnod monitro hwn oherwydd dyddiad cyflwyno mis Ionawr, codwyd pryderon yng nghyswllt yr effaith barhaus ar lefelau caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Fodd bynnag, gwneir cynnydd da wrth drin y mater ffosffadau a rhagwelir y gellir penderfynu a chytuno ar ddatrysiadau yn y tymor byr i hwyluso parhau i gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol a pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i geisio datrysiadau i'r mater ffosffadau ac mewn trafodaethau rhagweithiol gyda sefydliadau allweddol yn cynnwys Cyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru a'r diwydiant datblygu, i geisio datrysiadau hyfyw ac amserol yn yr aneddiadau yr effeithir arnynt. Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n barhaus.

7.22 Yng nghyswllt y cynnydd olynol mewn cyfraddau unedau gwag yn ardaloedd siopa canolog y Fenni a Threfynwy, gall hyn yn rhannol adlewyrchu effaith pandemig Covid-19 ar y stryd fawr ar draws Prydain, yn arbennig oherwydd colli rhai cadwyni cenedlaethol o'r canol trefi. Mewn ymateb, mae canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru [13] yn cydnabod, er y dylai datblygiadau manwerthu barhau i gael eu canolbwyntio mewn canol trefi, y dylid galluogi canolfannau manwerthu a masnachol i weithredu mor hyblyg ag sydd modd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd canolfannau manwerthu a masnachol yn hybiau gweithgaredd cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol ac yn ganolbwynt ystod amrywiol o wasanaethau a gweithgareddau/swyddogaethau diwylliannol sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Dylai'r dull gweithredu hwn alluogi'r system cynllunio i fod yn ymatebol, hyblyg a phragmatig i gynorthwyo gydag adferiad o Covid-19. Caiff unrhyw effeithiau o hyn ar ganol trefi y Sir ei gofnodi yn y cyfnod monitro nesaf.

7.23 I gefnogi canol trefi ymhellach, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr ym mis Mawrth 2021 yn gosod nifer o hawliau datblygu dros dro a ganiateir i ganiatáu newid defnydd rhwng dosbarth defnydd A (manwerthu a bwyd a diod) i hwyluso system gynllunio hyblyg i gynorthwyo gydag adferiad Covid-19.

7.24 Yn lleol, mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o fesurau interim ar waith pan oedd pandemig Covid-19 ar ei anterth, megis trwyddedau caffe stryd a rhoi blaenoriaeth i symudiadau cerddwyr ym mhob rhan o ganol trefi i hwyluso cyfyngiadau pellter cymdeithasol Covid-19. Bydd y Cyngor yn ystyried cyfleoedd i ymestyn y rheoliadau angenrheidiol i ganiatáu ystyried gwahanol fesurau treialu ynghyd ag adborth gan randdeiliaid perthnasol. Yn ychwanegol, drwy ei dîm Adfywio mae'r Cyngor yn ymchwilio cyfleoedd i sicrhau cyfran o grant 'Creu Lleoedd' Llywodraeth Cymru yn ogystal â chyllid refeniw Trawsnewid Trefi a'r gronfa fusnes Trawsnewid Trefi.

---

[13] Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Gynllunio i Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19 (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020) - https://gov.wales/planning-policy-covid-19-recovery ; llythyr Llywodraeth Cymru am hawliau datblygu dros dro a ganiateir yng nghanol trefi, , 30 Mawrth 2021 - https://gov.wales/coronavirus-covid-19-new-temporary-permitted-development-rights-support-economic-recovery-html

7.25 Er bod y cynnydd am ddwy flynedd yn olynol mewn cyfraddau unedau gwag yn y Fenni a Threfynwy yn achos consyrn, mae pob canolfan heblaw am Drefynwy yn is neu'n fras debyg i gyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr (13.76% Rhagfyr 2020, Local Data Company), gan ddangos fod canol trefi a chanolfannau lleol Sir Fynwy yn gweithredu'n effeithlon gan bennaf. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol a'r arolygon manwerthu blynyddol.

7.26 Yn unol â hynny, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn argymell y dilynol:

1. Parhau i ddatblygu gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae cyfnod ffurfiol nesaf y Cynllun yn cynnwys ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir yn Haf 2021.

2. Parhau i weithio gyda'r sefydliadau perthnasol i ganfod datrysiad i faterion ansawdd dŵr ffosffadau yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Wysg a Gwy.

3. Cyflwyno'r seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2021 yn unol â'r gofynion statudol. Cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar wefan y Cyngor.

4. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol olynol.

**Atodiad 1 – Amseriad a Chyflwyno Safleoedd**

**Dyraniadau**

| **Haen Anheddiad/ Anheddiad** | **Enw Safle a Ddyrannwyd** | **Cyfanswm capasiti safle** | **Datblygu (Ebrill 2021 – Rhagfyr 2021)** | | | **Unedau tu hwnt i gyfnod y cynllun** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cwblhau | U/C | 2021-22* | 2021-22** | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
| **Prif Drefi** | | | | | | | | | | |
| Y Fenni | Fferm Deri (DC/2014/01360) | 250 | 183 | 51 | 0 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Coed Glas (DC/2015/01587) | 51 | 51 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cas-gwent | Fairfield Mabey (DM/2019/00001 a DM/2019/01960) | 373 | 18 | 59 | 0 | 11 | 94 | 68 | 68 | 55 |
| Trefynwy | Heol Wonastow (DC/2015/00390 a DC/2015/00392) | 340 | 340 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol Wonastow (gweddill safle) | 110 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35 | 35 |
| | Heol Tudor Wyesham | 35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 20 |
| **Aneddiadau Glannau Hafren** | | | | | | | | | | |
| Porthysgewin Heol Crug | Heol Crug (DM/2019/01041) | 269 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | 50 | 50 | 50 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Fferm Rockfield (Cyfnod 1)(DM/2018/01606)*** | 144 | 57 | 17 | 16 | 11 | 43 | 0 | 0 | 0 |
| Magwyr a Gwndy | Fferm Rockfield (gweddill y safle) (DM/2016/00883(O/L)) | 122 | 0 | 0 | 0 | 0 | 17 | 35 | 35 | 35 |
| | Tir yn Vinegar Hill; (DM/2019/01937)**** | 155 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 40 | 40 | 40 |
| | Tir yn Vinegar Hill (gweddill y safle) | 70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sudbrook | Hen Felin Bapur (DC/2015/01184) | 210 | 124 | 14 | 16 | 10 | 40 | 6 | 0 | |
| **Aneddiadau Gwledig Eilaidd** | | | | | | | | | | |
| Penperllenni | Tir i'r de o Heol Brynbuga (DC/2013/01001) | 40 | 40 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhaglan | Tir yn Heol Cas-gwent (DM/2018/00769)(O/L) | 45 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 25 | 0 | 0 |
| Brynbuga | Cwrt Burrium***** | 7 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Prif Bentrefi** | | | | | | | | | | |
| Cross Ash | Tir ger Garej Cross Ash (DM/2017/01335) | 6 | 0 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 |
| | Tir ger Neuadd y Pentref | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Devauden | Tir yn Well Lane (DM/2018/01741 | 15 | 0 | 0 | 5 | 2 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| Llanddingad | Tir i'r de ddwyrain (DM/2018/01404) | 15 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| Grysmwnt | Tir i'r gorllewin | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Feln Fach | Tir i'r gogledd | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 0 |
| Llanddewi Rhydderch | Tir tu ôl Neuadd y Pentref | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanelen | Tir i'r gogledd orllewin | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llanfair Cilgedin | Tir i'r gogledd (DM/2018/02001(O/L)) | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Llangybi | Tir yn Heol Ton | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 0 |
| Llanisien | Tir i gefn Carpenters Arms (DM/2016/00415(O/L)) (DM/2019/02053) | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol yr Eglwys | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Matharn | Tir i'r gorllewin | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penallt | Tir i'r de orllewin (DM/2015/00606) | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 0 | 0 | 0 |
| Pwllmeurig | Hill Farm | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Drenewydd Gellifarch | Tir i'r dwyrain (i'r de o fân heol) DM/2018/02066(O/L)) | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 |
| Werngifford Pandy | Tir gerllaw | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 0 |

* Mae cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn ymestyn i fis Rhagfyr 2021 – mae ffigurau'n cynnwys 9 mis o fis Ebrill 2021 i fis Rhagfyr 2021

** Mae cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn ymestyn i fis Rhagfyr 2021 – mae ffigurau'n cynnwys 3 mis o fis Ionawr 2022 i fis Mawrth 2022

*** Caniatâd amlinellol gwreiddiol ar gyfer 266 annedd. Mae cyfnod 1 y datblygiad yn 144 annedd

**** Cais hybrid am 155 annedd - 72 fel ceisiadua llawn, 83 amlinellol yn unig

***** Cymeradwywyd 23.04.20 ar gyfer 7 annedd

**Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio**

| Haen Anheddiad/ Anheddiad | Enw Safle | Cyfanswm capasiti safle | Datblygiad Ebrill 2021-Rhagfyr 2021 | | | Unedau tu hwnt i gyfnod y cynllun | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Completions | U/C | 2021-22* | 2021-22** | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
| **Prif Drefi** | | | | | | | | | | |
| Y Fenni | Heol Rhosan (DC/2007/01679) | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol Rhosan (DC/2008/00024(O/L)) | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Mulberry House (DM/2014/01015) | 25 | 0 | 7 | 0 | 0 | 18 | 0 | 0 | 0 |
| | Llys Ynadon (DM/2018/00007) | 47 | 47 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 17-25 Heol Aberhonddu (DM/2018/00156) | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cas-gwent | Osborn International (DC/2009/00910) | 169 | 40 | 4 | 18 | 8 | 30 | 30 | 30 | 9 |
| Trefynwy | Heol Hillcrest, Wyesham (DM/2019/02054) | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 | 0 | 0 |
| | Tir i’r gorllewin o Heol Rockfield (DM/2017/00539(O/L)) | 70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 35 | 35 |
| **Aneddiadau Glannau Hafren** | | | | | | | | | | |
| Cil-y-coed | Hen White Hart Inn (DC/2013/00796) | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Heol yr Eglwys (DM/2019/01761) | 130 | 0 | 4 | 26 | 10 | 36 | 36 | 18 | 0 |
| Rogiet | Green Farm (DC/2015/01328) | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 6 | 0 |
| | Ifton Manor Farm (DC/2015/00095) | 14 | 12 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sudbrook | Hen Iard Longau (DM/2018/01828) | 46 | 22 | 3 | 15 | 6 | 0 | 0 | 0 | |
| **Aneddiadau Gwledig Eilaidd** | | | | | | | | | | |
| Llan-ffwyst | Tir yn Grove Farm (DM/2019/00346) | 106 | 0 | 6 | 20 | 9 | 35 | 36 | 0 | 0 |
| **Gwledig** | | | | | | | | | | |
| Llanelen | Llanellen Court Farm (DC/2015/00474) | 14 | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Llanellen Court Farm (DC/2015/00983) | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 |